Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
56/2018

DYDDIAD CYHOEDDI:
3 HYDREF 2018

# Gwerthusiad o'r Rhaglen Ariannu Hyblyg

## Adroddiad Interim

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78964-275-9

Gwerthusiad o’r Rhaglen Ariannu Hyblyg: Adroddiad Interim

Simon Tanner, Oliver Allies, Louise Starks, Ioan Teifi, Lesley Wilkinson

Wavehill Ltd

Barn yr ymchwilwyr ac nid Llywodraeth Cymru o reidrwydd yw’r barnau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Sara Ahmad
Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: sara.ahmad@llyw.cymru

**Tabl cynnwys**

Geirfa ..... 4
Crynodeb Gweithredol ..... 5
Nodau a dull y gwerthusiad ..... 5
Canfyddiadau interim allweddol ..... 6
Casgliadau ..... 7
Argymhellion ..... 8
1. Cyflwyniad ..... 10
Ariannu Hyblyg ..... 10
Y gwerthusiad ..... 12
Cefndir ..... 12
Y rhaglen Ariannu Hyblyg ..... 14
Safbwyntiau rhanddeiliaid ychwanegol ..... 16
2. Methodoleg ..... 17
Cyfnod olaf y gwerthusiad ..... 19
3. Mewnwelediad o Ymchwil a Deunydd Darllen Polisïau ..... 20
Yr achos o blaid ymyrraeth gynnar ..... 22
Yr achos dros integreiddio gwasanaethau ..... 25
Tystiolaeth o integreiddio sy’n lleihau gwariant sector cyhoeddus ..... 28
Heriau o ran cynllunio a datblygu gwasanaethau integredig ..... 29
Heriau o ran gweithio mewn partneriaeth ..... 30
Llwyddiant wrth integreiddio gwasanaethau ..... 31
Datblygu monitro a chanlyniadau priodol ..... 33
4. Theori Newid Rhaglen ..... 37
5. Mewnwelediad Cynnar i Weithrediad y Rhaglen ..... 40
Cysoniad strategol o weithrediad rhaglenni ..... 42
Nodau ac uchelgais ..... 45
Dulliau cyflwyno cynnar ..... 48
Llywodraethu, partneriaeth a ffocws rhanbarthol (PSBs ac RCCs) ..... 53
Canlyniadau cynnar ..... 54

Monitro rhaglen Ariannu Hyblyg a'r fframwaith canlyniadau ar y cyd ..... 55
Cynigion ar gyfer fframwaith canlyniadau ..... 57
6. Gwersi a Ddysgwyd o Weithredu'r Rhaglen Ariannu Hyblyg ..... 59
7. Casgliadau ..... 63
8. Argymhellion ..... 67
Y Rhaglen EIPS/Ariannu Hyblyg ..... 67
Y Camau Nesaf ar gyfer y Gwerthusiad ..... 68
Cyfeiriadau ..... 70
Atodiad A - Atodlenni Cwestiynau Cyfweliad Cwmpasu ..... 74
Atodiad B - Astudiaethau Achos Ar gyfer Gweithredu'r Rhaglen ..... 97

**Rhestr tablau**

Tabl 1.1: Grantiau sydd wedi eu cynnwys fel rhan o raglen Ariannu Hyblyg 2018/19..........11
Tabl 2.1: Trosolwg o Gyfweliadau Cyfnod 1 a Gwblhawyd – Mehefin – Awst 2018.............18
Tabl 5.1: Mesurau Canlyniad a Gynigir gan Gynrychiolwyr Gweithdai (Mehefin – Gorffennaf 2018)....................58

**Rhestr ffigurau**

Ffigur 4.1: Theori Newid – Rhaglen Ariannu Hyblyg ....................39

**Geirfa**

| Acronym | Diffiniad |
|---|---|
| DCLG | Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol |
| CaW+ | Cymunedau am Waith a Mwy |
| CLILC | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| CRIA | Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Dynol |
| EIA | Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb |
| EIPS | Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chefnogi |
| MHCLG | Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol cyn hynny) |
| NAO | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| OBA | Atebolrwydd yn ôl Canlyniadau |
| PAC | Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus |
| PPE | Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc |
| PSB | Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus |
| RBA | Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau |
| RCCs | Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol |
| RhCT | Rhondda Cynon Taf |
| UDA | Uwch Dîm Arweinyddiaeth |

## Crynodeb Gweithredol

### Nodau a dull y gwerthusiad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu canfyddiadau cyfnod interim gwerthusiad y rhaglen Ariannu Hyblyg a gynhaliwyd rhwng mis Mai a mis Awst 2018. Bydd cyfnod olaf y gwaith gwerthuso'n cael ei gynnal ar ddechrau 2019 i ddilyn trywydd y cynnydd a wnaed ym mlwyddyn gyntaf y peilot.

Y rhaglen Ariannu Hyblyg yw'r dull diweddaraf o sicrhau bod gwahanol grantiau'n cydweithio gyda'r nod o ddarparu mwy o ymreolaeth i'r awdurdod lleol gyflwyno gwasanaethau, yn enwedig o ran cynllunio a chomisiynu ar y cyd i gefnogi canlyniadau'n well. Nod y rhyddid ychwanegol hwn yw caniatáu dull mwy strategol o gyflwyno ymyrraeth gynnar, atal a chefnogi (EIPS).

Mae saith awdurdod lleol braenaru a hunanenwebwyd yng Nghymru'n rhoi dulliau ar brawf yn 2018/19: Conwy, Caerdydd, Casnewydd, Torfaen, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful, yn ogystal â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf[1].Mae gan yr awdurdodau braenaru hyn hyblygrwydd llwyr (100 y cant o'r gyllideb) ar draws deg grant[2]. Yn ogystal, mae Ariannu Hyblyg yn darparu hyblygrwydd estynedig ar ffurf symudiad o 15 y cant ar draws pum grant[3] (Llywodraeth Cymru, 2017) i'r 15 awdurdod lleol sy'n weddill yng Nghymru (awdurdodau eraill/nad ydynt yn rhai braenaru).

Yn dilyn ymarfer tendro cystadleuol ym mis Ebrill 2018, comisiynodd Llywodraeth Cymru gwmni Wavehill i ymgymryd â gwerthusiad o'r rhaglen Ariannu Hyblyg. Nod y gwaith gwerthuso yw darparu gwybodaeth rymus ac amserol ar weithrediad y rhaglen a deall sut bydd y gwaith o'i chyflwyno'n effeithio ar gyflawni canlyniadau yn y tymor hwy.

Coladwyd cyfoeth o wybodaeth o gyfweliadau (62) gydag arweinwyr rhaglen a grant Ariannu Hyblyg mewn awdurdodau lleol (braenaru ac eraill) yn ogystal â'r Llywodraeth Leol, partneriaid a rhanddeiliaid. Ychwanegwyd at hyn gan waith adolygu deunydd darllen a pholisïau a phedwar gweithdy'n adolygu opsiynau ar gyfer fframwaith canlyniadau ar gyfer y rhaglen.

[1] Cydweithio gyda Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.
[2] Mae'r deg grant yn cynnwys: Cefnogi Pobl, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Y Gronfa Waddol, Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc; Gofal Plant a Chwarae (Gofal Plant y Tu Allan i Ysgol yn flaenorol); Atal Digartrefedd; Gorfodi Rhentu Doeth Cymru (Byw yn Annibynnol yn flaenorol); Cronfa Dydd Gŵyl Dewi, a Chymunedau am Waith a Mwy (y Grant Cyflogadwyedd cyn hynny).
[3] Mae'r pum grant yn cynnwys: Cefnogi Pobl; Dechrau'n Deg; Teuluoedd yn Gyntaf; Y Gronfa Waddol; a Chymunedau am Waith a Mwy.

**Canfyddiadau interim allweddol**

Er bod y rhaglen Ariannu Hyblyg yn parhau i fod yn y cyfnod cynnar o ran cyflwyno, sy'n golygu nad oes darlun pendant o lwyddiant neu ddiffyg llwyddiant y rhaglen wedi dod i'r amlwg eto, dengys y canfyddiadau interim arwyddion cychwynnol o ddatblygiadau cadarnhaol o ran cyflwyno'r rhaglen. Mae'r themâu interim cyffredin yn dangos:

- ei bod hi'n dal yn gynnar i weithredu'r rhaglen; mae gweithgareddau adolygu'n tra-arglwyddiaethu ac mae nifer o achosion busnes yn parhau i gael eu creu yn y rhan fwyaf o awdurdodau i helpu symud y gweithrediad yn ei flaen.
- bod cynnydd yn gyffredinol gysylltiedig â 'fframwaith' presennol neu broses i gyflwyno agenda'r rhaglen, a lle mae amser eisoes wedi'i roi i weithio ar y fframwaith hwnnw neu'r agenda honno.
- mae sawl awdurdod (braenaru ac eraill) eisoes yn dangos cydweithio, gan gynnwys rhywfaint o 'hyblygrwydd' yn eu defnydd o gyllid. Ac eto, mae dulliau llawer o awdurdodau lleol o ddefnyddio hyblygrwydd mewn cyllid yn 'anstrategol' ac yn aml yn cael eu defnyddio i osgoi tanwariant yn hytrach na'i defnyddio fel cyswllt i ethos gwella gwasanaethau ehangach.
- mae ystod o ddulliau cyflwyno'n gynnar wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddod â phobl at ei gilydd, hwyluso sgyrsiau 'newydd', adolygu ac asesu natur taith y defnyddiwr gwasanaeth, a chanfod nad yw'r isadeiledd rheoli rhaglenni presennol (TG) yn darparu'r wybodaeth iawn am deithiau defnyddwyr gwasanaeth ar hyn o bryd.
- mae llawer o ddulliau cynnar yn rhagflaenu gweithrediad y gwahanol raglenni sy'n dangos ethos 'etifeddol' gwaelodol o gydweithio. Mae'r cysoniad yn fwyaf amlwg mewn awdurdodau (braenaru ac eraill) ar draws gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai a'r rhai mewn meysydd heb fod yn gysylltiedig â thai fel Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Y Gronfa Waddol a Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc. Er bod rhai ardaloedd wedi uno'r ddau batrwm hwn gyda'i gilydd, her allweddol i'r rhaglen fydd cysoni'r ddau yn fwy.
- mae cael yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth i gofrestru i nodau ac uchelgeisiau'r rhaglen Ariannu Hyblyg, yn enwedig y rhai sy'n ysgogi'r gwaith o gyflwyno'n lleol, yn hollbwysig ar gyfer cynnydd llwyddiannus ond rhaid iddo fod ar draws ystod o lefelau o'r brig i'r gwaelod, er mwyn ysgogi negeseuon cyson. Mae'n bwysig bod dealltwriaeth dda o'r anghenion a'r rhwystrau/bylchau wrth gyflwyno gwasanaethau a'r 'daith' y cymer defnyddwyr i gael cefnogaeth yn sail i hyn.

- mae rhai awdurdodau'n amharod i fod yn arloesol oherwydd nid ydynt yn siŵr a fydd Llywodraeth Cymru'n parhau gyda'r dull Ariannu Hyblyg ac maen nhw'n poeni y gallai adnoddau gael eu gwastraffu os na fydd yn cael ei weithredu'n llawn.
- mae'r canlyniadau hyd yma wedi'u cyfyngu i lefel awdurdod lleol, sy'n cynnwys cychwyn grwpiau grantiau ar y cyd yn bennaf gyda rhai eisoes yn cyfarfod, rhywfaint o ailstrwythuro sefydliadol a dynodi newid mewn arferion gweithio a chynigion ar gyfer 'cerbydau' newid eraill (Hybiau Cymunedol, Ffocws Lleoedd Lleol). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y cynhaliwyd y gwaith o gyflwyno'r rhaglen Ariannu Hyblyg dim ond am gyfnod byr o amser (ychydig dros bedwar mis).

**Casgliadau**

- Mae cynnydd pob rhaglen wedi canolbwyntio ar awdurdodau braenaru'n sefydlu adolygiadau o wasanaethau, asesu opsiynau llywodraethu/rheoli, a sefydlu fforymau (os nad ydynt ar waith yn barod), lle gall staff y rhaglen adolygu'r gwaith cyflwyno sydd ohoni. Mae hyn yn hwyluso'r ddealltwriaeth o ddulliau eraill o gyflwyno gwasanaethau ac yn helpu i ddechrau'r broses o ddynodi opsiynau ar gyfer cydweithio ac integreiddio gwasanaethau potensial. I awdurdodau nad ydynt yn rhai braenaru, mae'r rheidrwydd yn llawer llai amlwg ond mae rhai eisoes yn cymryd camau breision.
- Awgryma tystiolaeth o ddeunyddiau darllen a chanfyddiadau cynnar gan awdurdodau braenaru fod cael gweledigaeth ac ethos clir a chefnogaeth gref yr uwch arweinyddiaeth yn darparu seiliau cadarn i wneud cynnydd ar nodau Ariannu Hyblyg. At hynny, mae llwyddiant cynnar yn fwy tebygol lle mae partneriaethau gweithredu, fframweithiau neu raglenni trawsnewid cryfion eisoes ar waith. Golyga hyn fod yr agenda'n cael ei ffurfio gan yr hyn sy'n angenrheidiol i ail-ddylunio gwasanaethau yn hytrach nag agenda wedi'i gwanhau gan ffocws wedi'i ddargyfeirio ar agenda toriadau ehangach wrth i'r cyni barhau.
- Oherwydd yr heriau o fesur effaith mewn ymyrraeth gynnar, hwyrach y bydd angen ystyried amserlen hwy i gael effaith wirioneddol fesuradwy. Hwyrach mai dim ond dangosyddion procsi ar gyfer y canlyniadau a ddymunir ar gyfer y tymor hwy yw unrhyw ganlyniadau llwyddiannus a welir yn y tymor byr. Mewnwelediadau yw'r rhain y bydd angen eu hadlewyrchu yn natblygiad parhaus fframwaith canlyniadau cyffredin i gefnogi'r gwaith o gyflwyno rhaglenni.

- Mae gwaith bellach yn mynd rhagddo ar draws awdurdodau lleol - yn enwedig awdurdodau braenaru. Mae angen rhoi amser i hyn ddwyn ffrwyth a bydd pob awdurdod lleol yn cael cefnogaeth os bydd y negeseuon cyson yn cadarnhau bod yr ymchwiliad i'r agenda a hyrwyddir gan y rhaglen Ariannu Hyblyg a'r grant EIPS potensial yn mynd i barhau.
- Bydd danfon negeseuon cyson yn ymgorffori'r dysgu a'r ymarfer o'r gwaith sefydlu cynnar hwn a'r gwerthusiad o'r canlyniadau. Dylai bwysleisio y gellir gwella dulliau seiliedig ar anghenion i gyflwyno cefnogaeth i grwpiau diamddiffyn trwy bwyntiau mynediad sengl, lle mae gwaith dadansoddi anghenion sengl a chyflwyno cefnogaeth yn ddi-dor yn sail iddynt. Mae hyn i gyd yn gofyn am ddull systemig o newid lle mae arweinyddiaeth gref a dull trawsnewidiol wrth wraidd er mwyn cefnogi dylunio gwasanaethau i grwpiau agored i niwed.

**Argymhellion**

Mae'r argymhellion yn dynodi meysydd allweddol lle mae mewnwelediadau interim yn cynnig rhai safbwyntiau defnyddiol i ddylanwadu ar weithrediad a chyflwyniad parhaus y rhaglen Ariannu Hyblyg, a'r camau nesaf ar gyfer y gwaith gwerthuso.

*Rhaglen EIPS/Ariannu Hyblyg*

- Mae angen sicrwydd ar awdurdodau lleol a'u staff y bydd yr agenda sy'n sail i'r grant EIPS potensial yn parhau am y flwyddyn nesaf o leiaf, er mwyn caniatáu ar gyfer ystyried yn llawn y camau gweithredu y mae awdurdodau braenaru wrthi'n eu datblygu pan fydd eu hadolygiadau o gyflwyno gwasanaethau'n cloi.
- Lle bo'n bosibl, dylid gwneud penderfyniadau cyllid grant yn gynnar ac efallai cynnwys ymrwymiadau ar draws cyfnod ariannu o 2-3 blynedd er mwyn galluogi awdurdodau i gynllunio'r cyflwyniad dros y tymor canolig o leiaf.
- Dylai gwerthusiad y rhaglen Ariannu Hyblyg ymgorffori ymchwiliad i'r opsiwn dau grant ar gyfer y grant EIPS potensial yn ei chyfnod nesaf.
- Dylai'r Tîm Trosglwyddo Cyllid barhau i ddatblygu rhaglen systematig o ddiweddariadau a darpariaeth gwybodaeth gan gynnwys sesiynau gan awdurdodau braenaru sy'n cynnig cipolwg manwl i'w gwaith o gyflwyno'u rhaglen Ariannu Hyblyg.
- Gellid gwahodd awdurdodau nad ydynt yn rhai braenaru i ddechrau ymchwilio i opsiynau i symud i hyblygrwydd ariannu llawn a mabwysiadu statws braenaru newydd, lle bo hynny'n briodol.

- Dylid darparu negeseuon cyson pellach ynghylch y nodau a’r uchelgeisiau ar gyfer y grant EIPS potensial i sicrhau y deellir blaenoriaeth y ffocws hwn ar raddfa ehangach.

*Y Camau Nesaf ar gyfer y Gwerthusiad*

Gallai ffocws cyfnod terfynol y gwaith gwerthuso ystyried:

- adolygu’r gwaith o fraenaru yn erbyn eu cynlluniau a’r ffactorau sydd wedi cyfrannu at lwyddiant (a methiant) i ddysgu gwersi er mwyn cyflwyno’r rhaglen i’r dyfodol;
- effeithlonrwydd yr opsiwn dau grant arfaethedig, ei fanteision a’i anfanteision o gymharu â grant EIPS sengl potensial;
- asesu sut gallai arbenigeddau priodol o gwmpas yr anghenion mwyaf cymhleth gael eu cynnal ymhlith staff wrth iddynt symud i rolau mwy cyffredinol o bosibl;
- astudio effeithiau a chanlyniadau cyflwyno’r rhaglen ymhellach i awdurdodau lleol a’u staff, sefydliadau rhanddeiliaid a phartneriaid (strategol a chyflwyno), strwythurau rhanbarthol a PSBs, ac yn benodol ydy defnyddwyr gwasanaeth yn dechrau gweld effeithiau ail-ddylunio gwasanaethau;
- a gwaith pellach yn datblygu fframwaith canlyniadau cyffredinol sydd wedi’i gysoni â gwaith parhaus Llywodraeth Cymru yn asesu canlyniadau ar draws grantiau presennol.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Yng Nghymru, nod nifer o raglenni yw cynorthwyo pobl neu gymunedau sy'n agored i niwed, sydd wedi cael eu sefydlu dros y blynyddoedd gan Lywodraeth Cymru. Maent yn ceisio mynd i'r afael ag anfantais, yn anelu at atal canlyniadau negyddol tymor hwy i unigolion a theuluoedd ac yn hwyluso ymyrraeth gynnar, a meithrin cydnerthedd ymhlith unigolion a chymunedau. Fodd bynnag, mae grant penodol sydd â'i ofynion a'i gyfyngiadau ei hun, a chostau a gweinyddu cysylltiedig yn sail i bob rhaglen.

1.2 Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, bu Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gysoni grantiau amrywiol, gyda'r bwriad o alluogi ail-ddylunio gwasanaethau i gyflwyno gwelliannau cynaliadwy mewn canlyniadau i bobl ledled Cymru.

**Ariannu Hyblyg**

1.3 Ariannu Hyblyg yw'r diweddaraf mewn cyfres o gamau i sicrhau bod gwahanol raglenni'n gweithio gyda'i gilydd gyda'r nod o ddarparu mwy o ymreolaeth ynglŷn â sut y cyflwynir gwasanaethau, yn enwedig o ran cynllunio a chomisiynu ar y cyd i gefnogi canlyniadau'n well. Nod y rhyddid ychwanegol yw caniatàu dull mwy strategol o gyflawni ymyrraeth gynnar, atal a chefnogi ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas mewn ffordd strategol a thraws-sefydliadol (Llywodraeth Cymru, 2018a).

1.4 Mae saith awdurdod lleol 'braenaru' yng Nghymru'n rhoi dulliau o ddiwallu'r nodau hyn ar brawf yn 2018/19. Roedd yr awdurdodau braenaru yn dewis eu hunain, gan enwebu eu hunain. Y saith awdurdod braenaru yw: Conwy, Caerdydd, Casnewydd, Torfaen, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, yn ogystal â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf[4].Trwy Ariannu Hyblyg, mae gan yr awdurdodau braenaru hyn hyblygrwydd llwyr (100 y cant o'r gyllideb) ar draws deg grant (gweler Tabl 1.1).

1.5 Mae Ariannu Hyblyg hefyd yn rhoi hyblygrwydd estynedig i'r 15 awdurdod lleol sy'n weddill yng Nghymru ('eraill/rhai nad ydynt yn braenaru') ar ffurf symudiad o 15 y cant ar draws llai o grantiau i gefnogi dechrau eu taith at feddwl yn fwy arloesol ynglŷn â chyflwyno gwasanaethau. Mae Tabl 1.1. yn dangos pa grantiau sy'n cael

[4] Trwy gydweithio â Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

eu cynnwys ar gyfer awdurdodau braenaru a rhai nad ydynt yn braenaru. Fodd bynnag, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2017 (Llywodraeth Cymru, 2017) y byddai lefelau cyllid Cefnogi Pobl yn cael eu cynnal yn unol ag ymrwymiadau cyllideb 2017/18 i'r graddau canlynol:

'*Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd awdurdodau lleol yn dyrannu arian i'r rhaglenni Cefnogi Pobl ar o leiaf yr un lefel â dyraniad Cefnogi Pobl oni bai eu bod yn gallu dangos eu bod yn siŵr y gallant ddarparu'r un gwasanaethau, neu wasanaethau gwell, am lai o arian o ganlyniad i arbedion.*' (Llywodraeth Cymru, 2018a, tud.2)

Felly, gallai hyn olygu i Cefnogi Pobl fod rhai cyfyngiadau'n cael eu gosod ar raddau'r hyblygrwydd o ran defnyddio'r cyllid ar gyfer y maes grant hwn.

**Tabl 1.1: Grantiau sydd wedi eu cynnwys fel rhan o raglen Ariannu Hyblyg 2018/19**

| Cyrff braenaru | Cyrff nad ydynt yn rhai braenaru |
|---|---|
| • Cefnogi Pobl<br>• Dechrau'n Deg<br>• Teuluoedd yn Gyntaf<br>• Y Gronfa Waddol<br>• Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol ymhlith Pobl Ifanc<br>• Gofal Plant a Chwarae (Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol yn flaenorol)<br>• Atal Digartrefedd<br>• Gorfodi Rhentu Doeth Cymru (Byw'n Annibynnol yn flaenorol)<br>• Cronfa Dydd Gŵyl Dewi<br>• Cymunedau am Waith a Mwy (y Grant Cyflogadwyedd yn flaenorol) | • Cefnogi Pobl<br>• Dechrau'n Deg<br>• Teuluoedd yn Gyntaf<br>• Y Gronfa Waddol<br>• Cymunedau am Waith a Mwy (y Grant Cyflogadwyedd yn flaenorol) |

### Y gwerthusiad

1.6 Yn dilyn ymarfer tendro cystadleuol ym mis Ebrill 2018, comisiynodd Llywodraeth Cymru gwmni Wavehill i ymgymryd â gwerthusiad o’r rhaglen Ariannu Hyblyg, i ddarparu gwybodaeth rymus ac amserol ar weithrediad y rhaglen a deall sut bydd y gwaith o’i chyflwyno’n effeithio ar gyflawni canlyniadau yn y tymor hwy. Bydd y dysgu a gafwyd trwy’r gwerthusiad yn cyfrannu at gysoni’r drefn o ran rhoi grantiau ar waith yn y dyfodol.

### Cefndir

1.7 Mae’r ffordd y caiff cyllid sector cyhoeddus ei ddarparu wedi cael ei ddefnyddio ers tro fel ysgogiad polisi gan y llywodraeth, yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Ochr yn ochr ag eirioli a deddfwriaeth, mae cyllid yn ganolog i gyflwyno amcanion polisi ar draws maes iechyd, addysg a gofal cymdeithasol. Mae ffrydiau cyllid eu hunain yn ffynhonnell refeniw allweddol sy’n sail i gryn dipyn o fuddsoddiad mewn seilwaith a gwasanaethau cyhoeddus. Hefyd, gall cyllid gwmpasu amcanion ehangach sy’n ceisio cynhyrchu newidiadau yn y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cydlynu a’u cyflwyno. Gall hyn gynnwys cymhellion sy’n ffurfio ffocws ac ymddygiadau ymarferwyr a sefydliadau, fel gwella ansawdd a chydlyniad gwasanaethau (Hood a Margetts, 2007). Mae cyllid yn cynrychioli offeryn pwysig i ffurfio a rheoli newid mewn gwasanaethau cyhoeddus.

1.8 Fel ysgogiad polisi, mae cyllid wedi cael ei ffurfweddu mewn gwahanol ffyrdd. Yn aml, defnyddir cyllid ar y cyd ag ysgogiadau eraill, gan gynnwys datblygu fframweithiau rheoleiddio. Yn aml, caiff tri neu bedwar ysgogiad eu rhoi ar waith gyda’i gilydd wrth weithio tuag at un fenter neu strategaeth. Wrth weithio tuag at amcanion ynghylch mynd i’r afael â digartrefedd, er enghraifft, defnyddiodd Llywodraeth Cymru ei rhwydwaith a’i gallu sefydliadol wrth ysgogi newid, ochr yn ochr â diwygiadau deddfwriaethol a ffrydiau cyllid mwy traddodiadol (Connell a St Denny, 2016).

1.9 Mae amrywiad sylweddol hefyd yn y ffordd y caiff cyllid ei weinyddu mewn awdurdodau lleol. Caiff y rhain eu ffurfio gan amcanion cyffredinol grant cyllid, a gallant gynnwys ffactorau fel gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy, trothwyon tystiolaethol, a gofynion arian cyfatebol.

1.10 Yn hanesyddol, bu esblygiad graddol yn y ffordd y mae cyllid wedi cael ei ddefnyddio fel ysgogiad polisi. Ar draws y llywodraeth yng Nghymru ac yn rhyngwladol, bu llawer o newidiadau nodedig oddi wrth gyflwyno gwasanaethau yn

uniongyrchol, tuag at brynu gwasanaethau gan sefydliadau partner. Mae'r model hwn yn parhau i esblygu, ac yn wir, mae'n amlwg o fewn modelau cyflwyno awdurdodau braenaru ar gyfer y rhaglen Ariannu Hyblyg.

1.11 Mae newidiadau eraill i fodelau ariannu'n cynnwys enghreifftiau sydd wedi rhoi mwy o bwyslais ar ganlyniadau prynu, (e.e. nifer y rhieni sy'n adrodd am berthnasoedd gwell gyda phlant yn dilyn cymorth â sgiliau rhianta), yn hytrach nag allbynnau (e.e. nifer y teuluoedd a gynorthwyir trwy ddosbarthiadau rhianta). Bu newidiadau mewn ffocws hefyd, gan gynnwys symud oddi wrth ddefnydd rhagnodol a deddfwriaethol o'r rheoliad sy'n amgylchynu cyllid, tuag at fwy o bwyslais ar fonitro safonau gwasanaeth, allbynnau, ac yn fwyaf diweddar, canlyniadau.

1.12 Bu cryn drafod ymhlith gwneuthurwyr polisi, ymarferwyr ac ymchwilwyr ynghylch effeithiolrwydd dulliau ariannu penodol o ran cyflawni amcanion polisi. Mae datblygiadau diweddar sy'n cysylltu cyllid yn agosach â chanlyniadau, er enghraifft, wedi cynhyrchu tystiolaeth anghyson. Mewn gwasanaethau iechyd, ceir tystiolaeth y gall cynlluniau talu am berfformiad arwain at ostyngiad clinigol sylweddol mewn cyfraddau marwolaethau, sef mesur moel o ansawdd gwasanaeth (Sutton et al., 2012).

1.13 Ceir tystiolaeth hefyd i awgrymu y gall gwobrwyo perfformiad gynhyrchu canlyniadau anfwriadol. Gall cymhellion am weithgareddau penodol (trwy daliad yn ôl model canlyniadau/deilliannau) droi sylw oddi wrth weithgareddau eraill sy'n bwysig ar gyfer deilliannau ehangach (Maisey et al., 2008), ond efallai na fyddant yn denu taliadau tebyg. Gall hyn arwain at gynyddu niferoedd y dangosyddion sy'n cael eu hychwanegu at fframweithiau canlyniadau i sicrhau bod digon o sylw'n cael ei roi i weithgareddau perthnasol. Trwy amryfusedd, gall hyn arwain at faich gwaith cynyddol, tra mae hefyd yn lleihau cydlyniad a gwerth data dilynol.

1.14 Her sylweddol wrth bennu effeithiolrwydd modelau cyllid yn gywir yw'r cymhlethdod cymharol ynglŷn â gweithredu. Caiff y cysylltiadau rhwng cyllid a chanlyniadau eu cyfryngu gan amryw o ffactorau, gweithgareddau a phrosesau. Caiff rhaglenni cyllid eu creu â'r rhagdybiaeth y bydd sefydliadau ac unigolion yn eu cymhwyso i adlewyrchu bwriad y polisi ac amgylchiadau lleol fel ei gilydd. Fodd bynnag, gallai darparwyr ac ymarferwyr ddehongli a mynegi bwriad polisi'n wahanol, yn enwedig o ran anghenion penodol cleientiaid.

1.15 Yn Dechrau'n Deg, er enghraifft, mae ymarferwyr yn aml wedi'i chael hi'n anodd peidio â chynorthwyo teuluoedd a oedd yn byw y tu allan i ardaloedd cymorth Dechrau'n Deg sy'n adlewyrchu, neu hyd yn oed yn mynd y tu hwnt i, anghenion y rheiny sy'n byw ynddynt. Ar lefel unigol, gall ymarferwyr ddehongli polisi trwy gymhwyso eu gwerthoedd proffesiynol sy'n gallu cynhyrchu 'anffyddlondeb egwyddorol' (Hoyle a Wallace, 2005). Gall hyn olygu y gallent ddilyn canllawiau polisi, ond gallai gweithwyr barhau i gymhwyso eu hagenda leol eu hunain neu benodol a allai fod y tu allan i fwriadau gwreiddiol penodol y polisi.

1.16 Mae troi mewnwelediad wedi'i greu o brofiad ac ymchwil yn bwysig yn y gwaith gwerthuso hwn. Bydd yn galluogi'r gwerthusiad i fod yn sensitif i heriau empirig posibl pennu effeithiolrwydd Ariannu Hyblyg yn gywir ar draws ei holl amcanion. Hefyd, bydd yn sicrhau sensitifrwydd i wahaniaethau mewn prosesau ar draws awdurdodau lleol, dulliau is-ranbarthol (Byrddau Gwasanaethau wedi'u cyfuno), a rhanbarthol (Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol neu drefniadau Bargen Ddinesig). Hefyd, bydd yn ceisio deall rôl agweddau tuag at, a'r diwylliant presennol sy'n amgylchynu integreiddio, gweithio mewn partneriaeth a chyfathrebu. Bydd hyn yn galluogi dealltwriaeth lawn o'r ffactorau a'r prosesau llwyddiant allweddol i helpu profi a mireinio'r sail resymegol ar gyfer y rhaglen Ariannu Hyblyg.

**Y rhaglen Ariannu Hyblyg**

1.17 Gellir gweld gwreiddiau'r dulliau a arweiniodd at y rhaglen Ariannu Hyblyg (Llywodraeth Cymru, 2018b) yn 2013/14 gyda ffocws cychwynnol ar y ffyrdd y gallai ail-ddylunio gwasanaethau gynnig mantais benodol i ymyrraeth gynnar, atal a chefnogi i fynd i'r afael ag anghenion defnyddwyr yn well. Dechreuwyd datblygu'r rhaglen Ariannu Hyblyg yn benodol ar ddiwedd 2016/dechrau 2017 pan oedd Llywodraeth Cymru yn archwilio opsiynau ar gyfer hyblygrwydd yn nefnydd awdurdodau lleol Cymru o grantiau ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cefnogi Pobl, a Chymunedau yn Gyntaf. Bu hyn yn canolbwyntio i ddechrau ar ganiatáu ychydig o hyblygrwydd mewn perthynas â 5 y cant o gyfanswm y cyllid ar gyfer y grantiau hyn i awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu symud[5] cyllid rhwng grantiau i gefnogi anghenion penodol y defnyddwyr hynny yr oedd yr awdurdodau'n gweithio gyda nhw.

[5] Cyfeirir at hyn yn aml fel 'trosglwyddo' neu drosglwyddo cyllid.

1.18 Yn dilyn hyn, cymeradwyodd Gweinidogion ddull lle roedd hyblygrwydd gwell o ran symud grantiau'n cael ei ragweld ar draws amrywiaeth ehangach o grantiau, gyda nod o gefnogi ail-ddylunio gwasanaethau gan awdurdodau lleol Cymru, i ddarparu gwasanaethau EIPS yn well er mwyn gwella'r ffyrdd yr oedd gwasanaethau o'r fath yn mynd i'r afael ag anghenion grwpiau ac unigolion sy'n agored i niwed.

1.19 Mae'r rhaglen Ariannu Hyblyg yn rhan allweddol o'r dull sy'n ceisio adolygu priodoldeb ad-drefnu a symleiddio deg grant yn un ffrwd gyllid. Mae hyn yn cynnwys grantiau sy'n ceisio mynd i'r afael â nifer o faterion sylweddol mewn cymunedau yng Nghymru, o ddigartrefedd i ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar.

1.20 Mae'r rhaglen ei hun yn cynnwys sawl amcan allweddol (addaswyd o Lywodraeth Cymru, 2018c):

- darparu mwy o ymreolaeth ynglŷn â sut caiff gwasanaethau eu cyflwyno, yn enwedig o ran cynllunio a chomisiynu ar y cyd
- darparu mwy o ryddid a hyblygrwydd ariannol i alluogi awdurdodau lleol i weithio'n wahanol
- galluogi awdurdodau lleol i 'gynllunio'n strategol ac yn gyfannol'
- galluogi ail-ddylunio gwasanaethau
- lleihau biwrocratiaeth ddiangen.

1.21 Mae'r amcanion hyn yn ceisio galluogi cydlynu adnoddau'n fwy effeithiol ac effeithlon ar lefel leol. Maent yn cynnwys y rhagdybiaeth y bydd awdurdodau lleol a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf, gyda mwy o hyblygrwydd, ymreolaeth ac atebolrwydd cysylltiedig, yn gallu ymateb yn well i anghenion lleol. Bydd gweithredoedd uniongyrchol Llywodraeth Cymru – trwy'r tîm Trosglwyddo Cyllid a thrwy roi'r rhaglen ar waith – hefyd yn cynorthwyo awdurdodau lleol a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf i ddatblygu cymwyseddau a phrofiad o amgylch cynllunio strategol a chyfannol, adolygu ac ail-ddylunio gwasanaethau, ac yn y pen draw, diwygio strwythurol o ran y ffordd y mae eu hawdurdod lleol yn gweithredu.

1.22 Eto, wrth ddefnyddio'r fanyleb werthuso yn uniongyrchol, mae'r ail gategori amcanion yn cynnwys cyfres o uchelgeisiau tymor hwy fel awydd:

- 'i gyflawni gwelliannau cynaliadwy mewn canlyniadau i bobl ledled Cymru'
- 'i leihau anfantais i'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas'

1.23 Mae'r amcanion hyn yn ceisio gwella canlyniadau pobl leol ar draws amrywiaeth eang o fesurau a adlewyrchir yn y grantiau sydd wedi'u cynnwys yn y prosiect. Nid yw'r canlyniadau hyn wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â gweithgarwch y mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd ag ef, ond â gweithgarwch y mae awdurdodau lleol, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf, a sefydliadau partner yn ymgymryd ag ef, gan gynnwys trwy gomisiynu a chyflwyno gwasanaethau rheng flaen.

**Safbwyntiau rhanddeiliaid ychwanegol [6]**

1.24 Un garfan o randdeiliaid sydd wedi mynegi safbwyntiau penodol yn y rhaglen Ariannu Hyblyg yn ddiweddar yw'r rheiny sy'n cynrychioli'r sector Tai. Mewn adroddiad diweddar gan Housing Matters Wales (2018), codwyd pryderon gan amryw o randdeiliaid y sector Tai am y cynigion ar gyfer y Grant Ymyrraeth Gynnar: Atal a Chefnogi newydd yn 2019/20, i uno dau grant digartrefedd (Cefnogi Pobl a'r Grant Atal Digartrefedd) gyda chyllid ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn rhai tai, fel gofal plant ac ymwelwyr iechyd i greu un grant EIPS. Mae eu pryderon yn ymwneud â'r ffaith y byddai un grant yn lleihau ffocws ar faterion hanfodol (fel digartrefedd a chysgu allan) a gallai o bosibl arwain at doriadau i wasanaethau.

1.25 Roedd y cynigion yn cynnwys opsiwn am un grant ar gyfer digartrefedd a gwasanaethau yn gysylltiedig â thai, ac un arall ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig â thai sy'n cwmpasu Gofal Plant a Chwarae, y Gronfa Waddol a Cymunedau am Waith a Mwy, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc a chronfa Dydd Gŵyl Dewi.

[6] Coladwyd y rhain o waith adolygu deunydd darllen, nid fel rhan o gyfweliadau gwerthuso.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r ymagwedd at y gwerthusiad yn cynnwys dau brif gyfnod casglu data ac adrodd am ddata. Ceisiodd **adroddiad interim y cyfnod cyntaf** (o Ebrill-Medi 2018) nodi mewnwelediad cynnar o bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn dilyn rhoi'r rhaglen Ariannu Hyblyg ar waith o fis Ebrill 2018.

2.2 Wrth gyflawni'r nod hwn, mae cyfnod cyntaf y gwerthusiad wedi cynnwys:

- **Cyfweliadau ffôn ansoddol**[7] [8] gyda'r canlynol:
  - arweinwyr rhaglen Ariannu Hyblyg awdurdodau lleol mewn awdurdodau braenaru ac awdurdodau nad ydynt yn rhai braenaru
  - arweinwyr enwebedig ar gyfer grantiau sy'n cael eu cwmpasu gan y rhaglen mewn awdurdodau braenaru ac awdurdodau nad ydynt yn rhai braenaru gyda mwy o bwyslais ar arweinwyr mewn awdurdodau braenaru. Nodwyd y rhain trwy ddefnyddio technegau 'cynyddu'n gyflym' a ddefnyddir mewn trafodaethau gydag arweinwyr ariannu hyblyg
  - arweinwyr a chynrychiolwyr enwebedig pedwar Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol[9] (Cwm Taf, Canolbarth a Gorllewin Cymru, Bae'r Gorllewin a'r Fro a Chaerdydd)
  - arweinwyr Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen Ariannu Hyblyg yn y tîm Trosglwyddo Cyllid a staff tîm Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru
  - arweinwyr Grantiau Llywodraeth Cymru ar gyfer pob un o'r deg grant sy'n cael eu cwmpasu gan y rhaglen

Crynhoir y dadansoddiad o gyfweliadau a gwblhawyd yn ôl math yn Nhabl 2.1.

---

[7] Gellir gweld manylion am nifer y cyfweliadau a gwblhawyd ym Mhennod 4 yn yr adran sy'n gysylltiedig â'r canfyddiadau ar roi'r rhaglen Ariannu Hyblyg ar waith yn gynnar.
[8] Gellir gweld amserlenni cwestiynau ar gyfer y cyfweliadau hyn yn Atodiad A.
[9] Mae Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn goruchwylio cyflwyno Cefnogi Pobl yn eu rhanbarth ac yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar ei gwariant yn eu rhanbarth, er bod Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn cynghori yn unig ac nid oes ganddynt bwerau gweithredol na chyllid. Cânt eu cynnal gan awdurdod lleol enwebedig ac maent yn trefnu cyfarfodydd rheolaidd i ddod â ffocws rhanbarthol penodol i gyflwyno Cefnogi Pobl ledled Cymru. Mae chwech o Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yng Nghymru.

**Tabl 2.1: Trosolwg o Gyfweliadau Cyfnod 1 a Gwblhawyd – Mehefin – Awst 2018**

| Math o bobl a gafodd eu cyfweld | Nifer y Cyfweliadau a Gwblhawyd |
|---|---|
| Arweinwyr Ariannu Hyblyg (awdurdodau braenaru) | 7 |
| Arweinwyr Ariannu Hyblyg (awdurdodau nad ydynt yn rhai braenaru) | 14[10] |
| Arweinwyr Grantiau (Awdurdodau Lleol - 14 awdurdod) | 23[11] |
| Arweinwyr Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol | 6[12] |
| Arweinwyr Ariannu Hyblyg (Llywodraeth Cymru) | 3 |
| Arweinwyr Grantiau (Llywodraeth Cymru)[13] | 9 |
| Cyfanswm y bobl a gafodd eu cyfweld | 62 |

- **adolygiad polisi desg ac o ddeunydd darllen** i nodi cyd-destun pellach ar gyfer ein hasesiad o roi'r rhaglen Ariannu Hyblyg ar waith hyd yma
- **adolygiad desg o'r monitro ariannol, y canllawiau a monitro canlyniadau'r deg grant presennol** – adolygodd hyn ganllawiau grantiau presennol a'r adroddiadau monitro chwarterol trosfwaol cyntaf a wnaed gan yr awdurdodau Braenaru. Trwy adolygu'r dogfennau canllawiau, ceisiwyd nodi meini prawf cymhwyster, trefniadau adrodd ariannol, a manylion am allbynnau/canlyniadau disgwyliedig o ddogfennau rhaglen. Aeth ati i nodi unrhyw elfennau cyffredin a gwahaniaethau rhwng y grantiau, er mwyn dynodi ble gallai cysondeb ddigwydd a sut gallai'r rhain ddarparu cyd-destun ar gyfer dynodi fframwaith canlyniadau cyffredin ar draws y rhaglen Ariannu Hyblyg.
- asesu **astudiaeth achos** rhoi'r rhaglen ar waith mewn tri awdurdod braenaru – Conwy, Casnewydd a RhCT[14] – gellir gweld manylion llawn yr astudiaethau achos yn Atodiad B.

[10] Ni lwyddasom i drefnu cyfweliad gydag awdurdod Powys adeg ysgrifennu'r adroddiad. Cyflenwyd cysylltiadau ac mae trefniadau'n cael eu gwneud i gynnal cyfweliad. Disgwylir cyfweld â dau unigolyn arall a fydd yn dod â'r cyfanswm i 63.

[11] Ni wnaeth wyth awdurdod lleol, gan gynnwys un awdurdod braenaru, awgrymu cysylltiadau ychwanegol yn eu hawdurdod i gyfweld gan eu bod yn teimlo nad oedd y cynnydd o ran cyflwyno'r rhaglen Ariannu Hyblyg yn ddigonol i rai eraill ddarparu unrhyw sylwadau ychwanegol ar gynnydd ar ddechrau'r rhaglen.

[12] Roedd y rhain yn cwmpasu cynrychiolwyr o bedwar o'r chwe Phwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yng Nghymru. Nid oedd modd i ni gyfweld â chynrychiolwyr o Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent a Gogledd Cymru gan nad oedd staff ar gael rhwng Gorffennaf ac Awst 2018.

[13] Mae'n cyfeirio at staff sy'n arweinwyr enwebedig ar gyfer pob un o'r deg grant yn Llywodraeth Cymru; sylwer bod rhai grantiau'n cael eu goruchwylio gan yr un arweinwyr.

[14] Dewiswyd astudiaethau achos i ddarparu rhaniad daearyddol ar draws Gogledd a De Cymru, ffocws ar gyflwyno arferion gweithio cyffredin ar y cyd, datblygu model Hyb Cymunedol, a chipolwg ar ffocws Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer cyflwyno'r rhaglen. Bydd yr astudiaethau achos hyn yn cael eu diweddaru yng ngwaith Cyfnod 2 a'u hychwanegu atynt gan saith arall i ddarparu darlun mwy cyflawn o gyflwyno'r rhaglen.

- pedwar **gweithdy adolygu canlyniadau** i gynorthwyo â datblygu rhaglen Theori Newid a'r fframwaith canlyniadau.

2.3 Mae cyfyngiadau'r dull hwn yn golygu nad ydym wedi gofyn am unrhyw farn ar effeithiau i ddefnyddwyr gwasanaeth yng nghyfnod cyntaf y gwaith gwerthuso. Y cynlluniau gwreiddiol oedd cynnal hyd at bump o asesiadau senario effaith ar ddinasyddion (CISA) yn y cyfnod gwerthuso interim, yn ogystal â'r elfennau a amlinellir uchod. Fodd bynnag, gohiriwyd yr asesiadau senario effaith ar ddinasyddion hyn pan ddangosodd y cyfweliadau fod awdurdodau braenaru o'r farn ei bod hi'n rhy gynnar i wneud asesiad grymus o effeithiau gweithredu'r rhaglen ar gleientiaid a oedd wedi bod yn mynd rhagddi er mis Ebrill 2018 yn unig. Penderfynwyd y byddai'n fwy buddiol canolbwyntio ar y dulliau gwerthuso hyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol pan oedd mwy o bosibilrwydd o ddynodi'r safbwyntiau pwysig hyn ar newid/canlyniadau yn deillio o'r rhaglen Ariannu Hyblyg.

**Cyfnod olaf y gwerthusiad**

2.4 Bydd cyfnod olaf y gwaith gwerthuso'n cynnwys ailadrodd elfennau o'r casglu data uchod i gynnwys:

- ail gyfweld ag ymatebwyr a ddynodwyd trwy'r cyfweliadau ansoddol uchod
- diweddaru'r deunydd darllen, y polisi a monitro gwaith adolygu
- diweddaru'r tair astudiaeth achos a chynnal saith arall
- datblygu'r rhaglen Theori Newid ymhellach trwy weithdai gydag arweinwyr rhaglen Ariannu Hyblyg a staff arwain grantiau cysylltiedig ar draws awdurdodau braenaru ac awdurdodau nad ydynt yn rhai braenaru
- coladu safbwyntiau newydd ar effeithiau a chanlyniadau'r rhaglen Ariannu Hyblyg ar ddefnyddwyr gwasanaeth trwy asesiadau senario effaith ar ddinasyddion i ddynodi profiadau cleientiaid o wasanaethau sy'n deillio o gyflwyno'r rhaglen ar gyfer tua 15-20 o gleientiaid a nodwyd.

2.5 Bydd cyfnod olaf y gwaith yn dechrau ym mis Chwefror 2019, gan roi cyfle i'r gwerthusiad gofnodi profiadau manylach o roi'r rhaglen Ariannu Hyblyg ar waith yn ystod rhan olaf blwyddyn ariannol 2018/19.

## 3. Mewnwelediad o Ymchwil a Deunydd Darllen Polisïau

3.1 Yn y bennod hon, rydym yn rhoi manylion y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'r adolygiad o ddeunydd darllen a gynhaliwyd ar gyfer gwerthuso polisi ac ymchwil berthnasol. Ceir cyfoeth o dystiolaeth ledled Lloegr ar y materion a godwyd yn y bennod hon gyda llai o lawer yn ymwneud yn benodol â Chymru. Mae'n bwysig cofio yn awdurdodau lleol Lloegr bod newidiadau cyllid wedi digwydd yn bennaf trwy newidiadau i'r Grant Cynnal Refeniw (RSG)[15] (Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2013b), ond yng Nghymru, mae newidiadau ariannu wedi digwydd trwy'r grantiau penodol y mae awdurdodau lleol yn eu derbyn. Er bod y dulliau hyn yn wahanol iawn, mae enghreifftiau yn Lloegr yn darparu safbwynt amgen ar sut gellir addasu trefniadau gwario arfaethedig. Hefyd, mae enghreifftiau yn Lloegr wedi cael eu cynnwys, gan fod amryw o awdurdodau Braenaru wedi adolygu gwaith ym Mryste a Swydd Caer fel rhan o'u gwaith gweithredu cynnar.

3.2 Mae'r adolygiad o ddeunydd darllen yn ceisio rhoi cyfleoedd a heriau'r rhaglen Ariannu Hyblyg yng nghyd-destun ehangach newid mewn awdurdodau lleol ledled y DU. Fel y bydd yr adrannau canlynol yn dangos hefyd, mae llawer o ddulliau gwahanol eisoes yn cael eu defnyddio, ac eto, nid oes tystiolaeth bendant fod unrhyw ddull penodol yn fwy llwyddiannus nag unrhyw ddull arall. Fodd bynnag, ceir amryw o egwyddorion cyffredin sy'n sail i'r rhan fwyaf o ddulliau a amlinellir isod.

3.3 Mae CLILC (2018) yn dangos ers cyllid 2009/10 ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru, bod addasu ar gyfer chwyddiant wedi gostwng 22% ac mae'n amlygu'r angen am welliannau pellach mewn gwerth am arian. Mae amcangyfrifon diweddar (Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 2017) ar wariant yn dangos y gallai fod angen iddo gynyddu o leiaf £129 miliwn (23%) rhwng 2015-16 a 2020-21 i fynd yn ôl at y gwariant cyfatebol y pen yn 2009/10. Mae hyn yn gyfanswm o 2.5% o gynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn.

3.4 Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn wynebu pwysau cyllid sylweddol, yr angen i wella effeithlonrwydd gwariant cyhoeddus, ac adolygu ymgysylltiad defnyddwyr mewn gwasanaethau cyhoeddus. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i gyni oedd amddiffyn gwasanaethau allweddol fel ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol (Llywodraeth Cymru, 2015) a chynyddu gwariant ar y GIG i fodloni'r pwysau o ran y galw. Mae hyn wedi cael effaith anochel yn y duedd ar i lawr ar y cyllid sydd ar gael

[15] Mae arian o grantiau penodol eraill yn ychwanegu at wariant refeniw cyllid y Grant Cymorth Refeniw ar unrhyw wasanaeth, yn ogystal â'r cyllid a gesglir trwy'r Dreth Gyngor yn yr ardal honno.

i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. Yn ôl ymchwil y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) (Amin-Smith, Phillips a Simpson, 2016), er bod toriadau i grantiau llywodraeth leol Cymru yn llai na'r rheiny i wasanaethau cyfatebol yn Lloegr, roedd yr effaith yn sylweddol o hyd, ac roedd amrywiad sylweddol rhwng awdurdodau.

3.5 I lawer o awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr, nid yw gwneud mwy gyda llai neu wneud yr un fath gyda llai yn ymarferol ar ôl blynyddoedd o arbedion costau, a'r unig ddewis arall mewn gwirionedd yw adnabod ffyrdd newydd y gellid cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus i weithio'n well gyda'r adnoddau sydd ar gael. Mae gan awdurdodau lleol dasg anodd iawn i sicrhau cydbwysedd rhwng gofynion cystadleuol a gofynion deddfwriaethol. Mae hyn heb amheuaeth yn flaenoriaeth allweddol i bob awdurdod lleol ac yn faes ffocws helaeth ledled y DU.

3.6 Yn ddiweddar, amlygwyd effaith llai o gyllid i awdurdodau lleol yn Lloegr gydag Awdurdod Lleol Swydd Northampton yn datgan y gallant gyflwyno gwasanaethau craidd yn unig. Amlygir y pryder hwn hefyd mewn adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2016) sy'n amlinellu pryderon cynyddol ynglŷn â chynaliadwyedd awdurdodau lleol. Yn gynyddol, mae llyfrgelloedd a gwasanaethau allweddol naill ai'n gweithredu ar lefel gryn dipyn yn llai neu'n cau. Gallai canolfannau plant yn Lloegr fod yn enghraifft o hyn, a oedd yn cael eu gweld gan lawer fel model arfer da ac yn cynnig cymorth allweddol i blant a theuluoedd. Erbyn hyn, maent yn lleihau o ran nifer (Tŷ'r Cyffredin, 2016) ac o dan bwysau ariannol aruthrol. Mae'n glir fod y cefndir hwn yn ysgogiad gwirioneddol i weddnewid gwasanaethau ac ar adeg pan fo tystiolaeth (Devine, 2017) yn awgrymu bod nifer y teuluoedd sydd angen cymorth yn cynyddu.

3.7 Mae angen lleoli'r cynnig trosfwaol ar gyfer dull a ariennir yn unigol (ar gyfer y 10 ffrwd gyllid ar hyn o bryd) yng nghyd-destun ehangach newidiadau mewn gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar sy'n digwydd ar hyn o bryd trwy fentrau awdurdodau lleol ledled y DU. Mae llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr yn arloesi ac yn arbrofi â ffyrdd newydd o integreiddio gwasanaethau plant, y GIG a Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus trwy gysoni strategol gwell o ran darparwyr cenedlaethol, lleol a sector gwirfoddol. Mae datblygu cyllid fformiwla[16] yn gynnig

[16] Lle mae Llywodraethau'n ceisio sefydlu fformiwla ariannu cenedlaethol safonedig i ddyrannu cyllid i ardaloedd lleol mewn ffordd fwy cyson er mwyn i'r ardaloedd lleol hynny fod yn gliriach o ran eu cyllid craidd cyffredinol oherwydd ei gysondeb o ran cyfrifo ar sail patrymau a thueddiadau poblogaeth gwaelodol ac asesiadau o angen mewn ardal benodol.

uchelgeisiol ac mae'r her i awdurdodau lleol yn sylweddol os yw newid tymor hir sy'n ysgogi canlyniadau gwell ar gyfer pobl sy'n agored i niwed am gael ei gyflawni.

**Yr achos o blaid ymyrraeth gynnar**

3.8 O ganlyniad i'w manteision canfyddedig, mae ymyrraeth gynnar ac integreiddio manylach yn nodwedd mewn llawer o awdurdodau lleol ledled Cymru. Yn ôl cyfreithiau a amlinellir mewn Deddfau Seneddol, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu rhai gwasanaethau statudol. Mae'r cyfreithiau hyn yn cwmpasu gwasanaethau fel addysg, gofal cymdeithasol, arolygu iechyd yr amgylchedd a chynllunio. Mae cynghorau'n darparu rhai gwasanaethau'n uniongyrchol, ond mae llawer ohonynt yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i ddarparu gwasanaethau eraill, a gallant gomisiynu sefydliadau yn y sectorau preifat a gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau ar eu rhan.

3.9 Nid yw'r cysyniad o gyfuno cyllidebau a gwasanaethau integredig yn rhywbeth newydd: amlinellodd Integreiddio Gwasanaethau Plant (Y Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus, 2003) y manteision allweddol ar gyfer integreiddio a ffocws ar ymyrraeth gynnar. Roedd themâu tebyg i ddatblygu Ymddiriedolaethau Plant yn 2008 a Chyllidebau Cymunedol yn 2011 yn Lloegr o ran gweddnewid y sector cyhoeddus a set o elfennau hyblygrwydd a oedd yn cefnogi newid a gweddnewid y system gyfan. Mae amryw o raglenni a mentrau'n parhau, er enghraifft Teuluoedd yn Gyntaf yng Nghymru a Troubled Families yn Lloegr, sy'n canolbwyntio ar weddnewid gwasanaethau, integreiddio a dulliau cymorth cynnar.

3.10 Mae'r achos o blaid ymyrraeth gynnar wedi cael ei wneud yn glir gan y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar[17], a sefydlwyd yn 2013, sydd wedi cymryd rôl ganolog mewn datblygu ymchwil, offer ac adnoddau i gefnogi datblygiad dulliau Ymyrraeth gynnar.

3.11 Mae deall y costau sydd wedi cael eu hosgoi o ymyrraeth gynnar yn ffactor pwysig wrth ystyried y goblygiadau o ran adnoddau a chostau wrth ailfodelu gwasanaethau. O ran costau sy'n cael eu hosgoi, ceir tystiolaeth gynyddol o'r cysylltiad cryf rhwng problemau ymddygiad cynnar a drwgweithredu a throseddoldeb diweddarach, hyd yn oed ar ôl rheoli ar gyfer nodweddion teuluol (gweler, er enghraifft Murray a Farrington, 2010). Ceir cysylltiadau hefyd rhwng problemau ymddygiad yn 10 ac 16 oed ac addysg wael a diweithdra. O ganlyniad, mae achos dros ymyrryd mor gynnar ag y bo modd, ym mywyd plentyn a gyda rhieni a'r teulu'n ehangach hefyd.

[17] Gweler Early Intervention Foundation i gael mwy o fanylion am y sefydliad.

3.12 Fodd bynnag, mae amcangyfrif asesiadau o'r gyfradd enillion ar ymyrraeth gynnar yn eithriadol o heriol am o leiaf dri rheswm, sef:

- mae mentrau fel Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnwys ymyriadau amrywiol gyda gwahanol fodelau cyflwyno a chanlyniadau. Bydd hyn yn ei gwneud yn anodd iawn nodi un gyfradd enillion benodol ar gyfer ymyrraeth gynnar yng Nghymru
- mae iddynt fanteision cyllidol, cymdeithasol ac/neu economaidd lluosog hefyd, sy'n amrywio o effeithiau tymor byr i dymor hir iawn sy'n rhychwantu cenedlaethau, sy'n golygu bod oedi rhwng buddsoddi mewn ymyrraeth gynnar a chyflawni ei manteision yn llawn
- mae costau a manteision yn cronni i asiantaethau amrywiol a lefelau llywodraeth (genedlaethol a lleol) yn ogystal ag i gymdeithas yn gyffredinol, yn ogystal â'r teuluoedd a'r plant eu hunain (Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, 2015).

3.13 Yn aml, bydd angen ymyriadau lluosog ar draws ystod o wasanaethau er mwyn adnabod teuluoedd yn gynnar tra'n darparu'r cymorth cywir hefyd i oresgyn cyfyngiadau mewn gweithredu teuluol, datblygiad gwybyddol ac emosiynol aelodau o deuluoedd, a chyfyngiadau mewn sgiliau/galluoedd rhianta.

3.14 Mae modelau sy'n cyfuno'r gwasanaethau hyn wedi cael eu treialu, a rhai ohonynt gyda thystiolaeth o gost effeithiolrwydd. Yn aml, mynegir canlyniadau o astudiaeth cost effeithiolrwydd fel cymhareb cost i arbedion (e.e. a yw'r rhaglen cefnogi teuluoedd hon yn dangos bod costau digonol yn cael eu hosgoi i'r pwrs cyhoeddus, sy'n llawer mwy na chost darparu'r gwasanaeth hwnnw?). Darperir un enghraifft o raglen Therapi aml-systemig (MST), sef ymyrraeth deuluol ddwys sy'n anelu at wrthdroi patrymau sefydledig o ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith pobl ifanc yn eu harddegau rhwng 12 ac 17 oed. Mae MST yn cyflwyno cymorth hynod ddwys i deuluoedd am ba bynnag hyd sydd ei angen i fynd i'r afael â phroblemau ar lefel y plentyn, y teulu, yr ysgol a'r gymuned. Caiff therapydd MST ei neilltuo ar gyfer pobl ifanc a ddynodwyd trwy'r system llys ieuenctid. Mae'r therapydd ar gael i'r teulu 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, ond yn nodweddiadol, mae'n darparu therapi i unigolion a theuluoedd trwy ymweliadau wythnosol am gyfnodau rhwng pedwar a chwe mis. Er bod yr unigolyn ifanc eisoes yn achosi costau i'r wladwriaeth o ganlyniad i'w drwgweithredu, mae tystiolaeth o amryw o dreialon a reolwyd ar hap a gynhaliwyd yn drylwyr i leihau troseddau gan bobl ifanc a gwella cytgord teuluol yn dangos manteision o ran llai o gamarfer plant a phroblemau ymddygiad rhywiol

ymhlith pobl ifanc. Canfu astudiaeth tymor hir yn yr Unol Daleithiau fod pob $1 a fuddsoddir yn y rhaglen yn arbed $6.60 i drethdalwyr trwy lai o gostau yn sgil troseddau (Klietz, Bordui, a Schaeffer, (2010).

3.15 Enghraifft arall yw Cyngor Gorllewin Swydd Gaerlleon a Chaer sy'n cyflwyno llawer o'i wasanaethau Ymyrraeth Gynnar trwy wasanaeth Cymorth Cynnar Integredig, a gyflwynwyd ym mis Hydref 2013. Mae'r gwasanaeth yn dod â gwaith dros 20 o wahanol asiantaethau a systemau data at ei gilydd mewn un model cydlynus. Mae hyn yn cynnwys 'drws blaen' at wasanaethau, un model asesu, gweithwyr TG a rennir ac wedi'u cyd-leoli mewn saith tîm ardal amlasiantaethol. Mae dewislen o ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth ar gael i blant a theuluoedd; ar gyfer achosion mwy cymhleth, mae amrywiaeth o wahanol weithwyr proffesiynol yn gweithredu fel y gweithiwr arwain, gan ddatblygu cynllun teuluol clir sy'n bodloni anghenion y teulu penodol. Mae gwerthusiad annibynnol yn cael ei gomisiynu i brofi effaith y ffordd hon sydd wedi newid, o gyflwyno Ymyrraeth Gynnar. Mae data monitro cychwynnol yn dangos amrywiaeth o dueddiadau cadarnhaol ers rhoi'r system newydd ar waith, sydd i gyd yn arwain at osgoi costau i'r Wladwriaeth. Yn benodol:

- 13 y cant o ostyngiad mewn plant mewn angen
- 23 y cant o ostyngiad mewn atgyfeiriadau amhriodol at Ofal Cymdeithasol i Blant
- cynnydd yng nghyfran yr achosion cymorth i deuluoedd a reolir islaw'r lefel statudol
- 54 y cant o ostyngiad mewn troseddau treisgar ymhlith troseddwyr trais domestig, ac
- amcangyfrif o 20 y cant o ostyngiad yn y galw ar Gwnstabliaeth Swydd Gaerlleon am garfan o bobl y rheolwyd eu hachosion trwy Gymorth Cynnar Integredig (Chowdry ac Oppenheim, 2015).

3.16 Yn Croydon, mae gwasanaethau'n cael eu dwyn ynghyd trwy dimau ardal amlddisgyblaethol o ymwelwyr iechyd, gweinyddesau meithrin, gweithwyr cymorth i deuluoedd a gweithwyr arbenigol a fydd yn cyflwyno Rhaglen Plentyn Iach a gwasanaethau cymorth i deuluoedd targedig ar draws y gymuned. Mae Croydon wedi gwneud gwaith modelu ariannol ac mae hyn yn amcangyfrif y bydd cyfanswm buddsoddiad o £2.9 miliwn yn rhoi £2.34 yn ôl am bob £1 a fuddsoddir. Dros oes y rhaglen weddnewid o ddeng mlynedd, bydd amcan arbedion effeithlonrwydd o'r ffyrdd newydd o weithio o dros £4 miliwn.

3.17 Er nad oes gennym y darlun llawn o ran cost ac effeithiolrwydd ymyrraeth gynnar, o ystyried ei chymhlethdod, mae gennym syniad eithaf da beth yw cost ymyrraeth hwyr. Mae ymyrraeth hwyr bob amser yn gostus, yn hir a chan ei bod yn aml yn rhy hwyr i fod yn gwbl effeithiol yn y tymor hir, mae'r difrod wedi'i wneud (Yr Adran Addysg, 2010). Wedi dweud hynny, bydd rhai teuluoedd ac unigolion o hyd a fydd angen cymorth dwys parhaus, er bod consensws pe bai mwy o bobl yn elwa ar gael cymorth a gwasanaethau atal yn gynnar, y byddai angen yr ymyriadau gwasanaeth mwy cymhleth hyn ar lai o bobl. Ceir tystiolaeth o arbedion; dangosodd yr Early Intervention Foundation (2015) fod cost gyllidol ymyrraeth hwyr i blant a phobl ifanc mewn un flwyddyn yn arwain at gyfanswm o bron i £17 biliwn (Chowdry ac Oppenheim, 2015) yng Nghymru a Lloegr. Caiff y gost hon ei lledaenu ar draws gwahanol asiantaethau lleol a chenedlaethol, ac mae'r darlun ym mhob ardal leol yn amrywio yn dibynnu ar anghenion y boblogaeth (Chowdry ac Oppenheim, 2015).

**Yr achos dros integreiddio gwasanaethau**

3.18 Yn ôl y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, gellir cynllunio integreiddio ar draws amrywiaeth o fodelau ledled y DU:

- integreiddio 'llorweddol' o ran y gweithgareddau rhwng cyrff sy'n gysylltiedig â, neu'n dangos diddordeb mewn, gwasanaeth neu raglen, neu sydd â diddordeb a rennir mewn grŵp cleientiaid penodol, er enghraifft teulu ar ffiniau gofal cymdeithasol
- integreiddio 'fertigol' trwy gydlynu'r gadwyn gyflwyno yn well a llai o swyddogaethau rheoli sy'n gysylltiedig â chyflwyno gwasanaeth neu raglen
- integreiddio 'swyddfa gefn' o ran swyddogaethau a/neu brosesau rheoli sy'n cefnogi gwasanaethau neu raglenni rheng flaen; a
- mesurau integreiddio 'strategol' sy'n annog integreiddio neu'n ceisio rhoi dull cydlynus ar waith ar draws y llywodraeth (y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2013).

3.19 Mewn egwyddor, mae amrywiaeth o fanteision i integreiddio ar y lefel leol, sef:

- prynu ar y cyd gan leihau dyblygu posibl o ran gwasanaethau (e.e. asesu, ymyrraeth a chanlyniadau)
- torri costau eiddo oherwydd cydleoli
- ailddyrannu adnoddau staff, yn enwedig swyddi 'swyddfa gefn' a rheoli
- addewid sylweddol am wasanaethau rheng flaen: asesu a gofal wedi'u cydlynu'n well a phrofiadau gwell i gleifion mewn ardaloedd lleol

- effaith broffesiynol a diwylliannol tymor hwy lle mae gwasanaethau amlasiantaethol wedi'u cyd-leoli yn gweithredu ac achosion gwaith ar y cyd ymarferwyr
- addewid sylweddol am wasanaethau rheng flaen mewn lleoliadau gofal sylfaenol, gofal acíwt a gofal cymdeithasol wedi'u cydlynu'n well sydd eisoes wedi arwain at arbedion cost a gwasanaethau gwell i gleifion mewn rhai ardaloedd lleol (y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2013).

3.20 Ceir amryw o enghreifftiau ledled y DU, mewn cynllunio polisi a rhaglen a chomisiynu awdurdodau lleol, sy'n rhoi cipolwg i'r ymarfer allweddol sydd wrth wraidd datblygu integreiddio yn llwyddiannus, sef:

- *Rhaglen Troubled Families* – sef rhaglen ymyrraeth dargedig i deuluoedd â phroblemau lluosog. Mae awdurdodau lleol yn Lloegr yn dynodi 'teuluoedd cythryblus' yn eu hardal ac yn pennu gweithiwr allweddol i weithredu fel unigolyn cyswllt unigol. Mae'r model wedi'i seilio ar deulu cyfan yn gweithio a chysyniad o 'un teulu, un cynllun, un gweithiwr'. Dywed llawer o awdurdodau lleol fod y rhaglen wedi cefnogi newid diwylliannol mewn amrywiaeth o wasanaethau a'i bod wedi gwella rheoli achosion, rhannu data a gweithio mewn partneriaeth. Un o'r negeseuon allweddol o'r gwerthusiad diweddar oedd bod mwy o waith i'w wneud o hyd i ymgysylltu â gwasanaethau iechyd ar y lefelau strategol a gweithredol, a dywedodd canran fawr o weithwyr cymorth i deuluoedd fod partneriaeth â gwasanaethau iechyd yn rhwystro gweddnewid gwasanaethau (MHCLG, 2018).

- *hybiau cymunedol/ardal* – mae amryw o awdurdodau lleol yng Nghymru yn datblygu hybiau cymunedol sy'n dod ag ystod o wasanaethau at ei gilydd o dan un to ac yn gweithredu fel siop un stop i gymunedau a thrigolion. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys tai, canolfannau gwaith, cyngor ar ddyled, diogelwch cymunedol a chymorth ar gyfer caethiwed. Yn aml, mae'r dull hwn yn cynnwys cyd-leoli staff, mae'n hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth ac mae'n cynnig un pwynt mynediad i deuluoedd ac unigolion, ac yn cael ei weld, fel y mae'r dyfyniad isod yn ei ddangos, fel dull llawer mwy hygyrch na cheisio llywio gwasanaethau unigol. *'Mae gan y model yma lawer o fanteision; adeiladau mwy addas, cynnig o wasanaeth cyhoeddus gwell, a dull sy'n fwy hygyrch ac effeithiol o ran cost. Maen nhw hefyd yn cefnogi dull ataliol drwy alluogi teuluoedd i fanteisio ar gymorth cyn gynted ag y bo modd.* (Y Cynghorydd R Lewis, 2018)

- *data a gwybodaeth* – mae rhai awdurdodau lleol yn dechrau buddsoddi llawer mwy mewn systemau TG sy'n dod ag amrywiaeth gyfan o ffynonellau data at ei gilydd ac yn datblygu dadansoddiad rhagfynegol. Un enghraifft yw ym Mryste lle defnyddir modelu rhagfynegol i wneud gwell defnydd o'r data a deall dinasyddion Bryste nawr ac yn y dyfodol, nododd ein cyfweliadau fod Casnewydd wedi gwneud defnydd helaeth o brofiad Bryste yn eu gwaith eu hunain.

3.21 Mae dod â gwasanaethau at ei gilydd i weithio o fewn fframwaith neu set gyffredin o nodau fel y cynigir yng Nghymru, (er enghraifft lleihau'r risg o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE[18]) (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2015) yn achosi heriau cynhenid o ganlyniad i dargedau gwasanaeth a chanlyniadau lluosog, ac weithiau gwahanol, y mae asiantaethau'n gweithio yn unol â nhw. Yn ychwanegol, mae gweithwyr proffesiynol o wahanol wasanaethau yn gweithio o fewn gwahanol rinweddau proffesiynol; mae rhai gwasanaethau'n canolbwyntio'n fwy ar gleientiaid ac atebion, er enghraifft gwasanaethau cyflogadwyedd fel Cymunedau am Waith a Mwy, a rhai'n fwy cosbol a chyfeiriol, fel gwasanaethau'n gysylltiedig â darparu Credyd Cynhwysol a gyflwynir trwy'r Ganolfan Byd Gwaith (ymhlith eraill), a gall hyn fod yn ddryslyd i gleientiaid. Mae llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr wedi ceisio mynd i'r afael â'r gwahaniaethau hyn trwy gyflwyno dull ac arferion gweithio cyffredin yn seiliedig ar ddatblygu cydnerthedd ymhlith oedolion a theuluoedd, dull sy'n cael ei ffafrio ym mhrosiectau braenaru rhaglen Rhondda Cynon Taf (RhCT) a Thorfaen.

3.22 Yn RhCT a Thorfaen, nod y ffocws ar ddatblygu cydnerthedd yw meithrin gallu'r rheiny y gweithiwyd gyda nhw i ymateb i heriau bywyd er mwyn gwella ffyrdd o fyw ac ymddygiadau unigolion neu deuluoedd a gwella'u sgiliau bywyd i gefnogi bywyd llai anhrefnus. Gall hyn ganolbwyntio ar wella sgiliau rhianta i gefnogi datblygiad y plentyn a mynd i'r ysgol yn rheolaidd, helpu â chyllidebu a rheoli dyled i ddod â mwy o sefydlogrwydd i amgylchiadau ariannol. Yn sail i hyn mae pwyslais ar ddarparu dull cymorth mwy cyfannol sy'n galluogi'r rheiny a gefnogir i gael bywyd cartref mwy sefydlog, gan leihau'r tebygolrwydd y gallai fod angen defnyddio gwasanaethau statudol eraill fel y gwasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau amddiffyn plant.

[18] Mae ACE yn cyfeirio at Brofiadau Ingol Cronig yn ystod Plentyndod.

3.23 Mae dull arall mewn awdurdodau lleol yn y DU yn seiliedig ar ddatblygu modelau sy'n canolbwyntio ar ymarfer yn seiliedig ar berthynas. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys Arwyddion Diogelwch, Ymarfer Adferol a defnyddio Cynadleddau Grŵp Teuluoedd. Yma, mae egwyddorion allweddol wedi'u seilio ar 'weithio gyda' theuluoedd a pheidio â 'gwneud drostynt', gan gydnabod cryfderau'r teulu ac adeiladu arnynt, a helpu pobl i helpu eu hunain. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys ffocws ar gyd-gynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaeth, a phwyslais ar gydnerthedd a meithrin gallu cymunedol fel mai *'working with families and building their own strengths and capacities rather than spending tens of millions fighting parents in the family courts, is the only realistig game in town* (Tickle, 2018). Mae awdurdod lleol Leeds yn dweud hefyd fod Cynadleddau Grŵp Teuluoedd wedi cyfrannu at ostyngiad yn y ffigurau Plant sy'n Derbyn Gofal ac arbedion cost i'r awdurdod lleol. (Adroddiad blynyddol Troubled Families, MHCLG, Mawrth 18)

3.24 Mae amryw o awdurdodau lleol yn Lloegr wedi cyflwyno hyfforddiant ar draws eu gwasanaethau sector cyhoeddus, gan gynnwys yr heddlu, addysg, lles, troseddau ieuenctid a gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau bod asiantaethau allweddol a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd gan ddefnyddio'r un iaith a dulliau'n seiliedig ar gryfderau gyda theuluoedd. Cynlluniwyd Creating Strong Communities yng Ngogledd Ddwyrain Swydd Lincoln (Yr Adran Addysg, 2017) i newid yn sylfaenol y ffordd yr oedd ymarferwyr a phartneriaid lleol yng Ngogledd Ddwyrain Swydd Lincoln yn gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu plant sy'n agored i niwed. Roedd hyfforddi staff ar asesiadau cyffredin, a dulliau gweithio yn cefnogi newid diwylliant a newid system sy'n angenrheidiol i leihau'n sylweddol nifer y teuluoedd sydd â phryderon diogelu ar lefel uchel.

**Tystiolaeth o integreiddio sy'n lleihau gwariant sector cyhoeddus**

3.25 Mae enghreifftiau pellach o awdurdodau lleol yn Lloegr yn datblygu dull cydwasanaeth yn dangos bod mentrau o'r fath yn gallu arwain at arbedion sylweddol o ran costau. Mewn adroddiad i'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA), nododd ymchwil (Drummond Mcfarlane, 2012) a wnaed ar drefniadau cydwasanaethau pum awdurdod lleol yn Lloegr rai canfyddiadau pwysig a gwersi allweddol o bob astudiaeth achos, gan gynnwys:

- roedd newid sylfaenol yn y ffordd yr oedd gwasanaethau'n cael eu cyflwyno yn annog adolygiad ehangach o'r hyn yr oedd cwsmeriaid ei angen/eisiau, mwy o ffocws ar reoli perfformiad a ffocws gwell ar ganlyniadau

- roedd uno gwasanaethau yn fodel busnes newydd yn galluogi ar gyfer ehangu cyflwyno i gynnwys asiantaethau a gwasanaethau eraill, gan gynnwys amryw o wasanaethau cymorth busnes a hyfforddi i ysgolion, y GIG a sefydliadau preifat a dielw

- roedd manteision ehangach yn cynnwys buddsoddi o'r newydd mewn TG (a gyflawnodd, yn eu tro, arbedion parhaus trwy fwy o integreiddio a rhannu gwybodaeth mewn systemau), defnydd rhesymoledig o adeiladau a chyfleusterau, a chaffael; gwnaeth caffael mewn un ardal cyngor sir arbedion uniongyrchol o £9 miliwn yn ystod y tair blynedd gyntaf trwy arferion caffael gwell

- roedd costau cychwyn ac integreiddio yn gymedrol gyda chyfnod talu'n ôl o lai na dwy flynedd ar gyfer yr holl drefniadau cydwasanaethau

- gwnaeth pob ardal arbedion sylweddol ar eu gwariant blynyddol. Er enghraifft, gwnaeth un grŵp o awdurdodau, yn ystod ei flwyddyn gyntaf o weithredu, arbedion parhaus o £3.79 miliwn, yn bennaf yn sgil uno swyddi rheoli ac integreiddio gwasanaethau ac arbedion effeithlonrwydd caffael

**Heriau o ran cynllunio a datblygu gwasanaethau integredig**

3.26 Bydd caniatàu hyblygrwydd cynyddol i awdurdodau lleol wrth ddylunio ac ail-ddylunio gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n agored i niwed yn sicr yn arwain at wahaniaethau o ran cymorth ar draws yr awdurdodau braenaru. Ceir tystiolaeth eisoes o brosiectau braenaru yn mabwysiadu dulliau eithaf gwahanol o ail-gysoni i ailstrwythuro adrannau, i edrych ar ddulliau siop un stop yr hybiau cymunedol. Mae hyn yn her allweddol o ran ystyried profiad y defnyddiwr o'r gwasanaethau a'r canlyniadau a gyflawnir.

3.27 Mae cynaliadwyedd mentrau yn fater allweddol wrth geisio sicrhau ailstrwythuro sylweddol. Mae angen i ddulliau arloesol a thrawsffurfiol roi sylw arbennig i faterion cynaliadwyedd. O'u diffinio, mae dulliau arloesedd yn rhai agored i niwed a thymor byr o ran ariannu, yn benodol ymhlith mentrau peilot. Yn y rhaglen Arloesedd Gwasanaethau Plant, roedd cynaliadwyedd yn fater pwysig a ymddangosodd ar draws y prosiect. Roedd gan rai prosiectau gynlluniau cynaliadwyedd ac yn derbyn cyllid pontio oddi mewn i'r awdurdod lleol, ond nid oedd llawer ohonynt. Canfyddiad

cyffredin oedd fod prosiectau'n parhau i leihau, a chollodd llawer ohonynt fomentwm cyn i'r gwerthusiad ddod i ben:

*'Many projects started to flounder once key leaders moved on. Hence, building the capacity for change gradually into the organisation without investing too much in one or two people alone, seems to be a key message.'* (Sebba, Luke, McNeish a Rees, 2017, tud.66).

3.28 Mae rôl gwasanaethau comisiynu yn hanfodol hefyd o ran sicrhau bod gwasanaethau'n integredig fel rhan o ddewislen gyfan o gymorth ac nad ydynt yn gweithio ar wahân. Mae'n amlwg fod gwasanaethau wedi'u comisiynu yn llawer anos eu rheoli na chyflwyno mewnol. Fodd bynnag, ni ddylai hyn dynnu oddi wrth edrych ar sut gallent ychwanegu gwerth at ddarpariaeth bresennol. Mae ychydig o ffordd i fynd hefyd i ddod â chomisiynu oedolion a phlant at ei gilydd i fodloni anghenion cyfannol teuluoedd o ran anghenion plant ac oedolion. Er ein bod yn gweld hyn yn llawer mwy yng ngwaith yr oedolion gyda iechyd a gofal cymdeithasol erbyn hyn, mae angen mabwysiadu'r egwyddorion hyn yng ngwasanaethau plant a theuluoedd.

3.29 Er mwyn i gydwasanaethau weithredu'n effeithiol, mae angen i arweinwyr gael dealltwriaeth glir o fecanweithiau newid ac mae angen iddynt allu ysbrydoli pobl eraill i addasu a chwarae eu rhan mewn cynllunio ffyrdd newydd o weithio. Fodd bynnag, mewn adroddiad gan Solace, dangosodd ymchwil fod 30 y cant o gyflogeion sector cyhoeddus ar lefel rheolwyr canol ac islaw yn credu bod diffyg arweinyddiaeth a chyfeiriad clir yn dal newid effeithiol yn ôl mewn awdurdodau lleol (Solace a Civca, 2016).

**Heriau o ran gweithio mewn partneriaeth**

3.30 Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu cwmpasu gan y rhaglen Ariannu Hyblyg, yn ôl eu hunion natur, wedi eu bwriadu i roi cymorth i unigolion ar draws ffiniau sefydliadol. Yn hytrach na bod unigolion yn cael mynediad at amryw o wasanaethau, mae angen i sefydliadau weithio gyda'i gilydd, cydlynu neu gyd-gyflwyno asesu, cynllunio a chymorth.

3.31 Gellir defnyddio pwyntiau dysgu perthnasol o astudiaeth gan Cameron et al. (Cameron, Macdonald, Turner, a Lloyd, 2007) o'r Supporting People Health Pilot yn Lloegr. Cyflwynwyd y rhaglen beilot hon mewn chwe ardal awdurdod lleol a ddynododd amryw o wersi allweddol o'r astudiaeth beilot o amgylch gweithio mewn partneriaeth yn llwyddiannus yn y cyd-destun hwn, gan gynnwys:

- roedd angen trefniadau clir ar weithio mewn partneriaeth o ran cyfrifoldeb llywodraethu a rheoli; yn aml, roedd ystyriaeth annigonol yn cael ei rhoi i reoli mentrau cymhleth
- roedd angen dealltwriaeth a gwerthfawrogiad clir ar staff o fanteision cydweithio i dderbyn y cysyniad yn llawn ac addasu eu harfer
- roedd angen i ddylunwyr gwasanaethau ystyried gwybodaeth ac arferion gweithio gwahanol sefydliadau a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn hyfforddiant
- roedd sefydliadau oedd â hanes o gydweithio yn helpu ffurfio disgwyliadau arfer gweithio
- roedd angen goruchwyliaeth arbenigol ar staff rheng flaen, yn enwedig wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed neu bobl â ffyrdd o fyw anhrefnus a chymhleth
- roedd angen goruchwyliaeth broffesiynol i sicrhau bod staff yn cynnal safonau gofal ac yn gwneud penderfyniadau priodol ynglŷn â chymorth.

3.32 Roedd cyd-leoli yn gymorth i gydweithio ond nid oedd yn lleddfu'r heriau a gyflwynir gan wahanol ddisgwyliadau a ffiniau proffesiynol. Yn ôl Cameron et al. (2007), roedd y rhain yn sylweddol, yn enwedig ar draws ffiniau statudol a sector gwirfoddol ac iechyd a gofal cymdeithasol. *'In integrated teams, people can get precious about their roles.'* (Cameron, Macdonald, Turner, a Lloyd, 2007).

3.33 Roedd heriau'n bodoli o ran rhannu data personol sy'n hynod bwysig pan fydd gan gleientiaid anghenion cymhleth a bywydau anhrefnus. Mae Secker a Hill (2001) wedi cyfeirio at hyn fel *'a reluctance or structural inability to share information and a lack of clarity about the constraints of confidentiality.* Nid oes unrhyw amheuaeth fod yr heriau hyn wedi dwysàu o ganlyniad i gyflwyno'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

**Llwyddiant wrth integreiddio gwasanaethau**

3.34 Mae tystiolaeth (DCLG, 2013a) o astudiaethau o integreiddio gwasanaethau yn awdurdodau lleol y DU yn awgrymu bod amryw o egwyddorion allweddol sy'n cynorthwyo llwyddiant ar gyfer integreiddio gwasanaethau o ddiddordeb arbennig ar gyfer y rhaglen Ariannu Hyblyg. Mae cael ethos a gweledigaeth glir, arweinyddiaeth gref, dealltwriaeth ar y cyd o'r nodau a'r amcanion, trafodaethau ac arferion gweithio cyffredin a sicrhau bod plant, teuluoedd a chymunedau yn bartneriaid allweddol wrth ddatblygu gwasanaethau newydd, yn hanfodol ar gyfer hyn. Mae'n

glir o’r dystiolaeth a’r ymchwil fod angen i awdurdodau lleol edrych ar ffyrdd gwahanol o gyflwyno gweddnewid gwasanaethau cyhoeddus. Neges allweddol yn yr adroddiad yw na allant wneud hyn ar wahân a bod angen i awdurdodau lleol gydweithio â’r holl bartneriaid a rhanddeiliaid. Mae sefydlu diwylliant o gydweithio, ymgysylltu â’r trydydd sector a datblygu’r gweithlu i gyd yn ffactorau allweddol sy’n gallu cefnogi galluogi’r broses newid.

3.35 Gellir dysgu gwersi hefyd o enghreifftiau eraill o ddulliau o ail-ddylunio gwasanaethau ymyrraeth gynnar ar y lefel leol. Mae cynlluniau peilot Cyllideb Cymdogaethau a Chymunedau (Neighbourhood Community Budget) yn enghraifft ddefnyddiol. Fe’u dechreuwyd gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Lleol (DCLG) yn Lloegr i helpu datblygu datganoli a’r agenda lleoliaeth, ac fe’i cynhaliwyd o fis Ebrill 2012 tan fis Mawrth 2013 (DCLG, 2013a). Datblygodd deuddeg ardal beilot Gynlluniau Gweithredol gyda chymunedau lleol i ddatganoli gwasanaethau i lefel y gymdogaeth, gan dderbyn y gallai menter leol ymateb yn gyflymach i angen lleol. Dechreuwyd cynnal cynlluniau peilot i brofi sut gellid gwthio rheolaeth gwasanaethau a chyllidebau i lawr i lefel cymdogaeth, a dangos dysgu o’u profiadau.

3.36 Bu cynlluniau peilot yn gweithio trwy lwybrau gwahanol i ddatblygu eu rhaglen. Dechreuodd rhai ohonynt â’r weledigaeth yn gyntaf, a defnyddio gwybodaeth bresennol gan bartneriaid i gynllunio’r prosiect; dechreuodd rhai ohonynt â’r data i ddatblygu proffiliau cymunedol; dechreuodd rhai ohonynt ag ymgyngoriadau cymunedol a chreu’r weledigaeth oddi yno. Pwysleisiodd pob ardal fod angen dileu’r modelau gweithio ar wahân er mwyn i wasanaethau gael eu cynllunio o amgylch anghenion y gymuned ac nid arferion gweithio’r awdurdod lleol/gwasanaethau. Mae hon yn thema gyffredin a ddynodwyd gan y rheiny sy’n gweithio mewn ardaloedd rhaglen Braenaru, yn enwedig Caerdydd, Conwy, Casnewydd a Thorfaen.

3.37 Yn sgil yr ymchwil (DCLG, 2013a), cynhyrchwyd amryw o negeseuon ‘cynghorion da’ ar gyfer cyllidebu cymdogaethau o gyfweliadau gyda rhanddeiliaid allweddol. Canolbwyntiodd y rhain ar y canlynol:

- datblygu ffocws a gweledigaeth glir (yn seiliedig ar ganlyniadau)
- defnyddio gwybodaeth a data presennol am broblemau/materion
- datblygu dealltwriaeth o flaenoriaethau cymunedol
- ystyried pa mor agored yw partneriaid i ymgysylltu

- cydweithio â'r gymuned i fynd i'r afael â phroblemau a chyd-gynllunio gwasanaethau
- sefydlu gweithio cysylltiedig i ailgynllunio ac ailffurfio'r ffordd y cyflwynir gwasanaethau
- gwneud penderfyniadau am gomisiynu sy'n canolbwyntio ar anghenion y gymdogaeth ac mewn partneriaeth â'r gymuned
- datblygu achos busnes clir
- defnyddio Dadansoddiad Budd Cost i egluro canlyniadau yn seiliedig ar y dystiolaeth orau
- gweithio tuag at reolaeth leol trwy ddatblygu cyllidebau ac adnoddau, gan gynnwys cysoni neu gyfuno ar lefel cymdogaeth.

**Datblygu monitro a chanlyniadau priodol**

3.38 Yng Nghymru, mabwysiadwyd dull Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau gan y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a oedd yn gweithredu yn y 52 cymuned fwyaf difreintiedig yng Nghymru. Canfu'r gwerthusiad fod staff rheoli yn teimlo'n gliriach ynglŷn â chyfeiriad strategol cyffredinol y Rhaglen oherwydd y dull Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau a gofynion y gweithgareddau a gyflwynwyd yn eu hardaloedd lleol.

3.39 Fodd bynnag, roedd dull hynod amrywiol o ddangos canlyniadau ledled ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf (Clystyrau) a nifer fawr iawn (112) o ddangosyddion i adrodd yn unol ag ef. Byddai effeithiolrwydd y dull Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau wedi cael ei wella pe bai fframwaith mwy trylwyr a soffistigedig ar waith i fonitro gweithgarwch hyd at gyflawni canlyniadau ac felly'n osgoi dehongliadau fod Cymunedau yn Gyntaf yn darparu canlyniadau cyfyngedig ar gyfer y rheiny yr oedd yn gweithio gyda nhw. Mae hefyd yn dangos pwysigrwydd fframwaith canlyniadau ar gyfer y rhaglen Ariannu Hyblyg sy'n adlewyrchu'n ddigonol gymhlethdod cyflwyno trwy ddull lefel uwch ond sydd eto'n symlach o fonitro canlyniadau, tra hefyd yn osgoi cynnydd mawr mewn baich gweinyddol ar y rheiny sy'n cyflwyno'r gwasanaethau (Ipsos MORI a Wavehill Consulting, 2015).

3.40 Yng Ngogledd Ddwyrain Swydd Lincoln, bu'r awdurdod lleol yn defnyddio Atebolrwydd yn ôl Canlyniadau ar gyfer eu prosiect arloesedd gwasanaethau plant, Creating Stronger Communities (York Consulting Ltd., 2017). Hyfforddwyd dros 180 o staff rheoli allweddol ynghylch egwyddorion Atebolrwydd yn ôl Canlyniadau, a

sefydlwyd rhwydwaith hyrwyddwyr i ymgorffori'r ymarfer gweithio. Cynlluniwyd cardiau sgôr ar gyfer pob ardal weithredol a oedd yn cysylltu'n ôl yn glir at y fframwaith. Roedd heriau yn nifer y dangosyddion a oedd wedi'u cysoni â phob mesur allweddol (e.e. teimlo'n ddiogel a bod yn ddiogel) a pha mor hawdd yr oedd y dangosyddion i'w hamlygu. Fodd bynnag, roedd cael fframwaith canlyniadau cyffredin yr oedd yr awdurdod yn gweithio yn unol ag ef yn helpu gwasanaethau i weithio tuag at y nodau cyffredin.

3.41 Cytunir yn gyffredinol ei bod hi'n anodd iawn monitro a phriodoli canlyniadau ar gyfer gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar o ganlyniad i ystod eang o ffactorau, fel asesu pa ran o ymyrraeth amlddisgyblaethol a wnaeth y gwahaniaeth mwyaf, a chytuno ynglŷn â'r hyn sy'n cyfrif fel canlyniad. Byddai llawer o weithwyr proffesiynol yn dadlau y gellir ond mesur canlyniadau gwirioneddol yn ddiweddarach mewn bywyd a bod angen dull hydredol i ddangos newid mewn gwirionedd a ph'un a yw canlyniadau wedi cael eu cynnal.

3.42 Mae llawer o awdurdodau lleol ledled y DU yn defnyddio offer fel yr Outcomes Star, y Strengths and Difficulties Questionnaire, a'r Daily Hassles Questionnaire, sy'n gwerthuso canlyniadau yn gyffredinol mewn perthynas â rhianta a gweithredu teuluol. Mae'n allweddol yng nghyd-destun cyllid fformiwla fod gwaelodlinau'n cael eu sefydlu o'r cychwyn a bod dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu cytuno ar y cyd.

3.43 Mae archwiliadau ffeiliau achos, astudiaethau achos ac adborth gan gyfeirwyr a defnyddwyr gwasanaeth hefyd yn gallu ffurfio rhan o fframwaith canlyniadau ehangach. Yn aml, mae'r rhain yn darparu syniadau gwerthfawr go iawn am yr hyn sy'n gweithio'n dda neu ddim cystal. Ni ddylid tanbrisio'r agwedd hon, gan ei bod yn aml yn dod ag arfer yn fyw ac yn darparu mewnwelediad gwerthfawr y gellir ei ddefnyddio i lywio datblygiad gwasanaeth. Mae Gwasanaethau Plant Islington yn cynnal wythnos ymarfer bob mis pan fydd rheolwyr yn canolbwyntio ar werthuso ymarfer gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, ac wedyn yn cyfrannu at lywio datblygiad gwasanaethau.

3.44 Mae'n amlwg fod mesur canlyniadau yn dasg heriol a chymhleth; ond mae'n un y dylid rhoi blaenoriaeth ac adnoddau ar ei chyfer, ac fe'i datblygir ar y cyd. Mae ymgysylltu ag unigolion, teuluoedd a rhanddeiliaid yn hanfodol, a byddai mabwysiadu dull cydgynhyrchu yn cefnogi perchnogaeth well a chanlyniadau ar y cyd.

3.45 Mae'r adolygiad hwn o ddeunydd darllen wedi amlygu'r achos cryf dros ymyrraeth gynnar; gwelwyd tystiolaeth o arbedion costau ar draws amrywiaeth o wasanaethau cysylltiedig ac mae bodloni anghenion teuluoedd yn gynharach yn atal anghenion rhag dwysáu.

3.46 Mae'r rhaglen Ariannu Hyblyg yn treialu dulliau i symud at grant ymyrraeth gynnar sengl sy'n cael ei gosod i ddechrau ar grant sengl hyblyg, ac oherwydd ei union natur, mae angen lefel well o gyd-gynllunio, cyd-gyflwyno gwasanaethau a chydweithio ar ei gyfer.

3.47 Ceir manteision posibl o lefelau integreiddio gwell: prynu cydweithredol gan leihau'r dyblygu posibl o ran gwasanaethau, lleihau nifer y staff swyddfa a'r staff rheoli, cydlynu gwasanaethau'n well yn y rheng flaen a chanlyniad gwell i ddefnyddwyr gwasanaeth.

*Crynodeb o'r adolygiad o ddeunydd darllen*

3.48 Mae llawer o fodelau gweithio sy'n rhoi cipolwg ar y modd y gall awdurdodau lleol Cymru ymateb i'r cyfle o fewn y rhaglen Ariannu Hyblyg. Mae enghreifftiau wedi dangos yr heriau y mae awdurdodau lleol wedi eu hwynebu o ran datblygu cysoni strategol a gweithredol ar draws gofal cymdeithasol, iechyd, iechyd meddwl, ac amrywiaeth o wasanaethau eraill, gan gynnwys gwasanaethau gwirfoddol. Mae awdurdodau lleol wedi datblygu ymatebion gwahanol, rhai ohonynt yn cynllunio timau wedi'u cyd-leoli, llwybrau cyfeirio clir a rhannu gwybodaeth, a rhai ohonynt yn ailgynllunio modelau caffael fel y dangosir yn yr achosion o adolygiad LGA o gydwasanaethau yn awdurdodau lleol Lloegr (Drummond McFarlane, 2012).

3.49 Bydd cynyddu lefel yr ymreolaeth i awdurdodau lleol wrth fwrw ymlaen â grant EIPS posibl yn sicr yn arwain at wahanol fodelau, ac o bosibl lefel anghyfartal o fynediad i ddefnyddwyr gwasanaeth ledled Cymru. Bydd deall anghenion ac amcanestyniadau ar gyfer twf y boblogaeth yn hanfodol o ran cynllunio gwasanaethau tymor hwy a thargedu a defnyddio adnoddau.

3.50 Mae angen ffactoreiddio cynaliadwyedd y gwasanaeth i gynllunio rhaglenni a dylid annog awdurdodau lleol i ystyried yr hyn a allai ddigwydd yn y dyfodol o ran llywodraethu a chysoni cyllid yn strategol.

3.51 Felly, mae'n ymddangos yn bwysig fod sylw gofalus yn cael ei roi i lywodraethu, ac i gynnal neu wella ansawdd gwasanaethau rheng flaen mewn unrhyw achos o ailddylunio gwasanaethau. Mae angen i wasanaethau weithio yn unol â set

gyffredin o ganlyniadau, wedi'u diffinio gan fframwaith canlyniadau (e.e. Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau) ac yn gweithio gyda dealltwriaeth ar y cyd neu set o egwyddorion gweithredu (e.e. dull yn seiliedig ar gryfderau sy'n canolbwyntio ar gydnerthedd). Dylid cytuno ar ddangosyddion sy'n darparu tystiolaeth o newid a fydd yn galluogi'r awdurdod i ddeall effaith yn glir, tra bydd ganddo hefyd ddata ansoddol sy'n dangos canlyniadau mwy meddal a beth yw profiadau teuluoedd o'r gwasanaethau.

3.52 Ni ddylid diystyru hyfforddiant staff ar bob lefel wrth ddechrau gwneud newid sylweddol a ble gellid tarfu ar bartneriaethau presennol. Os terfir ar bartneriaethau presennol neu fod partneriaethau newydd am gael eu meithrin, mae angen i staff gael dealltwriaeth ac egwyddorion gweithredol i arwain eu harfer.

3.53 Mae cael gweledigaeth glir ac ethos wedi'i ategu gan arweinyddiaeth gref yn hanfodol ar gyfer unrhyw broses newid. Mae'n ymddangos bod hyn yn hollbwysig ym mhob adolygiad o ddeunydd darllen; mae cael arweinydd sy'n gallu ysbrydoli, yn frwdfrydig ac yn creu egni yn elfen allweddol ar gyfer llwyddo. Mae'n ymddangos nad oes unrhyw lasbrint hud i'w ddilyn, ond mae'n amlwg mai'r adnodd mwyaf mewn unrhyw wasanaeth yw ei weithlu, felly rhaid bod dod o hyd i ffyrdd o gynnwys, cydweithio, ysbrydoli a mynd â phobl ar y daith yn rhan o'r ateb.

## 4. Theori Newid Rhaglen

4.1 Mae Theori Newid yn darparu trosolwg o elfennau cyflwyno rhaglenni y mae angen iddynt ddigwydd er mwyn cyflawni ei ganlyniad(au) terfynol bwriadedig a mynd i'r afael â'r angen (a'r rhesymeg) ar gyfer ei ymyriad (h.y. rhaglen, cynllun neu brosiect). Yn ogystal, mae'n galluogi ar gyfer dynodi'r rhagdybiaethau sy'n sail i gyflwyno'r rhaglen, a'r rhwystrau y mae angen eu goresgyn a'r mecanweithiau sydd ar waith i oresgyn y rhwystrau hynny.

4.2 Dyma gydrannau allweddol y Theori Newid:

- mewnbynnau: yr adnoddau a ddefnyddir yn y rhaglen i alluogi'r gwaith o'i chyflwyno
- gweithgareddau: y pethau a wnaed i gyflwyno rhaglen o ddydd i ddydd sydd dan reolaeth sefydliad neu brosiect
- allbynnau: y cynhyrchion, y gwasanaethau neu'r cyfleusterau sy'n deillio o weithgareddau'r rhaglen – mynegir y rhain ar ffurf meintiol yn aml iawn e.e. nifer y teuluoedd a gefnogir
- canlyniadau: y pethau sy'n deillio o'r gweithgareddau yr ymgymerwyd â hwy
- effeithiau: y newidiadau ehangach a'r nodau terfynol y mae rhaglen yn eu cyflawni o ganlyniad i'r canlyniadau a gyflawnwyd.

4.3 Gall Theori Newid fod yn ddefnyddiol iawn wrth brofi sut a pham y bydd polisi neu ymyriad yn gweithio a, gall fod yn ddefnyddiol wrth helpu i benderfynu ar ba bolisi i'w weithredu neu sut gellir gwella cynllun y polisi hwnnw.

4.4 Yn dilyn gweithdai ym mis Gorffennaf 2018 gydag ystod o arweinwyr rhaglen Ariannu Hyblyg, ac arweinwyr grantiau o awdurdodau braenaru a rhai nad ydynt yn rhai braenaru, rydym wedi diwygio Theori Newid amlinellol a gyflwynwyd yno i fynd i'r afael â'r elfennau coll a ddynodwyd gan gyfranogwyr y gweithdai.

*Rhesymeg Theori Newid*

4.5 Defnyddir llifoedd ariannu lluosog gan awdurdodau lleol yng Nghymru, sy'n targedu'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas a chanddynt yn aml amcanion cyson iawn neu'r un amcanion trosfwaol. Ceisia rhaglen Ariannu Hyblyg fynd i'r afael â hyn trwy roi mwy o ymreolaeth i awdurdodau lleol Cymru a'u partneriaid o ran sut cyflwynir gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chefnogi (EIPS) i'r rhai mewn angen, yn enwedig o gwmpas cynllunio a chomisiynu ar y cyd i

gefnogi canlyniadau'n well. Y bwriad yw y bydd y rhyddid ychwanegol o gwmpas defnyddio gwahanol lifoedd ariannu'n galluogi awdurdodau lleol i gymryd dull mwy strategol o gyflwyno gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael yn well ag anghenion eu trigolion, gyda'r bwriad o leihau'r gofynion ar y gwasanaethau statudol i'r dyfodol. Fodd bynnag, mae disgwyl hefyd i awdurdodau lleol, trwy fesurau canlyniadau priodol, fod yn gwbl atebol am gysoni grantiau a gwneud defnydd mwy hyblyg o gyllid (gyda chymorth y tîm Trosglwyddo Cyllid yn Llywodraeth Cymru). Ceisia'r rhaglen ddynodi sut gallai dull un grant o ariannu i'r dyfodol weithredu orau i wella canlyniadau i ddefnyddwyr a lleihau eu hangen posibl am wasanaethau statudol ac/neu gymhlethdod yr achosion a allai gael eu cyflwyno yn dilyn hynny.

4.6 Dyma'r rhagdybiaethau diwygiedig sy'n sail i'r Theori Newid yn Ffigur 4.1:

- mae'r ymreolaeth gynyddol i awdurdodau lleol yng Nghymru'n gwella'u gallu i gynllunio'n strategol a chyflwyno gwasanaethau i grwpiau agored i niwed
- bod mwy o ymreolaeth hefyd yn galluogi awdurdodau lleol i gynllunio'r gwaith cyflwyno'n fwy hyblyg ac ailffurfio gwasanaethau'n unol â hynny, ond gallai hyn esgor ar heriau atebolrwydd ychwanegol
- mae gan awdurdodau lleol y gallu a'r adnoddau i ymgymryd ag adolygiadau perthnasol ac ailffurfio gwasanaethau
- bydd canlyniadau ac effaith yn gynaliadwy ac eir i'r afael yn well ag anghenion y defnyddwyr gwasanaeth.

4.7 Er mwyn gwthio ymlaen y gwaith o gyflwyno Ariannu Hyblyg, disgwyliwn i awdurdodau lleol geisio dynodi gweithgareddau a phrosesau lle:

- cymerir dull mwy cydlynol o ddynodi angen, sy'n dynodi bylchau yn y ddarpariaeth ac unrhyw ddyblygu potensial
- defnyddir dadansoddiad o anghenion i gynllunio a chomisiynu gwasanaethau ar y cyd ar draws ffiniau adrannau traddodiadol
- mae rhannu gwybodaeth ar draws gwasanaethau i gynorthwyo cynllunio a chyflwyno yn cael ei wella/gyfoethogi
- mae cynllunio gwasanaethau ar draws y 10 grant cyfansoddol yn fwyfwy cyson gyda fframwaith canlyniadau sengl, ac
- adolygwyd trefniadau gweinyddol ac ystyriwyd cyfleoedd i symud adnoddau staff fel ffordd o leihau'r gorbenion sy'n gysylltiedig â gweinyddu grantiau.

**Ffigur 4.1: Theori Newid – Rhaglen Ariannu Hyblyg**

| Mewnbynnau | Gweithgareddau → | Allbynnau → | Canlyniadau (Tymor Byr) | Canlyniadau (Tymor Canolig/Hir) ac Effeithiau |
|---|---|---|---|---|
| Cefnogaeth gan y Tîm Trosglwyddo Cyllid (4-5 personél Llywodraeth Cymru)<br>Cyllid sy'n deillio o'r deg grant sy'n gysylltiedig yn y Rhaglen Ariannu Hyblyg | **Ledled y Rhaglen**<br>• Darparu Canllawiau Atodol ar Weithredu rhaglen Ariannu Hyblyg i gefnogi Cyflwyno Cynllunio.<br>• Sefydlwyd a hwyluswyd grŵp Braenaru Cenedlaethol i alluogi ar gyfer rhannu gwybodaeth ac ymarfer.<br>• Cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i roi'r rhaglen ar waith trwy Grwpiau Llywio Braenaru a chefnogaeth i awdurdodau nad ydynt yn rhai braenaru.<br>• Rhannu gwybodaeth wedi'i chefnogi ar broses ac ymarfer rhwng awdurdodau lleol.<br>• Gwerthusiad wedi'i gomisiynu o awdurdodau braenaru i ddynodi dysgu ac arfer gorau parhaus i helpu ffurfio'r gwaith o gyflwyno trwy oes cyflwyno'r rhaglen.<br>• Sefydlwyd prosesau gweinyddol, monitro a gwerthuso.<br><br>**Awdurdodau braenaru**<br>• Adolygu'r ddarpariaeth gwasanaethau.<br>• Adolygu gwaith dadansoddi anghenion.<br>• Ail-ddylunio'r ddarpariaeth gwasanaeth.<br>• Adolygu ac ail-ddylunio Strwythurau Llywodraethu.<br>• Defnydd llawn o hyblygrwydd ariannu.<br><br>**Awdurdodau nad ydynt yn Rhai Braenaru**<br>• Adolygu darpariaeth ac ail-ddyluniad y gwasanaeth.<br>• Adolygu gwaith dadansoddi anghenion.<br>• Defnyddio hyblygrwydd ariannu mewn grantiau penodedig | **Ledled y Rhaglen**<br>• Cwblhawyd cynlluniau cyflwyno gan awdurdodau lleol.<br>• Gwell rhannu gwybodaeth ac ymarfer.<br>• Cefnogaeth estynedig i awdurdodau braenaru ac nad ydynt yn rhai braenaru.<br>• Dynodi dysgu parhaus i ffurfio'r gwaith o gyflwyno.<br><br>**Awdurdodau braenaru**<br>Adolygiadau wedi'u<br>**Awdurdodau nad ydynt yn Rhai Braenaru**<br>• cwblhau.<br>• Nifer o ail-ddyluniadau gwasanaeth wedi'u cwblhau.<br>• Strwythurau llywodraethu diwygiedig wedi'u sefydlu.<br><br>**Awdurdodau nad ydynt yn Rhai Braenaru**<br>• Adolygiadau wedi'u cwblhau. | **Ledled y Rhaglen**<br>• Nifer lai o atgyfeiriadau i Lywodraeth Cymru am drosglwyddiadau cyllid.<br>• Gorbenion gweinyddol llai i wasanaethu llai o grantiau.<br>• Datblygwyd fframwaith canlyniadau sengl i gwmpasu'r gwaith o gyflawni pob EIPS.<br>• **Newidiwyd diwylliant o gwmpas cydweithio, llai o weithio ar wahân (silo working).**<br><br>**Awdurdodau braenaru**<br>• Ail-ddyluniwyd gwasanaethau awdurdodau lleol i adlewyrchu anghenion lleol ac ymateb iddynt.<br>• **Eir i'r afael yn well ag anghenion y defnyddwyr.**<br>• Cafodd nifer y defnyddwyr gwasanaeth oedd yn adrodd mwy o fodlonrwydd gyda'r gefnogaeth godiadau.<br><br>**Awdurdodau nad ydynt yn Rhai Braenaru**<br>• Ail-ddylunio gwasanaethau.<br>• Gwell cyflwyno seiliedig ar anghenion. | **Ledled y Rhaglen**<br>• Cymer awdurdodau lleol ddull mwy cydlynol o ddynodi angen, sy'n eu galluogi i ddynodi bylchau yn y ddarpariaeth ac unrhyw ddyblygu potensial.<br>• Mae dadansoddi anghenion yn gwthio cynllunio a chomisiynu gwasanaethau ar y cyd ar draws ffiniau adrannau traddodiadol<br>• Gwell rhannu gwybodaeth ar draws gwasanaethau i gynorthwyo cynllunio a chyflwyno<br>• Mae cynllunio gwasanaethau ar draws y 10 rhaglen gyfansoddol yn gyson gyda'r un set o ganlyniadau<br>• Adolygwyd trefniadau gweinyddol ac ystyriwyd cyfleoedd ailddyrannu ar gyfer adnoddau staff fel ffordd o leihau'r gorbenion gweinyddu grantiau.<br>• Gofynion am gefnogaeth gan ddirywiad y gwasanaethau statudol.<br>• Gwasanaeth atgyfeirio a chefnogaeth sengl i bobl agored i niwed.<br>• Gwell dysgu a rhannu ar lwyddiant a methiannau.<br>• **Gwnaed amcangyfrif o arbedion costau.**<br><br>**Awdurdodau braenaru**<br>• Gwell canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth.<br>• Mae gan ALlau fwy o hyblygrwydd ariannol.<br>• Dulliau comisiynu amgen gan yr ALl<br>• **Cofnodwyd arbedion costau.**<br><br>**Awdurdodau nad ydynt yn Rhai Braenaru**<br>• Gwell canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth.<br>• Mae gan ALlau fwy o hyblygrwydd ariannol.<br>• Dulliau comisiynu amgen gan yr ALl<br>• **Cofnodwyd arbedion costau.** |

## 5. Mewnwelediad Cynnar i Weithrediad y Rhaglen

5.1 Mae'r canfyddiadau yn y rhan hon yn amlygu themâu a mewnwelediadau allweddol a gafwyd o ddadansoddi nodiadau o'r cyfweliadau ansoddol a gynhaliwyd gyda staff rhaglen Ariannu Hyblyg ac arweinwyr grantiau yn Llywodraeth Cymru, arweinwyr rhaglenni a grantiau mewn awdurdodau lleol (awdurdodau braenaru ac nad ydynt yn rhai braenaru) a chysylltiadau arweiniol ar gyfer y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol. Cyfwelyd â 62 o bobl mewn 57 cyfweliad[19] rhwng Mehefin a dechrau mis Medi 2018.

5.2 Cynhelir y dadansoddiad o'r data ansoddol o gyfweliadau gan ddefnyddio dull matrics thematig. Mae hyn yn cynnwys grid dadansoddi i ddosbarthu a dehongli data ansoddol. Dynodir y themâu a'r pynciau allweddol trwy adolygiad cychwynnol o'r cyfweliadau. Ar ôl cytuno'r fframwaith dadansoddi, trosir pob thema i bennawd colofnau mewn siart matrics. Yna, adolygir pob cyfweliad a thynnir a chrynhoir data perthnasol i'w bwydo i'r matrics. Mae'r broses hon yn caniatáu i'r ystod lawn o brofiadau a safbwyntiau gael eu dogfennu, yn ogystal â dal newidynnau esboniadol posibl.

5.3 Yn y rhannau canlynol, amlygwn ganfyddiadau allweddol yn erbyn y themâu canlynol:

- cysoniad strategol o weithrediad y rhaglen
- nodau ac uchelgais
- dulliau cyflwyno'n gynnar
- llywodraethu, partneriaeth a ffocws rhanbarthol PSBs ac RCCs)
- canlyniadau cynnar

5.4 Yn ddieithriad, dynododd pob awdurdod lleol (braenaru ac nad ydynt yn rhai braenaru) sut roedd y gwaith o gyflwyno'u rhaglen Ariannu Hyblyg yn ei chyfnod cynnar a bod nifer gymharol fach o ganlyniadau penodol o ran ail-ddylunio gwasanaethau neu gyflwyno wedi'u dynodi hyd yma. Fel yr amlygodd yr ymatebwr hwn:

---

[19] Roedd nifer o gyfweliadau'n cynnwys hyd at ddau gyfwelai oedd eisiau cyfweliad ar y cyd, ond cwblhawyd un cyfweliad gyda thri chyfranogwr.

‘*rydym ar ddechrau’r broses o hyd, yn deall sut mae’r gwaith o gyflawni’n ffitio gyda’i gilydd a lle gallai unrhyw ddyblygu posibl fodoli, ac yna edrych i gychwyn lle gellid cynnal sgyrsiau ar y gorgyffyrddiadau hynny’* (arweinydd grantiau Awdurdod Lleol)

5.5 Mae hyn i’w ddisgwyl o gofio mai ym mis Ebrill 2018 y dechreuwyd cyflwyno’n bendant ar gyfer y rhaglen Ariannu Hyblyg. At hynny, ni ddynododd unrhyw awdurdodau bod modd i ganlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth gael eu hasesu’n rymus hyd yma a bod modd cysylltur rheiny’n amlwg â gweithrediad y rhaglen Ariannu Hyblyg.

5.6 Ar y cyfan, coladwyd cyfoeth o wybodaeth o’r cyfweliadau sy’n dangos bod ystod o wahanol ddulliau’n cael eu mabwysiadu mewn gwahanol ardaloedd awdurdod lleol (braenaru ac nad ydynt yn rhai braenaru). O gofio cyfnod cynnar y cyflwyno, nid yw’n syndod, hyd yma, fod ychydig iawn sy’n bendant i ddynodi’r dulliau sy’n debygol o fod yn fwy llwyddiannus. Fodd bynnag, mae nifer o themâu cyffredin yr oeddem yn gallu eu tynnu o’n dadansoddiad sy’n dangos rhyw gyffredinolrwydd yn y dull. Mae hyn yn hwyluso mwy o fomentwm am ymlaen mewn rhai ardaloedd lleol o gymharu ag eraill.

5.7 Ar draws y canfyddiadau a ddaw i’r amlwg, ceir deuoliaeth rhwng ardaloedd lle mae llawer wedi ‘manteisio’/’buddsoddi’ yn y fenter ac sydd wrthi’n gweithio i wthio’r gwaith yn ei flaen, a’r rhai sydd ychydig ymhellach ar ei hôl hi (mae hyn yn berthnasol ar draws awdurdodau braenaru ac awdurdodau nad ydynt yn rhai braenaru).

5.8 Un ystyriaeth fan hyn yw bod awdurdod lleol penodol yn fwy tebygol o fod ymlaen yn ei raglen os oes ganddo ‘isadeiledd’ neu ‘broses’ lle gellir symud y gweithrediad yn ei flaen.

5.9 Lle nad yw hyn ar waith, ymddengys bod llai o symudiad a chryn dipyn mwy o ffocws ar yr angen i weithio gan greu newid diwylliannol a phroses rheoli newid er mwyn helpu gwthio’r Rhaglen Ariannu Hyblyg yn ei blaen. Yn ogystal, yn yr awdurdodau hyn (sydd heb eu gwthio ymlaen), mae mwy o ffocws ar y potensial am doriadau cyllid, yn hytrach na chyflwyno hyblyg. Fel yr amlygodd y cyfwelai hwn:

*‘Mae llawer yn parhau i’w weld yn rhywbeth sy’n canolbwyntio ar grantiau, canolbwyntiodd llawer yn ein hawdurdod ar ‘beth fyddaf yn ei golli’ oherwydd nid yw’r darlun strategol mawr yno eto’*

(Arweinydd Ariannu Hyblyg yr Awdurdod Lleol)

5.10 Felly, ymhlith yr Awdurdodau Braenaru, gwnaeth pedwar o’r saith gamau cryfion ymlaen i gychwyn ystod o brosesau a strwythurau adolygu a mapio i ddynodi sail dystiolaeth ar gyfer gweithrediad pellach y rhaglen Ariannu Hyblyg. Mae dau awdurdod braenaru wedi gwneud ychydig llai o gynnydd ac mae gwaith adolygu’n parhau, ac mae un arall heb gychwyn eto ar yr adolygiad strategol manwl o’r grantiau sy’n cael eu cwmpasu gan y rhaglen Ariannu Hyblyg a gynhaliwyd mewn ardaloedd eraill.

**Mewnwelediad Astudiaeth Achos**

Mae Casnewydd wedi bod yn gweithio ar y cysyniad o Hybiau Cymunedol ers 2016 a bydd hyn yn cyd-fynd a’r rhaglen Ariannu Hyblyg ehangach. Mae hyn yn rhedeg ochr yn ochr â ffocws ar ddatblygu dull sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau sy’n ceisio newid o ddulliau cefnogaeth sy’n canolbwyntio’n ormodol ar ariannu, i’r dulliau sy’n gallu cefnogi cleientiaid yn gynt ac yn fwy addas o ganlyniad i gyd-drefniant rhwng y grantiau. Y weledigaeth ar gyfer darparu’r rhaglen yng Nghasnewydd yw gwneud defnydd mwy effeithiol o gyllid i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion lleol trwy sicrhau cydlyniant rhwng rhaglenni a chanfod ffyrdd newydd o weithio a’r posibilrwydd ar gyfer ail-lunio gwasanaethau.

5.11 Ymhlith awdurdodau nad ydynt yn rhai braenaru, ceir patrwm tebyg gyda deg (o’r 14 a gafodd eu cyfweld) wedi cychwyn adolygiadau o EIPS gyda phedwar arall yn bwriadu cychwyn adolygiadau yn ystod y misoedd nesaf yn dilyn derbyn mewnwelediad pellach ar gynnydd y rhaglen ymhlith ardaloedd awdurdodau lleol eraill.

**Cysoniad strategol o weithrediad rhaglenni**

5.12 Ceir cyffredinrwydd cryf ar draws awdurdodau braenaru ac awdurdodau nad ydynt yn rhai braenaru o ffocws strategol ar feysydd polisi gyda gwaith wedi’i gysoni â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a Strategaethau Trechu Tlodi lleol a’r agenda Ffyniant i Bawb. Fel y mae’r cyfwelai hwn yn dynodi:

‘*rydym wedi ffurfio rheng gyda blaenoriaethau PSB a chynlluniau Llesiant lleol, mae’n ddefnyddiol oherwydd mae’n ceisio cysoni’r gwaith cyflwyno grantiau’n fwy gyda’n blaenoriaethau Llesiant allweddol (arweinydd grantiau’r Awdurdod Lleol)*

5.13 Fodd bynnag, agenda leol yn aml a ddarparodd y ‘cymhelliad’ lleol cryfaf ar gyfer awdurdodau Braenaru, a gwelwyd yn aml bod hyn yn hwyluso buddsoddiad ar draws ystod o aelodau staff.

5.14 Mae gweithrediad wedi ennill cryn dipyn yn fwy o fomentwm o’i gysoni ag agenda trawsffurfio awdurdodau parhaus gyda’r rhaglen Ariannu Hyblyg yn cael ei defnyddio fel cerbyd pellach i weithredu’r agenda honno. Mae hyn yn hwyluso cofrestru, cymeradwyo a chymhelliad gan uwch dîm arweinyddiaeth yr awdurdod trwy’r awdurdod sy’n hollbwysig ar gyfer symud y rhaglen Ariannu Hyblyg yn ei blaen. Os ydyw’n ddiffygiol, yna mae gweithrediad wedi tueddu i golli’r ffordd a chael ei ddinistrio gan lai o gydweithio, cydweithio newydd, mwy o ddiogelwch a ffocws ar fanylion y cyflwyno (er enghraifft, prosesau atgyfeirio, ymarfer asesu anghenion, a symud cyllid rhwng grantiau) na datblygu cyd-destun strategol clir ac uchelgais i gyflwyno. Fel y mae’r ymateb hwn yn amlygu:

‘*Y gyrrwr yw’n hagenda trawsffurfio Awdurdod ehangach, rydym yn edrych i gefnogi cydnerthedd yn well er mwyn iddynt fod yn llai dibynnol ar ymyriadau gwasanaethau cyhoeddus yn nes ymlaen felly mae’n helpu lleihau’r galw nad yw’n gynaliadwy yn y tymor hwy o bosibl’* (Arweinydd grantiau’r Awdurdod Lleol)

5.15 Er mwyn llwyddo, ymddengys bod ymgyrch strategol a chefnogaeth uwch arweinyddiaeth a mynegi’r ymgyrch yn gyson yn hollbwysig yn ystod y cyfnod cychwynnol cynnar hwn.

**Mewnwelediad Astudiaeth Achos**

Mae **Conwy** wedi canolbwyntio ar ddull sy’n ceisio datblygu trefniadau cyflwyno lleol fel rhan o’u hagenda trawsffurfio ehangach oedd yn bodoli cyn hynny - Tîm Conwy. Rhannwyd ardal yr awdurdod yn bump ardal. Datblygwyd y gwaith mewn perthynas â dynodi’r ardaloedd oherwydd yr ystyriaeth fanwl o’r ffiniau sy’n bodoli yn y sir fel dalgylchoedd ysgol, ffiniau iechyd a strwythurau cynghorau tref a chymuned.

Roedd y gwaith cychwynnol yn canolbwyntio ar sefydlu set ymyrraeth gynnar o wasanaethau cymorth i deuluoedd sy’n cynnwys cyflwyno trwy Teuluoedd yn

Gyntaf, Dechrau'n Deg a Chefnogi Pobl. Mae'r rhaglen Ariannu Hyblyg wedi dod ar yr adeg iawn, sy'n eu galluogi i symud agenda y maen nhw wedi canolbwyntio arni ers peth amser erbyn hyn yn ei blaen.

Mae craidd y dull gweithredu'n canolbwyntio ar fodel rheoli rhaglen manwl a ddatblygwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn yr awdurdod ac sy'n rhagflaenu'r rhaglen. Daethpwyd â phum Pennaeth Gwasanaeth gwahanol at ei gilydd. Arweinia'r Penaethiaid Gwasanaeth hyn ar bob un o'r deg grant sydd wedi'u cynnwys yn Ariannu Hyblyg. Sefydlwyd tîm cyflwyno sy'n canolbwyntio ar gyfres o becynnau gwaith i'w cyflwyno 1) Ymchwil i anghenion a'r cyflwyniad presennol; 2) Cyfleoedd i Gydgynhyrchu; 3) Opsiynau Comisiynu/Digomisiynu; 4) Monitro a Gwerthuso; 5) Gweinyddiaeth.

Caiff y gwaith y mae'r grŵp yn symud yn ei flaen ei oruchwylio gan dri phwyllgor Craffu ac mae wedi'i gysoni hefyd â'r Bwrdd Trechu Tlodi sy'n cael ei sefydlu yn y fwrdeistref. Hyd yma, bu gan y PSB rôl leiafsymiol wrth gyflwyno'r dull hwn, ond disgwylir rôl yn fwy ymhellach i lawr y ffordd.

5.16 Nid yw awdurdodau nad ydynt yn rhai braenaru wedi cyrraedd y sefyllfa hon eto gan fod y rheidrwydd iddynt symud agenda'r rhaglen Ariannu Hyblyg yn ei blaen yn llawer llai amlwg. Maen nhw'n deall yr angen am y dull ond ar hyn o bryd yn aros am fwy o fewnwelediad gan awdurdodau Braenaru ar sut i wthio dull strategol ymlaen ond mae rhywfaint o waith adolygu'n mynd rhagddo. Mae llawer wrthi'n ymgymryd ag adolygiadau o'u gwasanaethau ar draws y deg ardal grantiau, gyda'r bwriad o ddynodi cyfleoedd strategol o fewn y rhain ymhen y chwe mis nesaf (neu'n fwy).

5.17 Mewn rhai awdurdodau braenaru, gyrrwr cryf yw ffocws cynyddol ar gwsmeriaid sy'n ceisio symud y gwaith cyflwyno i ffwrdd o ffocws unigol ar y grantiau penodol, i ba anghenion y gellir mynd i'r afael â nhw yn y rownd gan y cyflwyniad hwn. Defnyddir hyn yng Nghaerdydd, Conwy, Casnewydd a Thorfaen fel mecanwaith allweddol i wrthsefyll gwrthwynebiad gan rai arweinwyr grantiau, staff cyflwyno ac uwch reolwyr i'r newidiadau a gynigir trwy'r rhaglen Ariannu Hyblyg yn yr ardaloedd hynny, trwy geisio sicrhau yr eir i'r afael ag anghenion cymorth yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl.

### Nodau ac uchelgais

5.18 Ceir dealltwriaeth gyffredinol dda o nodau ac uchelgeisiau cenedlaethol y rhaglen Ariannu Hyblygu ymhlith arweinwyr Ariannu Hyblyg ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru (awdurdodau braenaru ac awdurdodau nad ydynt yn rhai braenaru), ond mae ar ei chryfaf ymhlith yr awdurdodau Braenaru.

5.19 Mae hyn, fodd bynnag, yn chwalu y tu allan i'r grŵp hwn o staff ac mae rhai arweinwyr grantiau mewn awdurdodau braenaru, ac yn enwedig mewn awdurdodau nad ydynt yn rhai braenaru, yn poeni mai prif yrrwr yw un sy'n canolbwyntio dim ond ar arbed costau a lleihau'r 'pot' ariannu cyffredinol ar gyfer EIPS.

5.20 Daw hyn o amgylchedd gwaith sydd wedi'i dra-arglwyddiaethu gan yr agenda cyni er 2010/11 a'r canfyddiad gan nifer fawr o staff awdurdodau, yn enwedig y rhai mewn rolau cyflwyno'r rheng flaen, yw y gallai 'toriadau' neu 'ostyngiadau' mewn gwariant i'r dyfodol mewn gwasanaethau i grwpiau agored i niwed fod yn un maes sy'n cael profiad o'r gostyngiadau hynny. Gallai datganiad cyllideb Llywodraeth Cymru fod wrth wraidd y farn hon ar gyfer 2019/20 (Llywodraeth Cymru, 2017) a amlygodd yr angen am arbedion o £13.4m yn y maes hwn.

Felly, mae gan lawer o staff y gofynnwyd iddynt adolygu/diwygio'r cysylltiadau/trefniadau gweithio gyda grantiau neu lifoedd ariannu eraill un llygad ar yr heriau hyn. Felly, bydd yr amgyffrediad o'r agenda hon yn tueddu i ganolbwyntio ar ble y gallai'r toriadau pellach fod yn dod a sut gallai'r rhain dynnu gwasanaethau 'hollbwysig' i ffwrdd ar gyfer y rhai maen nhw'n eu cefnogi/gweithio gyda nhw yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar gysoni ac integreiddio grantiau.

5.21 Ymateb allweddol i hyn yn yr awdurdodau Braenaru mwyaf datblygedig oedd sicrhau ffocws ar y daith gymorth a brofwyd gan ddefnyddwyr cymorth: Nid yw'n briodol i ddefnyddwyr ymgysylltu â staff o grantiau lluosog, nac i ddefnyddwyr gwasanaeth fethu â throi at wasanaethau (mae'r enghreifftiau'n cynnwys hygyrchedd lleoedd mewn llochesau yn Ne Orllewin Cymru, cyfyngiadau a ddylanwadir gan ddaearyddiaeth i argaeledd cyngor ar ddyled a gwasanaethau cymorth i deuluoedd yng Ngogledd, Canolbarth a De Ddwyrain Cymru, a dyblygu gwasanaethau cymorth rhianta ar draws Cymru).

5.22 Mae rhai awdurdodau'n adrodd bod rhywfaint o amharodrwydd i fod yn gwbl arloesol gyda dulliau cyflwyno, oherwydd ceir ofnau efallai na fydd y newidiadau arfaethedig yn cael eu gwireddu oherwydd sensitifrwydd gwleidyddol o gwmpas rhai o'r newidiadau potensial a allai ddod i'r amlwg o agenda EIPS. Fel yr amlygodd y cyfweleion hyn:

'*Mae angen iddo fynd i fyny i'r Gweinidogion o hyd, beth fydd yn digwydd os na fydd yn digwydd. Ydyn ni'n dadwneud popeth a ddigwyddodd cyn hynny?*' (Arweinydd Ariannu Hyblyg mewn Awdurdod Lleol)

'*Mae'r cwestiwn a fydd Llywodraeth Cymru'n bwrw ymlaen â hyn yn parhau i fod yn ofid, byddai ymrwymiad pellach o gymorth. Gallwn ni ei wneud hebddynt, ond mae'n anos* (Arweinydd Ariannu Hyblyg yr Awdurdod Lleol)

5.23 At hynny, ceir pryderon ynghylch sut gallai cysoniad grantiau i'r dyfodol gael ei saernïo. Pe na fyddai Cefnogi Pobl yn cael ei gynnwys mewn un grant EIPS neu ddull amgen arall, amlygodd nifer o gyfweleion y gallai hyn effeithio'n sylweddol ar y 'dirwedd' ariannu a lefel yr arian sydd ar gael i grantiau eraill a chyfyngu ar yr opsiynau hyblygrwydd potensial:

'*Os nad yw Cefnogi Pobl yn y 'pot' hwnnw, yna mae llawer llai o arian parod i chwarae gydag ef ac efallai bod hynny'n cyfyngu ar yr hyn a allai fod yn bosibl oherwydd mae Cefnogi Pobl yn creu rhan mor fawr o'r cyllid yn yr ardal hon*' (Arweinydd grantiau'r awdurdod lleol)

'*Mae'r ansicrwydd ynghylch ydy Cefnogi Pobl i mewn neu allan yn heriol gan ei bod yn gyfran mor fawr o'r pot ariannu ar gyfer EIPS. Os ydyw allan, gallai hynny gyfyngu ar yr hyn y gallwch ei wneud gyda grant EIPS nad yw'n ei gynnwys* (Arweinydd grantiau awdurdod lleol)

5.24 Fodd bynnag, un farn arall yw hwyrach nad yw effaith symudiad o'r fath ar yr un raddfa â symudiad i un grant. Set o safbwyntiau yw hon a allai gael ei hymchwilio ymhellach iddynt yng ngham nesaf y gwaith gwerthuso i adolygu'r cynnig dau grant a amlygir ym mharagraff 1.26.

5.25 Ceir pryderon hefyd ar draws awdurdodau braenaru ac awdurdodau nad ydynt yn rhai braenaru efallai nad yw unrhyw arbedion sy'n deillio o gyflwyno rhaglen Ariannu Hyblyg a allai gael ei hailddosbarthu i gefnogi pobl agored i niwed fod mor fawr ag yr ystyriwyd yn wreiddiol. Mewn rhai achosion, mae awdurdodau yng Nghymru

eisoes wedi lleihau nifer fawr o swyddogaethau swyddfa ac, er bod dyblygu mewn rhai swyddogaethau gweinyddol, dynododd y cyfweleion y gallai arbedion effeithlonrwydd tebygol sy'n deillio o resymoli esgor ar fân arbedion yn unig. Mae symudiadau o rolau amser llawn i ran-amser i staff sydd ar gyflogau graddfa is yn aml iawn yn un ffordd lle gellid bod wedi cyflawni arbedion effeithlonrwydd. Mae pwysau ariannu blaenorol wedi golygu bod rhai awdurdodau wedi bod trwy sawl rownd ailstrwythuro'n barod a, gydag arbedion a gorwariant pellach wedi'u dynodi yn 2018/19 ac wedi'u rhagweld y tu hwnt i hynny gan arweinwyr cynllunio, mae awdurdodau lleol eisoes yn gweithio'n helaeth ar arbedion effeithlonrwydd.

5.26 Tuedda nodau cychwynnol y gwaith gweithredu cynnar (awdurdodau braenaru ac awdurdodau nad ydynt yn rhai braenaru) ganolbwyntio ar gychwyn adolygiadau ac asesiadau priodol i ddynodi sail dystiolaeth allweddol i ddynodi lle mae angen newidiadau a chysoni. Fel y mae'r ymatebion hyn i'r cyfweliad yn dangos:

> '*Tynnwch bobl i mewn i ystafell i rychwantu i fyny o'r gwaelod i fyny, dechreuwch o'r defnyddiwr gwasanaeth gan ddefnyddio pobl o wahanol feysydd cymorth, ac yna dynodwch feysydd lle mae gwrthdaro wrth gyflwyno gwasanaethau ac yna edrychwch ar yr hyn y mae angen digwydd i wneud newid* (Arweinydd grantiau Awdurdod Lleol)

> '*Dechreuwyd edrych ar fewnbynnau a gweld ble roeddent yn cyfateb mewn rhai achosion. Edrych hefyd ar gomisiynu ar raddfa leol yn ogystal â chynnwys y strwythurau staffio i edrych ar sut gallai dod â phethau at ei gilydd wella canlyniadau'* (Arweinydd grantiau Awdurdod Lleol)

5.27 Ar hyd pob awdurdod lleol nad ydynt yn rhai braenaru a gyfwelwyd[20], mae dealltwriaeth o'r fenter yn dda ac wedi'i chysoni'n dda gyda'r blaenoriaethau cenedlaethol fel yr amlinellir yng nghanllawiau statudol y rhaglen.

5.28 Yn ogystal â'r naratif hwn, ceir ail amgyffrediad ymhlith cyfweleion, sy'n gweld y rhaglen yn erbyn cyd-destun y gostyngiad cyffredinol mewn cyllidebau ar gyfer awdurdodau lleol. Felly, ystyrir Ariannu Hyblyg gan rai cyfweleion fel ffordd o annog cynghorau i wneud mwy gyda llai, ac efallai gorfodi awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau anodd ynghylch beth sy'n cael ei ariannu neu beidio.

---

[20] Oherwydd materion argaeledd staff, nid oedd modd i ni gyfweld ag unrhyw gynrychiolwyr Cyngor Sir Powys mewn digon o amser i'w cynnwys yn yr adroddiad hwn.

5.29 Nid oes yr un o'r awdurdodau lleol nad ydynt yn rhai braenaru eto wedi dynodi nodau nac uchelgeisiau clir ar gyfer y rhaglen Ariannu Hyblyg yr oedd modd iddynt eu mynegi mewn cyfweliadau. Mae hyn oherwydd eu bod ymhellach y tu ôl wrth ddatblygu nodau ac uchelgeisiau penodol o ran sut gallai'r rhaglen alluogi cyflwyno mwy effeithiol yn eu hardaloedd. Wrth i'r gwaith barhau, maen nhw'n disgwyl gallu ffurfioli'r rhain yn fanylach yn y misoedd nesaf er mwyn bod ganddynt weledigaeth y bydd Ariannu Hyblyg yn gallu ei chefnogi wrth symud ymlaen.

**Dulliau cyflwyno cynnar**

5.30 Mae'r rhan fwyaf o waith cyflwyno Ariannu Hyblyg, lle mae'n digwydd, yn rhagflaenu'r rhaglen, yn enwedig mewn awdurdodau Braenaru lle mae'r agenda newid yn cael ei gyrru gan agenda drawsffurfio ehangach (er enghraifft Caerdydd, Conwy, Casnewydd, RhCT a Thorfaen).

> '*Rhagflaenodd ein cyflwyniad seiliedig ar anghenion Ariannu Hyblyg'* (Arweinydd grantiau Awdurdod Lleol)

> '*Roeddem eisoes yn defnyddio sawl grant i ariannu cefnogaeth ac yn ei ddefnyddio'n hyblyg, ond unodd Ariannu Hyblyg pobl gyda'i gilydd i drafod hyn yn fwy'* (Arweinydd grantiau Awdurdod Lleol)

5.31 Ymhlith y dulliau cynnar o ran cyflwyno mae:

- cychwyn fforymau i'r deg arweinydd grantiau gwrdd yn rheolaidd
- y ffaith bod sgyrsiau 'newydd' a 'gwahanol' bellach yn mynd rhagddynt yn lleol o ran sut gallai grantiau ddechrau neu barhau i gydweithio
- cynllunio gweithgareddau a'u comisiynu gyda'i gilydd
- grwpiau o staff ynghlwm wrth rannu a dysgu gyda'i gilydd
- rhywfaint o feddwl ynghylch sut caiff rhaglenni eu saernïo neu sut gallai fod angen iddynt gael eu hail-saernïo.
- adolygu a mapio cyfleoedd i ddynodi ffyrdd o integreiddio gwasanaethau/grantiau sy'n cynnwys mapio teithiau cleientiaid lle mae systemau monitro presennol yn galluogi ar gyfer gwneud cysylltiadau ar gyfer cofnodion i unigolion/teuluoedd sy'n derbyn cymorth.
- edrych ar fodelau cyflwyno hybiau cymunedol lle gall cleientiaid ddod o hyd i bob gwasanaeth mewn un lle
- ailstrwythuro strategol i adfer ffyrdd newydd o gyflwyno i gyfarwyddiaethau

- arferion gweithio wedi newid ar draws adrannau
- adolygu a datblygu llwybrau atgyfeirio sengl (trefniadau Porth) a dull dadansoddi anghenion
- defnyddio ymgynghorwyr arbenigol i helpu ffurfio newid mewn ymarfer a phroses e.e. datblygu strategaeth neu ddefnydd ystadau newydd
- sefydlu strwythurau Llywodraethu newydd
- cysoni swyddogaethau gweinyddol/swyddfa a'u symleiddio o bosibl.

**Mewnwelediad Astudiaeth Achos**

Yn **Rhondda Cynon Taf**, dechreuodd y gweithredu ym mis Gorffennaf 2018 ar ôl i'r cynigion i symud i ddull rhaglen Ariannu Hyblyg gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB). Yn allweddol i'r gymeradwyaeth hon oedd y Bwrdd yn cydnabod bod angen dulliau i adlewyrchu'r gwahaniaethau lleol rhwng Merthyr Tudful a RhCT (mae'r PSB yn fwrdd ar y cyd sy'n cwmpasu'r ddwy ardal awdurdod) ond roedd set o egwyddorion cyffredinol yn cael eu cytuno lle bydd cyflwyniad yn RhCT yn symud ymlaen nawr.

Mae gweithredu model cyflwyno integredig ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal yn canolbwyntio ar y weledigaeth o ddarparu'r gefnogaeth iawn, ar yr adeg iawn i'r bobl iawn a bydd yn cynnwys y canlynol:

- grwpiau targed cynhwysol i fodloni anghenion unigol, teuluol a chymunedol, er mwyn hwyluso cysoni gwasanaethau a chyflwyno'r buddiannau cyfredol o raglenni unigol presennol fel isafswm
- dynodi angen clir am gefnogaeth ar ffurf ymyrraeth gynnar ac atal
- llwybr cymorth clir fel rhan o gontinwwm sy'n darparu'r gefnogaeth iawn i'r bobl iawn ar yr adeg iawn trwy fynediad cyffredinol i 'ddrws blaen' unigol
- set gyffredin o egwyddorion cyflwyno gweithredol a ffocws ar weithio cydlynol sy'n sicrhau mynediad cymorth i'r unigolion iawn ar yr adeg iawn ac yn y lleoliadau iawn gyda gwasanaethau fel rhianta ar gael ar raddfa gyffredinol
- datblygu fframwaith canlyniadau sengl effeithiol

Y catalydd ar gyfer y model integredig hwn fydd y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth sy'n cael ei amlariannu ar draws grantiau ond sydd hefyd yn cynnwys cyllid craidd gan yr awdurdod lleol, a bydd y rhaglen Ariannu Hyblyg yn galluogi cyflwyniad sydd heb gael ei gyfyngu gan feini prawf cymhwyster, trwy un pwynt mynediad i symleiddio'r broses atgyfeirio gyffredinol.

5.32 Gyda llyw Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) cryf, gellir goresgyn heriau cyflwyno cychwynnol oherwydd ceir ymdeimlad clir bod yr agenda'n un strategol i'r awdurdod.

5.33 Mae amserlenni o gwmpas peilot un flwyddyn i gyflwyno newid diwylliannol, adolygu ac ail-ddylunio gwasanaethau, ac arferion gweithio newydd yn ddestun pryder mawr i bump o'r saith awdurdod braenaru. Fel y mae'r cyfweleion hyn yn amlygu:

> *'Mae peilot un flwyddyn yn fyr iawn. Bodola risg i ni os na fydd Ariannu Hyblyg yn digwydd o ran beth fyddem yn ei wneud ta beth yn erbyn beth fyddai'n dda i'w wneud'* (Arweinydd Ariannu Hyblyg yr Awdurdod Lleol)

> '*Bydd darlun clir o'n grantiau yn dod yn glir ar ddiwedd y flwyddyn yn unig, neu efallai erbyn chwarter 3. Mae hyn oherwydd y ffordd y mae'r gofynion am gyllid yn symud ar hyd y flwyddyn. Mae'n anodd dweud i'r carn ar hyn o bryd.*' (Arweinydd grantiau Llywodraeth Cymru)

> '*Mae hwn yn rhywbeth na ellir ei ruthro, mae proses y mae angen iddo fynd trwyddo i gael y sail dystiolaeth briodol i ddangos ei fod yn arwain at newid, gan ddangos dealltwriaeth ac iaith gyffredin i ddynodi pa wahaniaeth sy'n cael ei wneud* (Arweinydd grantiau Llywodraeth Cymru)

5.34 Mae rhai awdurdodau Braenaru'n poeni llai er bod pob un ohonynt wedi bod yn gweithio ar yr agenda hon am fwy na 4-5 mlynedd sy'n dangos yr amserlenni sydd ynghlwm â'r gwaith hwn.

5.35 Fodd bynnag, roedd barn gref ar draws yr awdurdodau Braenaru fod y rhaglen Ariannu Hyblyg wedi ymddwyn fel catalydd ar gyfer newid, gan ddod â rhai elfennau ychwanegoldeb sy'n gysylltiedig â gwthio'r agenda a hwylusir gan y rhaglen yn yr ardaloedd hynny, fel yr amlygodd y cyfweleion hyn:

> '*Mae Ariannu Hyblyg wedi cael grwpiau at ei gilydd yn ffurfiol. Nid oeddem wedi symud ymlaen o'r blaen oherwydd y cyfiawnhau yr oedd yn rhaid i ni ei wneud i uno'r cronfeydd'* (arweinydd grantiau Awdurdod Lleol)

‘*Mae hyblygrwydd ariannu wedi cyflymu’r ffocws lleol ar integreiddio, mae wedi’i dynnu ymlaen ymhellach. Ydyn nhw’n ei fyw ac yn ei anadlu? Nac ydyn, maen nhw’n poeni o hyd am golled ac maen nhw eisiau diogelu eu hardaloedd eu hunain’* (arweinydd Ariannu Hyblyg yr Awdurdod Lleol)

‘*Rydym wedi defnyddio Ariannu Hyblyg fel cerbyd i wthio newid fan hyn, gallem fod wedi gwneud hynny ta beth, ond mae wedi helpu cael y cymhelliad hwnnw trwy brosiect Llywodraeth Cymru fel hwn*’ (arweinydd Ariannu Hyblyg yr Awdurdod Lleol)

5.36 Mae newid diwylliannol o’r math sydd ynghlwm yn y rhaglen Ariannu Hyblyg wedi bod yn feichus o ran amser yn y gorffennol, gan fod angen amser i drafod strwythurau newidiol a ffyrdd o weithio yn gywir ac mae’r profiad ohono’n wahanol i wahanol lefelau staff. Mae hyn oherwydd bod prosesau awdurdodau lleol yn symud yn araf ac yn fiwrocrataidd yn aml iawn. Mae rhai awdurdodau Braenaru wedi ceisio cydleoli staff yn fwriadol gan arwain at newid mewn timau i gefnogi’r pontio i ddulliau newydd a hwyluso proses newid yn gynt.

5.37 Y disgwyliadau ymhlith yr awdurdodau Braenaru mwyaf datblygedig yw y bydd hyblygrwydd llawn ar waith yn 2019/20, ond hwyrach nad yw hyn yn cwmpasu pob EIPS ac felly gallai gynnwys gweithredu un hwb cymunedol, neu gyflwyniad thematig o gwmpas rhai meysydd cymorth fel Cymorth i Deuluoedd, Gwasanaethau Pobl Hŷn a Llesiant er enghraifft, yn hytrach na hyblygrwydd ar draws yr holl feysydd grantiau. Mae hyn oherwydd bod dymuniad i brofi’r cyflwyniad hwn ymhellach, er mwyn manwl gyweirio modelau cyn symud i gyflwyniad llawn ar draws yr awdurdod.

5.38 Mae symudiadau i gychwyn comisiynu gweithgarwch ar y cyd eisoes yn digwydd mewn awdurdodau Braenaru ac mewn o leiaf 10-11 o awdurdodau nad ydynt yn rhai braenaru, ond cymhlethir y rhain gan gytundebau cyfamodol mewn rhai ardaloedd awdurdodau lle mae contractau Cefnogi Pobl yn aml yn rhedeg am 3+ blynedd wrth i grantiau eraill tueddu i weithio ar gylch comisiynu blynyddol. Nid yw hyn yn anorchfygol os nad yw cymalau terfynu contractau’n rhoi baich sylweddol ar awdurdodau, ond nid dyma’r achos bob amser ac nid yw rhywfaint o waith comisiynu ar y cyd cynnar wedi cynnwys trefniadau Cefnogi Pobl oherwydd natur y contractau gwasanaeth tymor hwy presennol yn yr ardal hon.

5.39 O ran grantiau'n dechrau cydweithio, mae hyn yn amrywio'n sylweddol o awdurdod lleol i awdurdod lleol (braenaru ac nad ydynt yn rhai braenaru). Fodd bynnag, daw rhai patrymau i'r amlwg gyda grantiau cysylltiedig â theuluoedd (Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf/Y Gronfa Waddol) yn aml yn cydweithio, wrth i grantiau cysylltiedig â thai (Cefnogi Pobl, Digartrefedd) weithio'n gyffredin gyda'i gilydd hefyd.

5.40 Mewn awdurdodau Braenaru, ymddengys bod perthnasoedd gweithio ac ariannu cryfach, mwy hanesyddol rhwng grantiau Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Chefnogi Pobl gyda'r Gronfa Waddol a PPE ynghlwm hefyd, ond cafwyd enghreifftiau ar draws ystod o awdurdodau nad ydynt yn rhai braenaru hefyd. Mae'r enghreifftiau mewn awdurdodau braenaru ac nad ydynt yn rhai braenaru sy'n rhagflaenu gweithrediad y rhaglen Ariannu Hyblyg yn cynnwys:

- contractau ar y cyd gan gynnwys cymorth cysylltiedig ag iechyd (Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg)
- cyngor ar arian (Teuluoedd yn Gyntaf  a Chefnogi Pobl)
- cam-drin domestig (Teuluoedd yn Gyntaf a Chefnogi Pobl)
- fforymau rhieni (Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a'r Gronfa Waddol)
- rhianta (Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg)
- cymorth targedig i bobl ifanc a theuluoedd (PPE a Theuluoedd yn Gyntaf)
- lleferydd cynnar a datblygu iaith (Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf).

5.41 Nid ymatebodd awdurdodau nad ydynt yn rhai braenaru fod grantiau wedi dechrau gweithio gyda'i gilydd, oherwydd y fenter Ariannu Hyblyg bosibl. Mewn rhai ardaloedd, ffurfiwyd pwyllgorau i gael arweinwyr/comisiynwyr grantiau o gwmpas y bwrdd, ond nid yw hyn wir wedi arwain at gyflwyniad cydlynol eto.

5.42 Mae gan lawer o awdurdodau lleol (braenaru ac nad ydynt yn rhai braenaru) gydweithrediadau presennol rhwng grantiau yn y rhaglen Ariannu Hyblyg (a rhai y tu allan i'r grantiau presennol yn y rhaglen). Maen nhw wedi canfod lle mae arweinwyr grantiau'n cyfarfod ac yn cydweithio'n rheolaidd, ceir mwy o frwdfrydedd i'r fenter. Awgrymodd yr ymatebwyr y bydd adeiladu ar y strwythurau hyn yn ganolog i'r dull a gymerir yn y pen draw.

5.43 Cwestiynodd sawl arweinydd y rhaglen Ariannu Hyblyg pam cafodd Gorfodi Rhentu Doeth Cymru a Chronfa Dydd Gŵyl Dewi eu cynnwys yn y deg grant sy'n cael eu cwmpasu gan y rhaglen. Canfu'r arweinwyr hyn ei bod hi'n anodd deall sut gallai'r grantiau hyn gael eu cysylltu'n ddigonol â meysydd cyflwyno gwasanaeth eraill, neu gael eu defnyddio i gefnogi hyblygrwydd mewn meysydd eraill, gan fod y gofynion am gyllid oddi wrthynt yn debygol o fod yn hynod anrhagweladwy.

**Llywodraethu, partneriaeth a ffocws rhanbarthol (PSBs ac RCCs)**

5.44 Bu gan Fyrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus (PSBs) rôl gyfyngedig hyd yma mewn Braenaru ond fe'u galwyd i gymeradwyo cynigion Ariannu Hyblyg (Cwm Taf – Merthyr/RhCT), i gadarnhau gwaith adolygu cychwynnol, neu dim ond i glywed rhagor o wybodaeth am agenda'r rhaglen Ariannu Hyblyg. Mae Cwm Taf yn rhoi cynnig ar ddull y rhaglen Ariannu Hyblyg fel PSB, ond hyd yma, erys am newid mawr yng ngweithrediad y PSB wrth i elfennau cynnar gweithredu gael eu cyflawni. Fel yr amlygodd y cyfweleion hyn:

> '*Hyd nes cymeradwyo, bu gan y PSB frîff gwylio mewn gwirionedd, ond disgwyliwn iddynt fod ynghlwm mwy â gweithredu erbyn hyn'* (Arweinydd grantiau Awdurdod Lleol)
>
> '*i'r PSB, nid ydym wedi gweithio allan lle maen nhw'n eistedd eto, ond mae potensial am broses yno ac mae yna opsiynau i'w hystyried i weithio allan rôl ar gyfer y Bwrdd'* (arweinydd grantiau Awdurdod Lleol)

5.45 Disgwylir ymgysylltiad mwy helaeth wrth i achosion busnes ar gyfer newid gael eu drafftio a disgwylir ymgynghori'n helaethach ar y rhain gyda PSBs. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r wybodaeth lawn am y rhaglen Ariannu Hyblyg ymhlith nifer fawr o PSBs (ar wahân i PSB Cwm Taf) ac mae arweinwyr Ariannu Hyblyg yn cynllunio rhaglenni gwybodaeth i'r grwpiau hyn. Mae'n debygol y bydd gwahoddiadau i staff Llywodraeth Cymru fynychu cyfarfodydd PSB yn parhau.

5.46 Mewn awdurdodau nad ydynt yn rhai braenaru, nid yw PSBs eto wedi cael unrhyw ymgysylltiad helaeth gyda'r rhaglen Ariannu Hyblyg ar wahân i rannu gwybodaeth am y cyfle a gyflwynir gan y rhaglen.

5.47 Mae'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol[21] (RCCs) yn adrodd pryderon mewn perthynas â'u hymwneud wrth gyflwyno'r rhaglen Ariannu Hyblyg. Ceir amgyffrediad nad ymgynghorwyd yn llawn â nhw, ac mae'r darparwyr yn y grwpiau hyn yn

[21] Bu modd cynnal cyfweliadau gyda phedwar o'r chwe RCC yng Nghymru oherwydd argaeledd y cyfweleion.

pryderu'n fawr am oblygiadau gweithredu ar lefelau ariannu, sy'n adlewyrchu'r safleoedd a fynegwyd gan y sector Tai ehangach am symud cronfeydd i feysydd mwy 'gwleidyddol boblogaidd' fel gofal plant neu gymorth i deuluoedd. Mae'r grwpiau hefyd yn mynegi parodrwydd i glustnodi cyllid ar gyfer gwasanaethau Atal Digartrefedd a thai er mwyn sicrhau bod ffocws allweddol ar y cyflwyniad hwn yn parhau.

5.48 Mae RCCs yn croesawu'r cyflwyniadau gwybodaeth a gawsant gan staff Llywodraeth Cymru ond bydden nhw'n croesawu mwy o wybodaeth 'fyw' a hyd yn oed strategaeth gyfathrebu am y cynnydd sy'n cael ei wneud mewn ardaloedd Braenaru, sut mae pethau'n cael eu gwneud a'r canlyniadau sy'n deillio ohonynt.

5.49 Ceir ymdeimlad ar draws RCCs fod staff awdurdodau lleol yn tueddu i fod yn fwy gwybodus am yr hyn y mae Ariannu Hyblyg yn ei olygu ac yn eu symud ymlaen tra bod staff y darparwyr yn llai clir, oherwydd cafwyd gwahaniaeth amlwg mewn gwahanol awdurdodau ynghylch sut trosglwyddwyd negeseuon am y rhaglen Ariannu Hyblyg ac EIPS ymlaen mewn awdurdodau lleol, ac i asiantaethau allanol. Mae yna awch am symiau sylweddol fwy o wybodaeth am hyn ymhlith pob RCC o awdurdodau lleol.

5.50 Nid yw RCCs yn glir a fyddai dimensiwn rhanbarthol ar gyfer cyflwyno dan EIPS yn parhau; nodant fod rhywfaint o'r gwaith strategol maen nhw wedi bod yn rhan ohono wedi arwain at ddatblygu strategaethau rhanbarthol ar gyfer gwaith Atal Digartrefedd neu adolygiadau o dai â chymorth.

**Canlyniadau cynnar**

5.51 Gan mai dim ond 3-4 mis sydd wedi mynd heibio ers gweithredu'r rhaglen Ariannu Hyblyg, mae'r canlyniadau'n eithriadol o gyfyngedig yn y cyfnod hwn. Y canlyniad allweddol hyd yma ar draws awdurdodau (braenaru ac nad ydynt yn rhai braenaru) yw cychwyn grŵp ar y cyd i bob un o'r deg arweinydd grant gyfarfod, deall gweithgareddau pob grant, eu cyfrifoldebau a'u cyflwyniad presennol, a thrafod trefniadau cydweithio.

5.52 Mae o leiaf pedwar awdurdod Braenaru wedi newid strwythurau'u sefydliad i ddod â chyfrifoldebau i'r 10 grant mewn un gyfarwyddiaeth gydag eraill yn bwriadu gwneud hyn, ar ôl i adolygiadau a gweithgareddau mapio gwasanaethau parhaus gael eu cwblhau.

5.53 Mae'r gwaith adolygu cynnar mewn awdurdodau Braenaru'n amlygu'r potensial cynnar am newidiadau mewn dulliau cynllunio strategol i gyflwyno grantiau, dulliau

dadansoddi anghenion newydd, rhai opsiynau i symleiddio gwasanaethau, a chyfleoedd dynodedig am weithio mwy cydlynol ond maen nhw'n dymuno cwblhau'r gwaith adolygu yn y lle cyntaf cyn ymroi i'r rhain.

5.54 Gan symud i ddiwedd 2018/19, mae disgwyl y bydd y rhaglen Ariannu Hyblyg yn arwain at welliannau mewn cynllunio grantiau'n strategol, arloesedd mewn dulliau cyflwyno, rhai meysydd rhesymoli bychain, rhai newidiadau i weithio trefniadol, a gweithio mwy cydlynol, ond hyd yma, ceir tystiolaeth gyfyngedig o'r patrymau hyn ar gyfnod mor gynnar o weithredu'r rhaglen. Teimla lawer o awdurdodau ei bod hi'n rhy gynnar dweud wrth i'r gwaith adolygu barhau ac maen nhw'n aros am sail dystiolaeth lawn cyn ymroi i ganlyniadau/effeithiau penodol i'r dyfodol. Fodd bynnag, bydd y Theori Newid yn darparu mecanwaith allweddol y bydd mesurau allweddol yn erbyn cynnydd yn cael eu hadolygu trwyddo.

5.55 Ymhlith awdurdodau nad ydynt yn rhai braenaru, adroddodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eu bod yn ystyried gwneud newidiadau i strwythurau/ffurfio pwyllgorau newydd. Dywedodd eraill y byddant yn aros am gadarnhad bod y cynllun yn mynd yn ei flaen cyn bwrw ymlaen ag unrhyw newidiadau sylweddol. Mae cydweithio newydd yn debygol o fod yn ganlyniad tymor byr, hyd yn oed os mai dim ond grwpiau/personél allweddol yn y sefydliad sy'n dod yn fwy ymwybodol o'i gilydd a'r hyn maen nhw'n ei wneud gan greu cyfle i'w hystyried.

**Monitro rhaglen Ariannu Hyblyg a'r fframwaith canlyniadau ar y cyd**

5.56 Ar ôl adolygu cyfarwyddyd grantiau presennol a'r adroddiadau monitro chwarterol trosfwaol cyntaf a wnaed gan awdurdodau Braenaru, gallwn ddynodi rhywfaint o gyd-destun defnyddiol i ddynodi fframwaith canlyniadau cyffredin ar draws y rhaglen Ariannu Hyblyg.

5.57 Roedd adolygu'r gofynion arweiniad a monitro presennol ar draws y deg grant (gweler para 2.5) oedd ynghlwm yn y rhaglen Ariannu Hyblyg yn dangos, o ran y meini prawf cymhwyster, bod bron yr holl grantiau'n rhaglenni cenedlaethol a gyflwynir ym mhob awdurdod lleol. Yr eithriad yw'r Gronfa Waddol a gyflwynir mewn awdurdodau lleol oedd â Chymunedau yn Gyntaf yn unig. Mae gan Cymunedau am Waith a Mwy (CaW+) ffocws penodol ar ardaloedd Cymunedau am Waith, ond gellir ei gyflwyno mewn ardaloedd eraill hefyd. Gellir cyflwyno Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc (PPE) yn rhanbarthol trwy waith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol ac ar lefel leol hefyd.

5.58 Mae’r grwpiau oedran a dargedir gan y deg grant yn amrywio. Er enghraifft, targedir Dechrau’n Deg at blant 0-4 oed, a thargedir grantiau Gofal Plant a Chwarae at blant oed ysgol; Teuluoedd yn Gyntaf at deuluoedd cyfan; PPE at blant a phobl ifanc; Cronfa Dydd Gŵyl Dewi at bobl ifanc 16-24 oed; a CaW+, Y Gronfa Waddol, Cefnogi Pobl ac Atal Digartrefedd at yr holl oedolion oed gweithio sef 16 oed neu’n hŷn.

5.59 Ceir grwpiau targed penodol iawn ar gyfer y rhaglenni hyn, ac er bod rhywfaint o orgyffwrdd, nid yw’n gynhwysol ac nid yw’r rhaglen lawn o 10 grant yn cefnogi pob un o etholwyr y grwpiau hyn, felly:

- Mae CaW+ a’r Gronfa Waddol yn cefnogi’r di-waith a’r rhai a dangyflogir, gan ganolbwyntio ar yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.
- Mae Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau’n Deg, Cronfa Dydd Gŵyl Dewi, PPE a’r Gronfa Waddol i gyd yn cefnogi datblygiad plant neu bobl ifanc dan anfantais ac sy’n wynebu amgylchiadau heriol, gan gynnwys Plant sy’n Derbyn Gofal a’r rhai sy’n gadael Gofal
- Mae Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau’n Deg hefyd yn cefnogi’r gwaith o ddatblygu sgiliau rhianta ac yn cynnig gwasanaethau arbenigol i deuluoedd ar gyfer ystod eang o feysydd gan gynnwys anghenion iechyd, ariannol a llety
- Targedir Atal Digartrefedd a Chefnogi Pobl yn benodol at leddfu digartrefedd neu ddarparu gwasanaethau tai â chymorth.
- Mae Atal Digartrefedd, Cefnogi Pobl, Cronfa Dydd Gŵyl Dewi, PPE, Y Gronfa Waddol a Theuluoedd yn Gyntaf yn edrych i ddatblygu annibyniaeth y bobl ifanc a’r oedolion a gefnogant ac yn hybu grymuso yn eu plith.

5.60 Ceir rhai elfennau cyffredin clir rhwng yr adroddiadau ariannol ar draws nifer fawr o’r deg grant ac mae hyn wedi arwain at Lywodraeth Cymru’n datblygu un ffurflen hawlio ariannol ar gyfer y deg grant.

5.61 Gwnaed y rhan fwyaf o’r hawliadau blaenorol yn chwarterol ar draws y deg grant. Mae’r holl systemau ariannol yn gofyn am ffigurau gwariant wedi’u darogan a gwirioneddol a chânt eu gwneud bob chwarter bellach ar gyfer pob un o’r deg grant yn 2018/19.

### Cynigion ar gyfer fframwaith canlyniadau

5.62 Yn dilyn y dadansoddiad uchod a'r adolygiad o ganlyniadau, rydym wedi dynodi'r cynnwys arfaethedig canlynol am fframwaith canlyniadau i fod yn sail i gyflwyno'r rhaglen Ariannu Hyblyg, er mwyn darparu seiliau ar gyfer fframwaith pellach a fyddai'n sail i asesiad o unrhyw gronfa EIPS i'r dyfodol.

5.63 Amlinellodd yr ymatebion i'r cyfweliad rai egwyddorion allweddol y mae eu hangen i fod yn sail i'r fframwaith canlyniadau gan gynnwys:

- yr angen i symud i ffwrdd o fesurau canlyniadau penodol iawn sy'n gysylltiedig â grantiau penodol
- bod canlyniadau'n osgoi'r angen i ficro-reoli cyflwyniad gan Lywodraeth Cymru
- bod canlyniadau'n darparu cysylltiadau da i fesur arbed costau er mwyn dangos lle gallai dadansoddiad o well anghenion fod yn creu'r arbedion hynny
- bod canlyniadau dynodedig yn cysylltu'n benodol â mesurau canlyniad Llesiant cenedlaethol ac felly'n cysylltu â Chynlluniau Llesiant lleol
- creu cysylltiadau amlwg â Maturity Index yr Early Intervention Foundation (2014) gan fod paralelau clir rhyngddo a'r anghenion ar gyfer y fframwaith hwn. Mae hyn yn cynnwys cysoniad cryf gyda blaenoriaethau Llywodraeth Cymru – creu cyfoeth a ffyniant, hwyluso iechyd a llesiant i holl drigolion Cymru, codi uchelgais a dysgu, a chydnerthedd a diwallu potensial fel yr amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n cynnwys hefyd elfennau allweddol y cydrannau hollbwysig y tu cefn i gyflwyno llwyddiannus fel yr amlygwyd yn yr adolygiad o ddeunydd darllen ym Mhennod 4, sef cynllunio, cyflwyno, gwerthuso ac arwain.

5.64 Dylai datblygiad parhaus y fframwaith canlyniadau ystyried hefyd opsiynau am waith pellach i sicrhau cysoniad ag egwyddorion RBA, er mwyn i'r canlyniadau ar lefel genedlaethol gael eu mynegi fel amod llesiant ar gyfer pobl. Byddai hyn hefyd yn ymddwyn fel datganiad o'r uchelgais o ble gallai cysoniad grantiau fod yn y dyfodol. Yn ogystal, dylai gynnwys dulliau i alluogi ar gyfer cyd-gynhyrchu mesurau trwy grwpiau defnyddwyr gwasanaeth er mwyn dod â safbwynt gwahanol i'w ddatblygiad.

**Tabl 5.1: Mesurau Canlyniad a Gynigir gan Gynrychiolwyr Gweithdai (Mehefin – Gorffennaf 2018)**

| Canlyniadau Tymor Byr | Canlyniadau Tymor Canolig | Canlyniadau Tymor Hir |
|---|---|---|
| Cynnal niferoedd isel y plant a'r bobl ifanc sy'n mynd i mewn i'r gwasanaethau statudol. | Cefnogaeth ddi-dor (dim loteri côd post) | Ffurflenni data sengl, cyffredin, syml |
| Cyfoethogi dealltwriaeth o anghenion | Y pellter sy'n cael ei deithio gan ddefnyddwyr | Llai o ddwysáu i wasanaethau statudol |
| Dadansoddiad o anghenion strategol sengl ehangach | Buddsoddiad ac [arweinyddiaeth] gwleidyddol ac uwch lleol – perchnogaeth | Ail-gomisiynu gwasanaethau trwy gytundeb ar y cyd timau |
| Trefniadau mesur cyffredin | Defnyddio hyblygrwydd - cyflwynir cefnogaeth lle na fyddai wedi'i chyflwyno'n flaenorol | Symud mewn diwylliant tuag at arferion gwaith newydd |
| Ail-ddylunio gwasanaethau i leihau dyblygu | Llwybr clir i'r defnyddiwr | Arbedion effeithlonrwydd arian parod |
| Gostyngiad yn nifer y camau penderfynu mewn llwybrau atgyfeirio/gwasanaethau | Iaith gyffredin sy'n galluogi creadigrwydd ac arloesedd | Lefelau gweithio rhanbarthol mwy, sy'n cynnwys iechyd, yr heddlu a gwasanaethau statudol eraill |
| Niferoedd yr atgyfeiriadau o'r un bobl/teuluoedd ar draws pob rhaglen | Datblygu swyddi a chynllunio gweithleoedd yn well heb i gyllid rwystro'r gwaith cyflwyno | Mae defnyddwyr gwasanaeth yn graddio gwasanaethau'n uwch |
| Mae staff yn deall egwyddorion a nodau EIPS | Mae pobl yn gryf ac yn cynnal bywydau | Caniatáu amrywiad lleol wedi'i adeiladu ar set o egwyddorion craidd |
| Buddsoddiad ac [arweinyddiaeth] gwleidyddol ac uwch lleol – perchnogaeth | | Defnyddwyr a Staff atgyfeirio'n gwybod ble i fynd i gael yr help iawn ar yr adeg iawn |

Ffynhonnell: Nodiadau Gweithdy Theori Newid – Mehefin-Gorffennaf 2018 (gweler para 3.2) i gael rhagor o fanylion ar y gweithdai

## 6. Gwersi a Ddysgwyd o Weithredu'r Rhaglen Ariannu Hyblyg

6.1 Mae adolygu'r mewnwelediadau o'r gwaith adolygu deunydd darllen a'r canfyddiadau o'r cyfweliadau, gyda'r rhai sydd ynghlwm â gweithredu'r rhaglen Ariannu Hyblyg ar lefel Llywodraeth Leol ac awdurdod lleol (braenaru ac nad ydynt yn rhai braenaru), yn amlygu hyd yn oed ar y cyfnod cynnar hwn, bod sawl thema lle gellir dysgu gwersi allweddol.

6.2 Mae'r gwersi hyn yn ymwneud â'r prif themâu canlynol:

- gweithredu'r rhaglen
- cyflwyno'r rhaglen i'r dyfodol
- rhannu arfer gorau.

*Dysgu o roi'r rhaglen ar waith*

6.3 Mae gwaith adeiladu perthynas penodol gan arweinwyr Ariannu Hyblyg ym mhob awdurdod lleol gydag arweinwyr grantiau a rhaglen yn hollbwysig i fynd i'r afael â'r bygythiadau canfyddedig i rolau ac agweddau diffynnaeth tuag at gyllid a allai atal y defnydd hyblyg o'r cronfeydd hynny.

6.4 Mae ymgysylltu'n onest gydag arweinwyr grantiau a rhaglenni ar lefel awdurdod lleol yn hollbwysig i gyflwyno'r rhaglen Ariannu Hyblyg yn effeithiol, ac mae angen i'r sgyrsiau hyn ganolbwyntio ar y ffaith nad yw rhai cleientiaid yn cael y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen oherwydd cymhlethdod rhai o'r systemau ariannu sydd eisoes ar waith. Amlinellwyd y cymhlethdodau hyn gan y cyfweleion hyn:

> '*O edrych arno, rydym yn pendroni sut aeth defnyddwyr gwasanaeth trwy'r system. Mae mor gymhleth oherwydd yr anghenion sydd ynghlwm ac rydym wedi colli defnyddwyr oherwydd y diffyg cydlyniad. Pe byddem yn dechrau eto, ni fyddem yn dylunio'r system gymorth fel y mae nawr*' (Arweinydd grantiau Awdurdod Lleol)

> '*Mae angen i rywbeth newid, mae teuluoedd yn cael trafferthion ac mae angen i ni wneud rhywbeth yn wahanol*' (arweinydd grantiau Llywodraeth Cymru)

> '*Ni fyddai neb yn sefydlu'r system rydym sydd gennym erbyn hyn ar ôl i chi ei mapio* (Arweinydd Ariannu Hyblyg yr Awdurdod Lleol)

6.5 Mae angen rhoi amser i'r broses hon, gydag ymgysylltiad posibl yn digwydd yn swyddfeydd y rhai sy'n cael eu hymrestru yn y dulliau newydd. Mae'n bwysig sylweddoli bod y staff hyn yn poeni am ailstrwythuro parhaus gan awdurdodau lleol sy'n rhagflaenu'r rhaglen Ariannu Hyblyg, eu swyddi presennol, unrhyw rolau i'r dyfodol a allai godi yn sgil newidiadau sy'n deillio o gyflwyno'r rhaglen ac EIPS, ac effaith botensial mynediad pobl agored i niwed i wasanaethau cymorth.

6.6 Mae elfennau llwyddiant hollbwysig yn cynnwys eglurder penodol ar nodau ac amcanion y rhaglen Ariannu Hyblyg, a'r grant EIPS potensial ar draws ystod o randdeiliaid, er mwyn sicrhau hyblygrwydd ond hefyd er mwyn sicrhau y parheir i fynd i'r afael â bwriadau gwreiddiol y grantiau. Nid yw'r ffaith eu bod wedi'u cynnwys mewn un pot ariannu'n golygu bod yr anghenion cymorth yn diflannu.

6.7 Mae cytundeb, cefnogaeth ac eiriolaeth yr uwch reolwyr yn hollbwysig er mwyn symud yr agenda hon ymlaen yn gyflym. Gall cytundeb ar y lefel hon gynnig cefnogaeth glir, annibynnol am y ffordd ymlaen, ac atgyfnerthu'r pwysigrwydd a'r perthnasedd i'r awdurdod lleol o'r angen i fynd ar drywydd yr agenda ehangach y mae'r rhaglen Ariannu Hyblyg a'r grant EIPS potensial yn ei cheisio er mwyn cyflwyno gwasanaethau yng Nghymru.

6.8 Mae profiad allweddol yn dangos yr angen am lywodraethu clir, syml, set o egwyddorion cymhellol, gweledigaeth glir, cysondeb ar draws arweinwyr Llywodraeth Cymru ar weithrediad ar eu pen nhw, a ffocws ar ddull o'r gwaelod i fyny a yrrir gan anghenion cymorth.

6.9 Mae'r trefniadau cydweithio parhaus yn gweithio oherwydd y cyfathrebu rheolaidd rhwng grantiau. Trwy'r trefniadau hyn, mae'r arweinwyr yn deall pa staff sy'n gweithio ynddynt a'r defnyddwyr gwasanaeth y gweithiant gyda nhw, ac yna gallant rannu syniadau'n gyson ar gyflwyno a chefnogi, a bod yn agored i set ehangach o syniadau o ganlyniad, sy'n hwyluso meddwl mewn cyd-destun ehangach am opsiynau ail-ddylunio gwasanaethau posibl.

*Gwersi ar gyfer cyflwyno rhaglenni i'r dyfodol*

6.10 Byddai awdurdodau lleol a'u staff yn gwerthfawrogi dull 'gan bwyll', gan fod y gwaith adolygu cynnar yn dangos bod cryn dipyn y mae angen ei ffurfioli a'i gynllunio'n gywir er mwyn i'r rhaglen gael set briodol o effeithiau. Mae hyn oherwydd bod awdurdodau Braenaru'n dynodi bod angen sefydlogrwydd a sicrwydd ar bob peilot i barhau i wneud cynnydd a bod angen amser ar bobl i symud i ble mae angen iddynt fod.

6.11 Hwyrach nad yw tystiolaeth o'r peilot yn bendant eto oherwydd y cyfnod gweithredu a gyrhaeddwyd, ond mae awdurdodau lleol yn awyddus bod Llywodraeth Cymru'n benderfynol o gefnogi mynd ar drywydd yr agenda hon, er mwyn i waith treialu pellach allu mynd yn ei flaen a bod staff yr awdurdod lleol yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi i fod mor arloesol â phosibl wrth roi'r rhaglen Ariannu Hyblyg ar waith.

6.12 Hwyrach y bydd blwyddyn arall o aros am fanylion y canlyniadau a'r effeithiau er mwyn hwyluso gwneud penderfyniadau pellach ar opsiynau cyflwyno EIPS i'r dyfodol o fantais, oherwydd gallai'r gwaith sefydlu fod angen 12 mis o leiaf – mae llawer o waith paratoi i'r awdurdodau lleol ei wneud, a systemau newydd i'w rhoi ar waith.

6.13 Mae arweinwyr awdurdodau lleol ar gyfer Ariannu Hyblyg yn glir iawn na ellir rhuthro'r broses adolygu ac ail-ddylunio. Bydd set o newidiadau mwy sylweddol a chynaliadwy o gwmpas EIPS yn deillio os ydy gwaith cynnar trwy'r rhaglen Ariannu Hyblyg yn dilyn proses y mae angen i'r awdurdodau lleol fynd trwyddi, ac mae angen y daith i ddatblygu dealltwriaeth ac iaith gyffredin o ran sut gellir ei symud ymlaen.

6.14 Roedd awdurdodau lleol braenaru ac nad ydynt yn rhai braenaru yn glir iawn bod angen rhybudd arnynt cyn newid. Gwnaed newidiadau diweddar ar ddilysu data yn y telerau ac amodau ar gyfer Cefnogi Pobl ym mis Mawrth 2018, a gwelodd rhai awdurdodau fod y rhain yn amhosibl cadw atynt o fewn yr amser sydd ar gael, o gofio hwyrni'r newid. Er mwyn cynllunio a pharatoi'n briodol ar gyfer graddfa'r newid, mae EIPS yn debygol o ddod ag amser arwain i mewn o naw mis o leiaf; mae hyn yn fwy defnyddiol ond byddai 12 mis yn ddelfrydol.

6.15 Byddai pob awdurdod lleol yn croesawu cydweithrediad pellach rhwng arweinwyr grantiau Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, ymddengys bod cysoniad naturiol rhwng gwahanol grantiau cysylltiedig â thai, sy'n ailadrodd cysoniad tebyg ar draws grantiau heb fod yn gysylltiedig â thai (Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Y Gronfa Waddol er enghraifft). Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau lleol wedi llwyddo i gysoni'r ddau faes ac mae angen ymchwiliad pellach i weld sut gallai hyn gael ei ailadrodd ar draws pob awdurdod lleol.

6.16 Gallai gwneuthuriad terfynol y cysoniad grantiau arfaethedig, pe na fyddai Cefnogi Pobl yn cael ei gynnwys ynddo, arwain at effeithiau sylweddol ar swm yr arian sydd ar gael i EIPS yn y dyfodol, gan gyfyngu ar yr opsiynau am hyblygrwydd i'r dyfodol o bosibl. Fodd bynnag, mae yna rai rhanddeiliaid sy'n credu y gallai graddfa'r effaith hon fod yn llai amlwg dan ateb dau grant na'r ateb un grant a gynigiwyd yn wreiddiol.

*Gwersi i Rannu Arfer Da*

6.17 Mae awdurdodau nad ydynt yn rhai braenaru eisiau rhagor o fewnbwn gan awdurdodau Braenaru i'w helpu i ffurfio'u camau nesaf, dysgu o gamgymeriadau, a dynodi ble dylai grantiau sefyll yn y dyfodol. Mae gan awdurdodau lleol ddiddordeb mawr mewn clywed wrth awdurdodau cyfagos ar eu profiadau.

6.18 Croesewir rhannu ymarfer presennol gan awdurdodau Braenaru ac mae pob awdurdod lleol eisiau i Lywodraeth Cymru barhau i ddynodi ffyrdd lle gellir rhannu diweddariadau rheolaidd ar gynnydd ar draws Cymru. Mae angen i hyn ddarparu:

- diweddariad ar yr hyn sy'n digwydd mewn perthynas â gweithredu, maglau a'r gwersi a ddysgwyd
- mewnwelediad i'r hyn sy'n gweithio
- diweddariad ar yr ymarfer a phroses gweithredu a chyflwyno
- sut gallai cyflwyno a gweithredu ymgorffori dimensiynau rhanbarthol mwy penodol, a
- manylion ynghylch yr anawsterau sy'n gysylltiedig â gweithredu a'r gwaith cyflwyno sy'n cael ei brofi a'r atebion a ddynodwyd i fynd i'r afael â nhw.

## 7. Casgliadau

7.1 Mae'r cyfweliadau gydag arweinwyr a rhanddeiliaid allweddol, a dadansoddiad o'r adroddiadau monitro chwarterol trosfwaol cyntaf a chynlluniau cyflwyno ar gyfer y rhaglen Ariannu Hyblyg, yn dangos bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud ar ôl cychwyn y rhaglen (o fis Ebrill 2018 ymlaen).

7.2 Mae'r cynnydd hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar awdurdodau braenaru'n sefydlu adolygiadau o wasanaethau, yn asesu opsiynau llywodraethu a rheoli, ac yn sefydlu fforymau, os nad ydynt ar waith yn barod, lle gall y deg grant sy'n cael eu cwmpasu gan y rhaglen adolygu'r cyflwyniad presennol. Mae hyn yn hwyluso dealltwriaeth o ddulliau eraill ac yn helpu dechrau ar y broses o ddynodi opsiynau ar gyfer cydweithio a'r potensial i integreiddio gwasanaethau. I awdurdodau nad ydynt yn rhai braenaru, roedd y rheidrwydd i sefydlu rhywbeth tebyg yn llawer llai amlwg ond mae rhai eisoes yn gwneud camau breision.

7.3 Ar draws awdurdodau braenaru ac awdurdodau nad ydynt yn rhai braenaru, ymddengys bod cysoniad naturiol rhwng grantiau cysylltiedig â thai a chysoniad ar wahân rhwng grantiau heb fod yn gysylltiedig â thai. Er bod y ffiniau cysoni hyn wedi croesi mewn rhai ardaloedd, ceir cyfleoedd i weld sut gallai'r grwpiau hyn gael eu cysoni'n well.

7.4 Derbynnir yr egwyddorion a fynegwyd ynghylch nodau ac uchelgeisiau rhaglen Ariannu Hyblyg ar raddfa eang a deellir y rhain yn gyffredinol dda. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gynhwysol a thuedda'r rhai sydd bellaf i ffwrdd o ddatblygiadau rhaglen Ariannu Hyblyg i gael y gwerthfawrogiad gwaethaf o nodau ac uchelgeisiau'r rhaglen.

7.5 Yn hytrach, erys ymdeimlad gwaelodol o amheuaeth fod y naratif yr eir ar ei drywydd yn y pen draw gan y newidiadau hyn yn un o leihau cyfanswm y cyllid cyffredinol ar gyfer grwpiau agored i niwed, neu gallai canlyniad anfwriadol cysoni grantiau olygu symud y ffocws cyllid i ffwrdd wrth grwpiau llai 'gwleidyddol boblogaidd'. Cynhaliwyd cyfathrebiadau o nodau ac uchelgeisiau ehangach y rhaglen Ariannu Hyblyg, ond mae angen ei wneud yn gyson ac yn barhaus, er mwyn i'r negeseuon hynny gyrraedd pob lefel o awdurdod lleol sy'n cynnwys haenau lluosog o negeseuon i fodloni'r lledaeniad cyfrifoldebau ar gyfer y rhaglen ar draws amryw haenau mewn awdurdodau lleol.

7.6 Yn ogystal, mae angen i bob darparwr (er enghraifft awdurdod lleol, trydydd sector a'r sector preifat) ar draws grantiau glywed negeseuon allweddol tebyg gan fod y ddealltwriaeth o'r hyn y mae'r grant Ariannu Hyblyg a'r grant EIPS potensial yn ceisio'i gyflawni'n wannach ymhlith y grwpiau hyn.

7.7 Mae cyfathrebu ar bob lefel yn allweddol o ran gweithredu i'r dyfodol. Mae'n amlwg bod rhai aelodau staff a phartneriaethau'n teimlo'n fwy deallus nag eraill a all achosi tyndra cynnar. Gallai datblygu cynllun cyfathrebu cryf sy'n annerch y gynulleidfa ac sy'n cyflwyno negeseuon allweddol, trwy ystod o ddulliau, gefnogi mwy o berchnogaeth a dealltwriaeth o'r rhaglen.

7.8 Nid yw cyd-destun presennol y toriadau mynych i wasanaethau'n darparu amgylchedd iach i greu cymhelliant ac egni ar gyfer rhaglenni newydd, yn enwedig un sydd wedi'i thrwytho yn rhai o'r llwybrau a ariannwyd gan grantiau allweddol ar gyfer awdurdodau lleol. Mae'n gofyn am arweinyddiaeth gref ac ymrwymiad ar bob lefel i wthio'r trawsffurfiad gwasanaethau y mae'r rhaglen Ariannu Hyblyg yn debygol o ofyn amdano. Ond os ydy'r cynhwysion iawn ar waith, gellir cyflawni newid a chanlyniadau cadarnhaol. Felly, mae'n hollbwysig bod y negeseuon gan Lywodraeth Cymru a'r gwaith a yrrwyd ymlaen gan y staff Ariannu Hyblyg mewn awdurdodau lleol yn sicrhau bod yr agenda toriadau a yrrwyd gan gyni'n ymddatod yn glir wrth yr hyn y mae'r rhaglen Ariannu Hyblyg yn ceisio'i chyflawni.

7.9 Mae hyn yn hollbwysig oherwydd mae tystiolaeth o ddeunydd darllen a chanfyddiadau cynnar awdurdodau Braenaru'n awgrymu bod cael gweledigaeth ac ethos clir, a chefnogaeth uwch arweinyddiaeth gref, yn darparu sylfaen gadarn i adeiladu arni. Golyga hyn fod yr agenda'n cael ei ffurfio gan ffocws penodol ar yr hyn y mae ei angen i ail-ddylunio gwasanaethau, yn hytrach nag agenda wedi'i gwanhau gan ffocws dargyfeiriol ar agenda toriadau ehangach wrth i'r cyni barhau.

7.10 Dogfennwyd yr heriau o dystio canlyniadau ac effaith yn dda ac er ei bod hi'n ddyddiau cynnar, mae anghysonderau mewn adrodd eisoes yn dod i'r amlwg, lle mae gwahanol systemau monitro a mesuriadau canlyniadau ar draws gwahanol grantiau'n gwneud adrodd cyson yn heriol. Mae angen i sefydlu fframweithiau clir ar gyfer tystio effaith ac anghenion adrodd fod yn ystyriaeth allweddol. O gofio hyblygrwydd y cyllid, hwyrach y bydd angen dull creadigol sy'n galluogi ar gyfer rhywfaint o amrywiad ond sydd â rhai pethau anhepgor clir a llinellau isaf am adrodd gorfodol. Awgryma canfyddiadau'r cyfweliad fod angen i hyn symud i ffwrdd o'r dull a ficro-reolir o rowndiau ariannu blaenorol, ond ar yr un pryd yn cynnal

craidd canlyniadau cyffredin a all fod yn berthnasol i bob cyflwyniad grant EIPS potensial.

7.11 Ceir nifer fawr o gyfleoedd i roi llais i ddefnyddwyr gwasanaeth o ran y ffordd y darperir y gwasanaethau hynny a bod yn rhan o ddull cyd-gynhyrchu i fesur canlyniadau ochr yn ochr â hyn. Gallai hyn gynnwys sut byddai llwyddiant yn edrych iddynt. Ceir arwyddion cynnar fod dulliau dan arweiniad cwsmeriaid yn cael effaith gadarnhaol a gallai hyn hefyd gefnogi canlyniadau cynaliadwy tymor hwy.

7.12 Oherwydd yr heriau o fesur effaith mewn ymyrraeth gynnar, hwyrach y bydd angen ystyried amserlen hwy ar gyfer effaith wirioneddol fesuradwy. At hynny, bydd cysylltu setiau data gweinyddol, fel a gyflawnwyd trwy fanc data SAIL ym Mhrifysgol Abertawe[22], ac/neu ddatblygu systemau monitro sengl gan awdurdodau lleol, yn hollbwysig i ddatblygiad mesuriad canlyniadau mwy effeithiol. Dim ond dangosyddion procsi yw unrhyw ganlyniadau llwyddiannus a welir yn y tymor byr ar gyfer y canlyniadau a ddymunir yn y tymor hwy. Gallai cytuno fframwaith canlyniadau ar y cyd, neu ddulliau i'w defnyddio, gynnig man cychwyn da ac mae angen gwaith pellach i ddatblygu fframwaith canlyniadau trosfwaol ar gyfer y rhaglen.

7.13 Mae'r gwaith bellach mewn trefn ar draws yr awdurdodau lleol - yn enwedig awdurdodau Braenaru. Mae angen amser ar hyn i ddwyn ffrwyth a bydd pob awdurdod lleol yn cael eu cefnogi os bydd negeseuon cyson sy'n cadarnhau cychwyn yr agenda a hyrwyddir gan y rhaglen Ariannu Hyblyg a'r grant EIPS potensial yn parhau. Bydd sicrwydd yn hyn o beth yn hynod ddefnyddiol i'r awdurdodau hynny sy'n dangos amharodrwydd o ran bod yn gwbl arloesol oherwydd y pryderon y gallai penderfyniadau i'r dyfodol ddangos bod y fath waith yn wastraff.

[22] Ystyr SAIL yw Secure Anonymised Information Linkage. Ariennir Banc Data SAIL gan Lywodraeth Cymru a'i nod yw darparu ystod o ddata unigoledig dienw sy'n tynnu oddi ar ystod o setiau data ar draws Llywodraeth Cymru a chysylltu'r rhain ar lefel unigol i gefnogi creu a chyflwyno polisïau i wella iechyd, llesiant, a gwasanaethau cyhoeddus ehangach. Trwy gysylltu data poblogaeth, iechyd a gofal cymdeithasol, ei fwriad yw darparu ffynhonnell wybodaeth allweddol, gyson er mwyn monitro ac olrhain canlyniadau ar gyfer y rhai sy'n derbyn ystod o wasanaethau'r sector cyhoeddus. Mae setiau data presennol yn cynnwys data a dynnwyd o raglenni Cefnogi Pobl a Dechrau'n Deg, gyda Theuluoedd yn Gyntaf yn destun targedu pellach. Cynigia banc data SAIL gyfleoedd sylweddol i fonitro rhai o ganlyniadau allweddol y rhaglen Ariannu Hyblyg. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion yn: https://saildatabank.com/about-us/overview/

7.14 Yn sgil cyfle wedi'i rwymo gan amser priodol i ymgorffori'r dysgu a'r ymarfer o'r gwaith sefydlu cynnar hwn a gwerthuso'r canlyniadau ohono, mae posibilrwydd yn codi y gallai dulliau seiliedig ar anghenion i gyflwyno cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gael eu gwella trwy bwyntiau mynediad sengl wedi'u hategu gan waith dadansoddi anghenion sengl a chyflwyno cefnogaeth ddi-dor. Cynigia'r llwybr hwn y cyfle gorau i gyflwyno gwelliannau yn y gwasanaeth, dulliau cyflwyno mwy effeithiol ac effeithlon ac unrhyw arbedion a allai gael eu hail-fuddsoddi'n ôl i gyflwyniad EIPS pellach, ond rhaid cyflwyno hyn trwy ddull systemig o droi at newid. Dull gyda ffocws targedig amlwg ar anghenion pobl agored i niwed i'w cefnogi'n well yn y ffordd iawn, amserol, gan wella canlyniadau di-oed a chyfleoedd bywyd tymor hwy.

## 8. Argymhellion

8.1 Mae'r argymhellion isod yn seiliedig ar ein dadansoddiad o ganfyddiadau'r gwerthusiad. Dynodant feysydd allweddol lle mae mewnwelediadau interim yn darparu rhai safbwyntiau defnyddiol i ddylanwadu ar weithrediad parhaus a chyflwyno'r rhaglen Ariannu Hyblyg ac awgrymiadau ar gyfer y camau nesaf ar gyfer y gwaith gwerthuso.

**Y Rhaglen EIPS/Ariannu Hyblyg**

8.2 Mae angen cadarnhad ar awdurdodau lleol a'u staff fod yr agenda sy'n sail i'r grant EIPS potensial yn mynd i barhau am y flwyddyn nesaf o leiaf, er mwyn galluogi ar gyfer yr ystyriaeth lawn o'r camau y mae awdurdodau Braenaru wrthi'n datblygu pan fydd eu hadolygiadau o gyflwyno gwasanaethau'n cloi. Dylai hyn bwysleisio bod Llywodraeth Cymru wrthi'n annog dulliau arloesol o droi at waith adolygu a chyflwyno i'r dyfodol (gweler paragraffau 5.22, 6.10-6.11).

8.3 Lle bo'n bosibl, dylid gwneud penderfyniadau ariannu grantiau'n gynnar ac efallai cynnwys ymrwymiadau ar draws cyfnod ariannu 2-3 blynedd i alluogi awdurdodau i gynllunio cyflawniad dros y tymor canolig o leiaf (gweler paragraffau 6.10 a 6.14).

8.4 Dylai gwerthusiad y rhaglen Ariannu Hyblyg ymgorffori yn ei gyfnod nesaf ymchwiliad i'r opsiwn dau grant ar gyfer y grant EIPS potensial a gynigiwyd gan Cymorth Cymru a'i bartneriaid i ddynodi effeithlonrwydd y dull hwnnw. Gellir cwmpasu hyn mewn cyfweliadau gyda staff awdurdodau lleol, er mwyn dynodi goblygiadau'r dull hwn a'u safbwynt ar ei effeithlonrwydd posibl, yn unol â'u nodau a'u huchelgais ar gyfer cyflwyno'r rhaglen (gweler paragraffau 1.25 – 1.26 a 3.4-3.5).

8.5 Dylai'r Tîm Trosglwyddo Cyllid barhau i ddatblygu rhaglen systematig o ddiweddariadau a gwybodaeth, gan gynnwys sesiynau gan awdurdodau Braenaru sy'n rhoi mewnwelediad manwl i'r dulliau sy'n cael eu mabwysiadu yn eu gwaith o gyflwyno rhaglen Ariannu Hyblyg. Dylai hyn dynnu oddi ar ganfyddiadau'r gwerthusiad, adroddiadau chwarterol, a chynnwys o Gyfarfodydd Braenaru (gweler paragraffau 7.18 ac 8.5) a phwysleisio pwysigrwydd ffocws uwch arweinyddiaeth gref ar weithredu'r rhaglen, yr angen i ddynodi cysylltiadau strategol â'r rhaglen mewn awdurdod, ac y gallai fod angen ar staff cyflwyno'r rheng flaen oruchwyliaeth arbenigol a datblygu gweithlu i wthio'r agenda yn ei blaen (gweler paragraffau 3.34 a 5.15).

8.6 Gallai awdurdodau nad ydynt yn rhai braenaru gael eu gwahodd i ddechrau ymchwilio i opsiynau i symud i hyblygrwydd ariannu llawn a lle bo'n briodol, mabwysiadu statws Braenaru newydd lle awgryma cynnydd cychwynnol bod y statws hynny'n briodol (gweler paragraffau 5.29 a 5.31).

8.7 Dylid darparu negeseuon cyson a pharhaus pellach ynghylch y nodau a'r uchelgeisiau ar gyfer y grant EIPS potensial i sicrhau y derbynnir y ddealltwriaeth o flaenoriaeth y ffocws hwn ar raddfa ehangach. Dylai hyn gynnwys ystyried a allai fod angen gwahanol ffyrdd o ledaenu'r neges hon ar draws awdurdodau lleol (awdurdodau braenaru ac awdurdodau nad ydynt yn rhai braenaru), eu partneriaid a darparwyr, a rhanddeiliaid (gweler paragraffau 5.18 – 5.19, 5.45, 5.49 a 6.18).

**Y Camau Nesaf ar gyfer y Gwerthusiad**

8.8 Bydd ail gyfnod y gwaith yn cychwyn gyda chyfarfod cychwynnol manwl a fydd yn adolygu agendâu polisi sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y rhaglen, canlyniadau o adroddiadau interim ym mis Medi 2018, ac unrhyw benderfyniadau Gweinidogol a fydd yn ffurfio'r gwaith gwerthuso dilynol. Yna, bydd hyn yn rhoi'r cyfle gorau posibl ar gyfer canfyddiadau'r gwerthusiad terfynol i adlewyrchu trosolwg llawnach o weithrediad y rhaglen Ariannu Hyblyg.

8.9 Gallai ffocws y cyfnod gwerthuso terfynol ystyried:

- sut mae awdurdodau braenaru wedi cyflwyno'n benodol yn erbyn eu cynlluniau cyflwyno, a'r ffactorau sydd wedi cyfrannu at lwyddiant a methiant i ddysgu gwersi er mwyn cyflwyno'r rhaglen i'r dyfodol
- effeithlonrwydd yr opsiwn dau grant arfaethedig a'i fanteision ac anfanteision o gymharu â grant EIPS potensial sengl
- asesu sut gallai arbenigeddau priodol ymhlith yr anghenion mwyaf cymhleth gael eu cynnal ymhlith staff, gan fod rhai staff yn symud i rolau mwy cyffredinol o bosibl
- adolygu effeithiau a chanlyniadau cyflwyno'r rhaglen ymhellach, yn enwedig i awdurdodau lleol a'u staff, rhanddeiliaid a sefydliadau partner (strategol a chyflwyno), strwythurau rhanbarthol a PSBs, ac yn benodol ydy defnyddwyr gwasanaeth yn dechrau gweld effeithiau o'r meysydd ail-ddylunio gwasanaethau sy'n dechrau cael eu rhoi ar waith

- gwaith pellach i barhau i ddatblygu fframwaith canlyniadau trosfwaol ar gyfer y rhaglen sy’n gyson â gwaith parhaus Llywodraeth Cymru sy’n asesu canlyniadau ar draws y grantiau presennol
- profi’r Theori Newid a’r Fframweithiau Canlyniadau ar gyfer y rhaglen gydag enghreifftiau go iawn o gyflwyno ar draws awdurdodau braenaru ac awdurdodau nad ydynt yn rhai braenaru.

**Cyfeiriadau**


Amin-Smith, N, Phillips, D, Simpson, P. (2016) '*Council level figures on spending cuts and business rates income.*' IFS Observation, London.

Cameron, A., Macdonald, G., Turner, W. a Lloyd, L. (2007) '*The challenges of joint working: lessons from the Supporting People Health Pilot evaluation*'. International Journal of Integrated Care, 2007, Hydref-Rhagfyr 7 (4).

Campbell et al (2008). '*The experience of pay for performance in English family practice: a qualitative study'*. Ann Fam Med, 6:228-34.

Chowdry, H ac Oppenheim, C. (2015) '*Spending on Late Intervention. How can we do better for less*'. Early Intervention Foundation, London.

Connell, A. Martin, S a St Denny, E. (2016) '*Reshaping Homelessness Policy in Wales*', Conference Paper.

Y Cynghorydd R Lewis, (2018) '*Cabinet i ystyried rhaglen Hwb Gymunedol tair blynedd*', Datganiad i'r Wasg Cyngor Bwrdeistref Sirol RhCT.

DCLG (2013a) '*Neighbourhood Community Budget Programme: Research, learning, evaluation and lessons*', DCLG, London.

DCLG (2013b) '*A guide to the local government finance settlement in England*', DCLG, London.

Department for Education (2010) '*Turning around the lives of families with multiple problems.*' York Consulting.

Department for Education (2017) '*Creating Strong Communities in North East Lincolnshire*', York Consulting Ltd.

Devine, L. (2017) '*Rethinking Child Protection Strategy*' Presentation to the 7th World Congress on Family Law and Children's Rights, Dublin'.

Drummond McFarlane (2012) '*Services shared: costs spared? An analysis of the financial and non-financial benefits of local authority shared services*', LGA, London.

Early Intervention Foundation (2014) '*Early Intervention 'Maturity Matrix' - A Place's Early Intervention Journey*' EIF, London.

Hood, C. a Margetts, H. (2007) '*The Tools of Government in the Digital Age*' Macmillan, London (2il Argraffiad).

House of Commons, UK Parliament (2016) '*Children's Centres: Closures: Written Parliamentary question – 55895*', 1st December 2016'.

Materion Tai Cymru (2018) '*Diogelu dyfodol gwasanaethau cymorth ym meysydd digartrefedd a thai yng Nghymru*'.

Hoyle, E. a Wallace, M. (2005) '*Educational Leadership: Ambiguity, Professionals and Managerialism*'. London: SAGE Publications.

Ipsos MORI, a Wavehill Consulting (2015) '*Cymunedau yn Gyntaf: Gwerthusiad o'r Broses*, Llywodraeth Cymru, Caerdydd.

Klietz, S., Borduin, C., Schaeffer, C. (2010), '*Cost–benefit analysis of multisystemic therapy with serious and violent juvenile offenders'*, Journal of Family Psychology, Vol. 24, No. 5, pp. 657–666.

Maisey et al (2008). '*Effects of payment for performance in primary care: qualitative interview study*'. J Health Serv Res Policy, 13:133-9.

Ministry of Housing, Communities and Local Government (March 2018) ‘*Troubled Families Annual Report*’ MHCLG, London.

Murray, J. a Farrington, D.P. 2010) ‘*Risk Factors for Conduct Disorder and Delinquency: Key Findings from Longitudinal Studies*’. Can J Psychiatry. 2010;55(10):633–642

National Audit Office (2013) ‘*Integration Across Governments*’.

National Audit Office (2016) ‘*Financial sustainability of local authorities: capital expenditure and resourcing*’ London.

Office for Public Management (2003) ‘*Integrating Children’s Services: issues and practice*’.

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015) ‘*Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod a’u Cysylltiad â Lles Meddwl ymysg Poblogaeth Oedolion Cymru*’ Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Public Policy Institute for Wales (2015) ‘*Quantifying the benefits of early intervention in Wales: A feasibility study*’.

Sebba, J., Luke, N., McNeish, D. and Rees, A. (2017) ‘*Children’s Social Care Innovation Programme*’, Department for Education, London.

Secker J, Hill K. (2001) ‘*Broadening the partnerships: experiences of working across community agencies*’, Journal of Inter-professional Care. 2001 Nov;15(4):341–50.

Solace a Civca (2016) ‘*Invigorating the Public Sector Revolution*’ London.

Sutton et al (2012). *‘Reduced Mortality with Hospital Pay for Performance in England’*. New England Journal of Medicine, 367:1821-8.

Tickle, L. (2018) '*Care for our children is in crisis. We must give their families more help*'. The Guardian 21 Mehefin 2018.

Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (2017) '*A delicate balance? Health and Social Care Spending in Wales*' Cardiff University, Cardiff.

Llywodraeth Cymru (2015) '*Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2016 –2017*' Rhagfyr 2015.

Llywodraeth Cymru (2017) '*Press Notice accompanying release of the Outline 2018/19 Budget, 3 Hydref 2017*, Caerdydd.

Llywodraeth Cymru (2017) – '*Draft Budget 2018-19 Detailed Proposals'*, Llywodraeth Cymru, Caerdydd.

Llywodraeth Cymru (2018a) '*Taflen Wybodaeth Ariannu Hyblyg'* Mawrth 2018, Caerdydd.

Llywodraeth Cymru (2018b) 'Rhaglen Cyllido Hyblyg, Llywodraeth Cymru, Caerdydd.

Llywodraeth Cymru (2018c) 'Specification for: Evaluation of the Flexible Funding Project', Llywodraeth Cymru, Caerdydd.

CLILC (2018) '*Cyllid Teg a Chynaliadwy ar gyfer Gwasanaethau Lleol Hanfodol* Awst 2018.

York Consulting Ltd. (2017) '*Creating Strong Communities in North East Lincolnshire'*, Department of Education.

# Atodiad A - Atodlenni Cwestiynau Cyfweliad Cwmpasu

## Gwerthuso'r Rhaglen Ariannu Hyblyg

Canllawiau trafod a chefndir ar gyfer cynnal cyfweliadau gydag:
(a) Arweinwyr Cynllun Ariannu Hyblyg - Awdurdodau Lleol (Pob un)

### Cwestiynau / pwyntiau trafod

1. Enw'r unigolyn sy'n cael ei gyfweld:

2. Awdurdod Lleol?

| | |
|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful **(Braenaru)** |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr **(Braenaru)** | Cyngor Sir Fynwy |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Cyngor Caerdydd **(Braenaru)** | Cyngor Dinas Casnewydd **(Braenaru)** |
| Cyngor Sir Gâr | Cyngor Sir Penfro |
| Cyngor Sir Ceredigion | Cyngor Sir Powys |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy **(Braenaru)** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf **(Braenaru)** |
| Cyngor Sir Ddinbych | Dinas a Sir Abertawe |
| Cyngor Sir y Fflint | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen **(Braenaru)** |
| Cyngor Gwynedd | Cyngor Bro Morgannwg |
| Cyngor Sir Ynys Môn | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

| | |
|---|---|
| Braenaru | Eraill |

3. Beth yw teitl eich swydd?
   (a) Rhowch drosolwg o'ch rôl a sut mae'n berthnasol i'r rhaglen Ariannu Hyblyg?

**Deall y Prosiect Ariannu Hyblyg**

4. Beth yw eich dealltwriaeth o brif amcan(ion) y rhaglen Ariannu Hyblyg?

5. Beth yw amcanion y rhaglen Ariannu Hyblyg yn ardal eich awdurdod lleol?

6. Beth yw uchelgais benodol Ariannu Hyblyg yn ardal eich awdurdod lleol?

7. Sut mae eich awdurdod lleol yn defnyddio Ariannu Hyblyg i gwrdd â'r canlynol:
   (a) Yr amcanion ar gyfer ei ddarparu?
   (b) Yr uchelgais ar gyfer ei ddarparu?

8. Beth sy'n eich cymell i weithredu Ariannu Hyblyg yn y modd hwn yn ardal eich awdurdod lleol?

9. Pam?

**Gweithredu Prosiectau a Llywodraethiant**

10. Pa ddulliau ar gyfer gweithredu'r prosiect Ariannu Hyblyg y mae eich awdurdod lleol yn eu hystyried?

11. A oedd rhai o'r dulliau hyn yn bodoli cyn darparu'r prosiect Ariannu Hyblyg?

12. Pa ddulliau sydd wedi cael eu cynllunio o ganlyniad i weithredu'r prosiect Ariannu Hyblyg?

13. Pa ddulliau ar gyfer gweithredu'r prosiect Ariannu Hyblyg sydd eisoes ar waith yn ardal eich awdurdod lleol?

14. Pa ddatblygiadau sydd wedi digwydd wrth ddarparu'r prosiect?

15. A yw'r gweithrediad wedi effeithio ar unrhyw grantiau penodol, neu grantiau rydych chi'n ymwybodol ohonynt?

16. Beth yw heriau/ rhwystrau mwyaf sylweddol y broses weithredu yn ardal eich awdurdod lleol hyd yn hyn?

17. Sut mae'r awdurdod lleol yn mynd i'r afael â'r heriau/rhwystrau hyn?

18. Pa newidiadau sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r prosiect Ariannu Hyblyg yn ardal eich awdurdod lleol?

19. Pa rôl y mae eich Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol yn ei chwarae yng ngweithrediad y prosiect?

20. Hyd yn hyn, ydych chi'n meddwl fod angen newid y modd y caiff y rhaglen Ariannu Hyblyg ei weithredu yn ardal eich awdurdod lleol?

21. Pam hynny?

22. Ar ddechrau eich prosiect Ariannu hyblyg, pa rai o'r grantiau canlynol sydd yn/wedi gweithio ar y cyd i ddarparu cefnogaeth a gwasanaethau i ddefnyddwyr?

| | Cefnogi Pobl | Dechrau'n Deg | Teuluoedd yn Gyntaf | Y Gronfa Waddol | Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol ymhlith Pobl Ifanc | Gofal Plant a Chwarae (Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol gynt) | Atal Digartrefedd | Gorfodi Rhentu Doeth Cymru (Byw'n Annibynnol gynt) | Cronfa Dydd Gŵyl Dewi | Cymunedau am Waith a Mwy (y Grant Cyflogadwyedd gynt) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cefnogi Pobl | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Dechrau'n Deg | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Teuluoedd yn Gyntaf | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Y Gronfa Waddol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol ymhlith Pobl Ifanc | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gofal Plant a Chwarae (Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol gynt) | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Atal Digartrefedd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gorfodi Rhentu Doeth Cymru (Byw'n Annibynnol gynt) | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cronfa Dydd Gŵyl Dewi | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cymunedau am Waith a Mwy (y Grant Cyflogadwyedd gynt) | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

**Monitro**

23. Pa mor effeithiol yw'r dulliau monitro ac adrodd ariannol ar gyfer casglu canlyniadau allweddol y rhaglen Ariannu Hyblyg
    (a) O ran gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer casglu data
    (b) Yr offer sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd?
    (c) Yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cwblhau

24. Ym mha ffyrdd rydych chi'n meddwl y gellid gwella/adolygu'r dulliau monitro ac adrodd ariannol presennol?
    (a) O ran gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer casglu data
    (b) Yr offer sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd?
    (c) Yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cwblhau

25. A oes enghreifftiau o ddulliau rydych chi o'r farn y gellid eu defnyddio yma?

**Canlyniadau - Tymor Byr, Tymor Canolig, Tymor Hir**

26. Yn ardal eich awdurdod lleol, beth yw'r canlyniadau mwyaf arwyddocaol y mae'r rhaglen Ariannu Hyblyg wedi'u cyflawni hyd yn hyn, os o gwbl?

    (a) Cynllunio strategol o fewn y sefydliad
    (b) Unrhyw newidiadau i ddulliau Dadansoddi Anghenion
    (c) Enghreifftiau o Ddefnyddio Cyllid mewn modd Hyblyg
    (d) Arloesedd mewn Cyflenwi Gwasanaethau / Cynllun Peilot Cyflenwi Gwasanaethau
    (e) Canlyniadau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Defnyddwyr y Gwasanaethau
    (f) Rhesymoli Gwasanaethau / Effeithlonrwydd Cyflenwi
    (g) Comisiynu/Dad-gomisiynu gwasanaethau
    (h) Llywodraethiant Prosiect gan gynnwys sut fydd y rhaglen yn cael ei goruchwylio a'i rheoli
    (i) Newidiadau i'r ffordd mae fy sefydliad yn gweithio
    (j) Dulliau cyflenwi rhanbarthol ac isranbarthol
    (k) Mwy o weithio cydgysylltiedig
    (l) Cwestiwn: [Unrhyw feysydd eraill?]

27. Ers rhoi'r prosiect Ariannu Hyblyg ar waith, pa grantiau sydd bellach yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth i gleientiaid, neu sydd â chynlluniau i gydweithio?

| | Cefnogi Pobl | Dechrau'n Deg | Teuluoedd yn Gyntaf | Y Gronfa Waddol | Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol ymhlith Pobl Ifanc | Gofal Plant a Chwarae (Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol gynt) | Atal Digartrefedd | Gorfodi Rhentu Doeth Cymru (Byw'n Annibynnol gynt) | Cronfa Dydd Gŵyl Dewi | Cymunedau am Waith a Mwy (y Grant Cyflogadwyedd gynt) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cefnogi Pobl | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Dechrau'n Deg | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Teuluoedd yn Gyntaf | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Y Gronfa Waddol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol ymhlith Pobl Ifanc | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gofal Plant a Chwarae (Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol gynt) | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Atal Digartrefedd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gorfodi Rhentu Doeth Cymru (Byw'n Annibynnol gynt) | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cronfa Dydd Gŵyl Dewi | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cymunedau am Waith a Mwy (y Grant Cyflogadwyedd gynt) | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

28. O ystyried eich profiad hyd yn hyn, beth fydd y rhaglen Ariannu Hyblyg wedi'i gyflawni yn ardal eich awdurdod lleol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon (h.y. diwedd mis Mawrth 2019) yn eich barn chi?

    (a) Cynllunio strategol o fewn y sefydliad
    (b) Unrhyw newidiadau i ddulliau Dadansoddi Anghenion
    (c) Enghreifftiau o Ddefnyddio Cyllid mewn modd Hyblyg
    (d) Arloesedd mewn Cyflenwi Gwasanaeth / Cynllun Peilot Cyflenwi Gwasanaeth
    (e) Canlyniadau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Defnyddwyr y Gwasanaethau
    (f) Rhesymoli Gwasanaethau / Effeithlonrwydd Cyflenwi
    (g) Comisiynu/Dad-gomisiynu gwasanaethau
    (h) Llywodraethu Prosiect gan gynnwys sut fydd y rhaglen yn cael ei goruchwylio a'i rheoli
    (i) Newidiadau i'r ffordd mae fy sefydliad yn gweithio
    (j) Dulliau cyflenwi rhanbarthol ac isranbarthol
    (k) Mwy o weithio cydgysylltiedig
    (l) Unrhyw syniadau eraill?

29. Yn eich barn chi, beth yw'r prif ffactorau fydd yn cymell y llwyddiannau hyn?

30. Beth yw'r prif rwystrau tebygol ar gyfer unrhyw lwyddiant hyd at fis Mawrth 2019?

31. Yn eich barn chi, beth allai'r rhaglen Ariannu Hyblyg ei gyflawni o fewn ardal eich awdurdod lleol ar ôl mis Mawrth 2019?

    (a) Enghreifftiau o Ddefnydd o Ariannu Hyblyg
    (b) Arloesedd mewn Cyflenwi Gwasanaeth / Cynllun Peilot Cyflenwi Gwasanaeth
    (c) Canlyniadau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Defnyddwyr y Gwasanaethau
    (d) Rhesymoli Gwasanaethau / Effeithlonrwydd Cyflenwi
    (e) Comisiynu/Dad-gomisiynu gwasanaethau
    (f) Llywodraethu Prosiect gan gynnwys sut fydd y rhaglen yn cael ei goruchwylio a'i rheoli
    (g) Newidiadau i'r ffordd mae fy sefydliad yn gweithio
    (h) Dulliau cyflenwi rhanbarthol ac isranbarthol
    (i) Mwy o weithio cydgysylltiedig
    (j) Unrhyw syniadau eraill?

32. Yn eich barn chi, beth fydd y prif ffactorau ar gyfer cymell y llwyddiannau hyn?

33. Beth yw'r prif rwystrau tebygol ar gyfer unrhyw lwyddiant ar ôl mis Mawrth 2019?

**Datblygu Mesuriadau o Ddeilliannau**

34. Pa elfennau allweddol y dylwn eu mesur er mwyn dangos effaith y rhaglen Ariannu Hyblyg ar ardal eich awdurdod lleol?

**Gwersi Allweddol a Ddysgwyd**

35. Pa agweddau o’r rhaglen Ariannu Hyblyg sydd:
    (a) Wedi gweithio’n dda hyd yn hyn?
    (b) Heb weithio cystal hyd yn hyn?

36. Yn seiliedig ar eich profiad chi, pa feysydd fyddech chi’n ei ddweud sy’n hanfodol ar gyfer darpariaeth’r rhaglen Ariannu Hyblyg yn llwyddiannus at y dyfodol?

37. Yn seiliedig ar y cwestiynau rydych chi wedi eu hateb i ni heddiw, oes yna rywun arall yn eich awdurdod lleol y dylwn ni siarad gyda nhw am y prosiect Ariannu Hyblyg, yn enwedig arweinwyr grantiau penodol?

| |
|---|
| Enw a Theitl Swydd:<br><br>E-bost:<br><br>Rhif Ffôn: |

38. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am y prosiect Ariannu Hyblyg?

# Gwerthuso'r Rhaglen Ariannu Hyblyg

Canllawiau trafod a chefndir ar gyfer cynnal cyfweliad gydag:
(a) Arweinwyr Grant - Awdurdodau Lleol (pob un)

## Cwestiynau / pwyntiau trafod

1. Enw'r unigolyn sy'n cael ei gyfweld:

2. Awdurdod Lleol?

| | |
|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful **(Braenaru)** |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr **(Braenaru)** | Cyngor Sir Fynwy |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Cyngor Caerdydd **(Braenaru)** | Cyngor Dinas Casnewydd **(Braenaru)** |
| Cyngor Sir Gâr | Cyngor Sir Penfro |
| Cyngor Sir Ceredigion | Cyngor Sir Powys |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy **(Braenaru)** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf **(Braenaru)** |
| Cyngor Sir Ddinbych | Dinas a Sir Abertawe |
| Cyngor Sir y Fflint | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen **(Braenaru)** |
| Cyngor Gwynedd | Cyngor Bro Morgannwg |
| Cyngor Sir Ynys Môn | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

| | |
|---|---|
| Braenaru | Eraill |

3. Pa rai o’r grantiau canlynol ydych chi’n gyfrifol amdanynt yn eich prif rôl? (ticiwch bob un sy’n berthnasol)

| **Grant** | **Yn gyfrifol amdano** |
|---|---|
| Cefnogi Pobl | |
| Dechrau’n Deg | |
| Teuluoedd yn Gyntaf | |
| Y Gronfa Waddol | |
| Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol ymhlith Pobl Ifanc | |
| Gofal Plant a Chwarae (Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol gynt) | |
| Atal Digartrefedd | |
| Gorfodi Rhentu Doeth Cymru (Byw’n Annibynnol gynt) | |
| Cronfa Dydd Gŵyl Dewi | |
| Cymunedau am Waith a Mwy (y Grant Cyflogadwyedd gynt) | |

4. Beth yw teitl eich swydd?
   (a) Rhowch drosolwg o’ch rôl a sut mae’n berthnasol i’r rhaglen Ariannu Hyblyg?

**Deall y Prosiect Ariannu Hyblyg**

5. Beth yw eich dealltwriaeth o brif amcan(ion) y rhaglen Ariannu Hyblyg?

6. Beth yw amcanion y rhaglen Ariannu Hyblyg yn ardal eich awdurdod lleol?

7. Beth yw uchelgais benodol Ariannu Hyblyg yn ardal eich awdurdod lleol?

8. Sut mae eich awdurdod lleol yn defnyddio Ariannu Hyblyg i gwrdd â’r canlynol:
   (a) Yr amcanion ar gyfer ei ddarparu?
   (b) Yr uchelgais ar gyfer ei ddarparu?

9. Beth sy’n eich cymell i weithredu Ariannu Hyblyg yn y modd hwn yn ardal eich awdurdod lleol?

10. Pam?

**Gweithredu a Llywodraethu'r Prosiect - Ariannu Hyblyg a'i effaith ar grantiau**

Gan ystyried y grant/grantiau rydych yn gyfrifol amdano/amdanynt:

11. Pa ddulliau ar gyfer gweithredu'r prosiect Ariannu Hyblyg y mae eich awdurdod lleol yn eu hystyried?

12. A oedd rhai o'r dulliau hyn yn bodoli cyn gweithredu'r prosiect Ariannu Hyblyg?

13. Pa ddulliau sydd wedi cael eu cynllunio o ganlyniad i weithredu'r prosiect Ariannu Hyblyg?

14. Pa ddulliau ar gyfer gweithredu'r prosiect Ariannu Hyblyg sydd eisoes ar waith yn ardal eich awdurdod lleol?

15. Pa ddatblygiadau sydd wedi digwydd wrth weithredu'r prosiect?

16. Ydych chi'n meddwl fod y rhain wedi cael effaith gwahanol, neu wedi achosi canlyniadau gwahanol, ar y grant/grantiau rydych chi'n gyfrifol amdanynt o'u cymharu ag unrhyw grantiau eraill?

17. Beth yw heriau/ rhwystrau mwyaf sylweddol y broses weithredu yn ardal eich awdurdod lleol hyd yn hyn?

18. Sut mae'r awdurdod lleol yn mynd i'r afael â'r heriau/rhwystrau hyn?

19. Pa newidiadau sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r prosiect Ariannu Hyblyg yn ardal eich awdurdod lleol?

20. Pa rôl y mae eich Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol yn ei chwarae yng ngweithrediad y prosiect?

21. Hyd yn hyn, ydych chi'n meddwl fod angen newid darpariaeth Ariannu Hyblyg yn ardal eich awdurdod lleol?

22. Pam hynny?

23. Ar ddechrau eich prosiect Ariannu hyblyg, pa rai o'r grantiau canlynol sydd yn/wedi gweithio ar y cyd i ddarparu cefnogaeth a gwasanaethau i ddefnyddwyr?

| | **Grantiau rydych wedi gweithio gyda nhw** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Grant rydych yn gyfrifol amdano** | Cefnogi Pobl | Dechrau'n Deg | Teuluoedd yn Gyntaf | Y Gronfa Waddol | Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol ymhlith Pobl Ifanc | Gofal Plant a Chwarae (Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol gynt) | Atal Digartrefedd | Gorfodi Rhentu Doeth Cymru (Byw'n Annibynnol gynt) | Cronfa Dydd Gŵyl Dewi | Cymunedau am Waith a Mwy (y Grant Cyflogadwyedd gynt) |
| Cefnogi Pobl | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Dechrau'n Deg | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Teuluoedd yn Gyntaf | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Y Gronfa Waddol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol ymhlith Pobl Ifanc | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gofal Plant a Chwarae (Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol gynt) | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Atal Digartrefedd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gorfodi Rhentu Doeth Cymru (Byw'n Annibynnol gynt) | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cronfa Dydd Gŵyl Dewi | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cymunedau am Waith a Mwy (y Grant Cyflogadwyedd gynt) | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

**Monitro**

24. Pa mor effeithiol yw'r dulliau monitro ac adrodd ariannol ar gyfer casglu canlyniadau allweddol y rhaglen Ariannu Hyblyg
    (a) O ran gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer casglu data
    (b) Yr offer sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd?
    (c) Yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cwblhau

25. Ym mha ffyrdd rydych chi'n meddwl y gellid gwella/adolygu'r dulliau monitro ac adrodd ariannol presennol?
    (a) O ran gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer casglu data
    (b) Yr offer sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd?
    (c) Yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cwblhau

26. Oes yna enghreifftiau o ddulliau rydych chi o'r farn y gellid eu defnyddio yma?

**Canlyniadau - Tymor Byr, Tymor Canolig, Tymor Hir**

27. Yn ardal eich awdurdod lleol, beth yw'r canlyniadau mwyaf arwyddocaol y mae'r rhaglen Ariannu Hyblyg wedi'u cyflawni ar gyfer y grantiau rydych chi'n gyfrifol amdanynt hyd yn hyn, os o gwbl?

    (a) Cynllunio strategol o fewn y sefydliad
    (b) Unrhyw newidiadau i ddulliau Dadansoddi Anghenion
    (c) Enghreifftiau o Ddefnyddio Cyllid mewn modd Hyblyg
    (d) Arloesedd mewn Cyflenwi Gwasanaeth / Cynllun Peilot Cyflenwi Gwasanaeth
    (e) Canlyniadau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Defnyddwyr y Gwasanaethau
    (f) Rhesymoli Gwasanaethau / Effeithlonrwydd Cyflenwi
    (g) Comisiynu/Dad-gomisiynu gwasanaethau
    (h) Llywodraethu Prosiect gan gynnwys sut fydd y rhaglen yn cael ei oruchwylio a'i reoli
    (i) Newidiadau i'r ffordd mae fy sefydliad yn gweithio
    (j) Dulliau cyflenwi rhanbarthol ac isranbarthol
    (k) Mwy o weithio cydgysylltiedig
    (l) Unrhyw syniadau eraill?

28. Ers rhoi'r rhaglen Ariannu Hyblyg ar waith, pa rai o'r grantiau rydych yn gyfrifol amdanynt sydd bellach yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth i gleientiaid, neu sydd â chynlluniau i gydweithio?

| **Grant rydych yn gyfrifol amdano** | **Grantiau rydych wedi gweithio gyda nhw** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cefnogi Pobl | Dechrau'n Deg | Teuluoedd yn Gyntaf | Y Gronfa Waddol | Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol ymhlith Pobl Ifanc | Gofal Plant a Chwarae (Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol gynt) | Atal Digartrefedd | Gorfodi Rhentu Doeth Cymru (Byw'n Annibynnol gynt) | Cronfa Dydd Gŵyl Dewi | Cymunedau am Waith a Mwy (y Grant Cyflogadwyedd gynt) |
| Cefnogi Pobl | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Dechrau'n Deg | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Teuluoedd yn Gyntaf | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Y Gronfa Waddol | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol ymhlith Pobl Ifanc | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gofal Plant a Chwarae (Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol gynt) | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Atal Digartrefedd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gorfodi Rhentu Doeth Cymru (Byw'n Annibynnol gynt) | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cronfa Dydd Gŵyl Dewi | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Cymunedau am Waith a Mwy (y Grant Cyflogadwyedd gynt) | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

29. O ystyried eich profiad hyd yn hyn, beth fydd y rhaglen Ariannu Hyblyg wedi'i gyflawni yn ardal eich awdurdod lleol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon (h.y. diwedd mis Mawrth 2019) yn eich barn chi ar gyfer yn grant(iau) rydych chi'n gyfrifol amdano/amdanynt?
    (a) Cynllunio strategol o fewn y sefydliad
    (b) Unrhyw newidiadau i ddulliau o Ariannu Hyblyg
    (c) Arloesedd mewn Cyflenwi Gwasanaeth / Cynllun Peilot Cyflenwi Gwasanaeth
    (d) Canlyniadau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Defnyddwyr y Gwasanaethau
    (e) Rhesymoli Gwasanaethau / Effeithlonrwydd Cyflenwi
    (f) Comisiynu/Dad-gomisiynu gwasanaethau
    (g) Llywodraethu Prosiect gan gynnwys sut fydd y rhaglen yn cael ei oruchwylio a'i reoli
    (h) Newidiadau i'r ffordd mae fy sefydliad yn gweithio
    (i) Dulliau cyflenwi rhanbarthol ac isranbarthol
    (j) Mwy o weithio cydgysylltiedig
    (k) Unrhyw syniadau eraill?

30. Yn eich barn chi, beth fydd y prif ffactorau ar gyfer cymell y llwyddiannau hyn?

31. Beth yw'r prif rwystrau tebygol ar gyfer unrhyw lwyddiant hyd at fis Mawrth 2019?

32. Yn eich barn chi, beth allai'r rhaglen Ariannu Hyblyg ei gyflawni o fewn ardal eich awdurdod lleol ar ôl mis Mawrth 2019 ar gyfer y grant/grantiau rydych yn gyfrifol amdano/amdanynt?
    (a) Cynllunio strategol o fewn y sefydliad
    (b) Unrhyw newidiadau i ddulliau Dadansoddi Anghenion
    (c) Enghreifftiau o Ddefnyddio Cyllid mewn modd Hyblyg
    (d) Arloesedd mewn Cyflenwi Gwasanaeth / Cynllun Peilot Cyflenwi Gwasanaeth
    (e) Canlyniadau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Defnyddwyr y Gwasanaethau
    (f) Rhesymoli Gwasanaethau / Effeithlonrwydd Cyflenwi
    (g) Comisiynu/Dad-gomisiynu gwasanaethau
    (h) Llywodraethu Prosiect gan gynnwys sut fydd y rhaglen yn cael ei oruchwylio a'i reoli
    (i) Newidiadau i'r ffordd mae fy sefydliad yn gweithio
    (j) Dulliau cyflenwi rhanbarthol ac isranbarthol
    (k) Mwy o weithio cydgysylltiedig
    (l) Unrhyw syniadau eraill?

33. Yn eich barn chi, beth fydd y prif ffactorau ar gyfer cymell y llwyddiannau hyn?

34. Beth yw'r prif rwystrau tebygol ar gyfer unrhyw lwyddiant ar ôl mis Mawrth 2019?

**Datblygu Dulliau i Fesur Canlyniadau**

35. Pa elfennau allweddol ddylwn ni eu mesur er mwyn dangos effaith y rhaglen Ariannu Hyblyg ar ardal eich awdurdod lleol?

**Gwersi Allweddol a Ddysgwyd**

36. Pa agweddau o'r rhaglen Ariannu Hyblyg sydd:
    (a) Wedi gweithio'n dda hyd yn hyn?
    (b) Heb weithio cystal hyd yn hyn?

37. Yn seiliedig ar eich profiad chi, pa feysydd fyddech chi'n ei ddweud sy'n hanfodol ar gyfer darparu'r rhaglen Ariannu Hyblyg yn lwyddiannus at y dyfodol?

38. Beth yw'r cyfrwng gorau ar gyfer rhannu'r gwersi hyn?

39. Yn seiliedig ar y cwestiynau rydych chi wedi eu hateb i ni heddiw, oes yna rywun arall yn eich awdurdod lleol y dylwn ni siarad gyda nhw am y rhaglen Ariannu Hyblyg, yn benodol mewn perthynas â'r grantiau o fewn y prosiect?

| |
|---|
| Enw a Theitl Swydd: |
| E-bost: |
| Rhif Ffôn: |

40. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am y rhaglen Ariannu Hyblyg?

# Gwerthuso'r Rhaglen Ariannu Hyblyg

Canllawiau trafod a chefndir ar gyfer cynnal cyfweliad gydag:
(a) Arweinwyr Grant - Llywodraeth Cymru (pob un)

## Cwestiynau / pwyntiau trafod

1. Enw'r unigolyn sy'n cael ei gyfweld:

**Eich Cyfrifoldebau**

2. Pa rai o'r grantiau canlynol rydych chi'n gyfrifol amdanynt yn eich prif rôl? **(ticiwch bob un sy'n berthnasol)**
3.

| Grant | Yn gyfrifol amdano |
|---|---|
| Cefnogi Pobl | |
| Dechrau'n Deg | |
| Teuluoedd yn Gyntaf | |
| Y Gronfa Waddol | |
| Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol ymhlith Pobl Ifanc | |
| Gofal Plant a Chwarae (Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol gynt) | |
| Atal Digartrefedd | |
| Gorfodi Rhentu Doeth Cymru (Byw'n Annibynnol gynt) | |
| Cronfa Dydd Gŵyl Dewi | |
| Cymunedau am Waith a Mwy (y Grant Cyflogadwyedd gynt) | |

4. Beth yw teitl eich swydd?
   (a) Rhowch drosolwg o'ch rôl a sut mae'n berthnasol i'r rhaglen Ariannu Hyblyg?

**Deall y Prosiect Ariannu Hyblyg**

5. Beth yw eich dealltwriaeth o brif amcan(ion) y rhaglen Ariannu Hyblyg?

6. Beth yw eich uchelgais benodol chi ar gyfer y rhaglen Ariannu Hyblyg:
   (a) Yn gyffredinol
   (b) Mewn perthynas â'r grantiau rydych yn gyfrifol amdanynt?

**Gweithredu Prosiectau a Llywodraethiant**

7. Mewn perthynas â'r grant(iau) rydych yn gyfrifol amdano/amdanynt, ydych chi o'r farn y bydd Ariannu Hyblyg yn gweithio/yn effeithiol wrth gyflawni ei:
   (a) Amcanion
   (b) Uchelgais

8. Oes yna bryderon ynglŷn â darparu Ariannu Hyblyg:
   (a) Gennych chi?
   (b) Rydych chi'n ymwybodol ohonynt?

9. A allwch chi ddisgrifio'n fras rhywfaint o'r broses y mae llywodraethau lleol wedi eu cwblhau i ddarparu'r rhaglen Ariannu Hyblyg a pha oblygiadau sydd gan hyn ar y grantiau rydych yn gyfrifol amdanynt os o gwbl?

10. A oedd rhai o'r dulliau hyn yn bodoli cyn gweithredu'r prosiect Ariannu Hyblyg?

11. Pa ddulliau sydd wedi cael eu cynllunio o ganlyniad i weithredu'r prosiect Ariannu Hyblyg?

12. Beth yw'r prif newidiadau yn y grant(iau) rydych yn gyfrifol amdano/amdanynt sydd wedi digwydd o ganlyniad i Ariannu Hyblyg?

13. Pa rôl/rolau mae'r Byrddau Gwasanaethau Lleol yn eu chwarae wrth weithredu'r rhaglen Ariannu Hyblyg mewn perthynas â'r grantiau rydych yn gyfrifol amdanynt?

14. Beth yw'r heriau/rhwystrau mwyaf sylweddol hyd yn hyn i'r grantiau rydych yn gyfrifol amdanynt yn ystod y broses o weithredu'r rhaglen Ariannu Hyblyg?

15. Sut mae'r awdurdod lleol yn mynd i'r afael â'r heriau/rhwystrau hyn?

16. Hyd yn hyn, ydych chi'n meddwl fod angen newid y modd y caiff y rhaglen Ariannu Hyblyg ei weithredu mewn perthynas â'r grant(iau) rydych yn gyfrifol amdano/amdanynt?

17. Pam hynny?

**Monitro**

18. Pa mor effeithiol yw'r dulliau monitro ac adrodd ariannol ar gyfer casglu canlyniadau allweddol y rhaglen Ariannu Hyblyg
    (a) Yr offer sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd?
    (b) Yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cwblhau

19. Ym mha ffyrdd rydych chi'n meddwl y gellid gwella/adolygu'r dulliau monitro ac adrodd ariannol presennol?
    (a) Yr offer sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd?
    (b) Yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cwblhau

**Canlyniadau - Tymor Byr, Tymor Canolig, Tymor Hir**

20. Beth yw'r canlyniadau mwyaf arwyddocaol y mae'r rhaglen Ariannu Hyblyg wedi'u cyflawni ar gyfer y grantiau rydych chi'n gyfrifol amdanynt hyd yn hyn, os o gwbl?

    (a) Cynllunio strategol o fewn y sefydliad
    (b) Unrhyw newidiadau i ddulliau Dadansoddi Anghenion
    (c) Enghreifftiau o Ddefnyddio Cyllid mewn modd Hyblyg
    (d) Arloesedd mewn Cyflenwi Gwasanaeth / Cynllun Peilot Cyflenwi Gwasanaeth
    (e) Canlyniadau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Defnyddwyr y Gwasanaethau
    (f) Rhesymoli Gwasanaethau / Effeithlonrwydd Cyflenwi
    (g) Comisiynu/Dad-gomisiynu gwasanaethau
    (h) Llywodraethu Prosiect gan gynnwys sut fydd y rhaglen yn cael ei goruchwylio a'i rheoli
    (i) Newidiadau i'r ffordd mae fy sefydliad yn gweithio
    (j) Dulliau cyflenwi rhanbarthol ac isranbarthol
    (k) Mwy o weithio cydgysylltiedig
    (l) Unrhyw syniadau eraill?

21. O ystyried eich profiad hyd yn hyn, beth fydd y rhaglen Ariannu Hyblyg wedi'i gyflawni yn ardal eich awdurdod lleol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon (h.y. diwedd mis Mawrth 2019) yn eich barn chi?

    (a) Cynllunio strategol o fewn y sefydliad
    (b) Unrhyw newidiadau i ddulliau Dadansoddi Anghenion
    (c) Enghreifftiau o Ddefnyddio Cyllid mewn modd Hyblyg
    (d) Arloesedd mewn Cyflenwi Gwasanaeth / Cynllun Peilot Cyflenwi Gwasanaeth
    (e) Canlyniadau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Defnyddwyr y Gwasanaethau
    (f) Rhesymoli Gwasanaethau / Effeithlonrwydd Cyflenwi
    (g) Comisiynu/Dad-gomisiynu gwasanaethau
    (h) Llywodraethu Prosiect gan gynnwys sut fydd y rhaglen yn cael ei goruchwylio a'i rheoli
    (i) Newidiadau i'r ffordd mae fy sefydliad yn gweithio
    (j) Dulliau cyflenwi rhanbarthol ac isranbarthol
    (k) Mwy o weithio cydgysylltiedig
    (l) Unrhyw syniadau eraill?

22. Yn eich barn chi, beth fydd y prif ffactorau ar gyfer cymell y llwyddiannau hyn?

23. Beth yw'r prif rwystrau tebygol ar gyfer unrhyw lwyddiant hyd at fis Mawrth 2019?

24. Yn eich barn chi, beth allai'r rhaglen Ariannu Hyblyg ei gyflawni o fewn ardal eich awdurdod lleol ar ôl mis Mawrth 2019?

    (a) Cynllunio strategol o fewn y sefydliad
    (b) Unrhyw newidiadau i ddulliau Dadansoddi Anghenion
    (c) Enghreifftiau o Ddefnyddio Cyllid mewn modd Hyblyg
    (d) Arloesedd mewn Cyflenwi Gwasanaeth / Cynllun Peilot Cyflenwi Gwasanaeth
    (e) Canlyniadau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Defnyddwyr y Gwasanaethau
    (f) Rhesymoli Gwasanaethau / Effeithlonrwydd Cyflenwi
    (g) Comisiynu/Dad-gomisiynu gwasanaethau
    (h) Llywodraethu Prosiect gan gynnwys sut fydd y rhaglen yn cael ei goruchwylio a'i rheoli
    (i) Newidiadau i'r ffordd mae fy sefydliad yn gweithio
    (j) Dulliau cyflenwi rhanbarthol ac isranbarthol
    (k) Mwy o weithio cydgysylltiedig
    (l) Unrhyw syniadau eraill?

25. Yn eich barn chi, beth fydd y prif ffactorau ar gyfer cymell y llwyddiannau hyn?

26. Beth yw'r prif rwystrau tebygol ar gyfer unrhyw lwyddiant ar ôl mis Mawrth 2019?

27. Pa elfennau allweddol y dylwn eu mesur er mwyn dangos effaith y rhaglen Ariannu Hyblyg ar ardal eich awdurdod lleol?

**Gwersi Allweddol a Ddysgwyd**

28. Pa agweddau o'r rhaglen Ariannu Hyblyg sydd:
    (a) Wedi gweithio'n dda hyd yn hyn?
    (b) Heb weithio cystal hyd yn hyn?

29. Yn seiliedig ar eich profiad chi, pa feysydd fyddech chi'n ei ddweud sy'n hanfodol ar gyfer gweithredu'r rhaglen Ariannu Hyblyg yn llwyddiannus at y dyfodol?

30. Beth yw'r cyfrwng gorau ar gyfer rhannu'r gwersi hyn?

31. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am y rhaglen Ariannu Hyblyg?

# Gwerthuso Rhaglen Ariannu Hyblyg

Canllawiau trafod a chefndir ar gyfer cynnal cyfweliadau gyda:
(a) Rhanddeiliaid a Phartneriaid gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Trydydd Sector

**Cwestiynau / pwyntiau trafod**

1. Enw'r unigolyn sy'n cael ei gyfweld a'r Sefydliad:

2. Awdurdod Lleol?

| | |
|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful **(Braenaru)** |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr **(Braenaru)** | Cyngor Sir Fynwy |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Cyngor Caerdydd **(Braenaru)** | Cyngor Dinas Casnewydd **(Braenaru)** |
| Cyngor Sir Gâr | Cyngor Sir Penfro |
| Cyngor Sir Ceredigion | Cyngor Sir Powys |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy **(Braenaru)** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf **(Braenaru)** |
| Cyngor Sir Ddinbych | Dinas a Sir Abertawe |
| Cyngor Sir y Fflint | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen **(Braenaru)** |
| Cyngor Gwynedd | Cyngor Bro Morgannwg |
| Cyngor Sir Ynys Môn | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

| | |
|---|---|
| Braenaru | Eraill |

**Eich Cyfrifoldebau**

3. Beth yw teitl eich swydd?
   (a) Rhowch drosolwg o'ch rôl a sut mae'n berthnasol i'r rhaglen Ariannu Hyblyg?

**Deall y Prosiect Ariannu Hyblyg**

4. Beth yw eich dealltwriaeth o brif amcan(ion) y rhaglen Ariannu Hyblyg?

5. Beth yw amcanion y rhaglen Ariannu Hyblyg yn ardal eich awdurdod lleol?

6. Beth yw uchelgais benodol Ariannu Hyblyg yn ardal eich awdurdod lleol?

7. Beth sy'n eich cymell i weithredu Ariannu Hyblyg yn y modd hwn yn ardal eich awdurdod lleol?

8. Pam?

**Darparu a Llywodraethu'r Prosiect**

9. Pa ddulliau ar gyfer gweithredu'r prosiect Ariannu Hyblyg y mae eich awdurdod lleol yn eu hystyried?

10. A oedd rhai o'r dulliau hyn yn bodoli cyn gweithredu'r prosiect Ariannu Hyblyg?

11. Pa ddulliau sydd wedi cael eu cynllunio o ganlyniad i weithredu'r prosiect Ariannu Hyblyg?

12. Pa ddulliau ar gyfer gweithredu'r prosiect Ariannu Hyblyg sydd eisoes ar waith yn ardal eich awdurdod lleol?

13. Pa ddatblygiadau sydd wedi digwydd wrth weithredu'r prosiect?

14. Ydych chi'n meddwl fod y rhain wedi cael effaith gwahanol, neu wedi achosi canlyniadau gwahanol, ar y grant/grantiau rydych chi'n gyfrifol amdanynt o'u cymharu ag unrhyw grantiau eraill?

15. Beth yw heriau/rhwystrau mwyaf sylweddol y broses weithredu hon yn ardal eich awdurdod lleol hyd yn hyn?

16. Sut mae'r awdurdod lleol yn mynd i'r afael â'r heriau/rhwystrau hyn?

17. Pa newidiadau sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r prosiect Ariannu Hyblyg yn ardal eich awdurdod lleol?

18. Pa rôl y mae eich Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol yn ei chwarae yng ngweithredu'r prosiect?

19. Hyd yn hyn, ydych chi'n meddwl fod angen newid y modd y caiff y rhaglen Ariannu Hyblyg ei gweithredu yn ardal eich awdurdod lleol?

20. Pam hynny?

**Canlyniadau - Tymor Byr, Tymor Canolig, Tymor Hir**

21. Yn eich sefydliad/swydd, beth yw'r canlyniadau mwyaf arwyddocaol y mae'r rhaglen Ariannu Hyblyg wedi'u cyflawni, os o gwbl?

    (a) Cynllunio strategol o fewn y sefydliad
    (b) Unrhyw newidiadau i ddulliau Dadansoddi Anghenion
    (c) Enghreifftiau o Ddefnyddio Cyllid mewn modd Hyblyg
    (d) Arloesedd mewn Cyflenwi Gwasanaeth / Cynllun Peilot Cyflenwi Gwasanaeth
    (e) Canlyniadau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Defnyddwyr y Gwasanaethau
    (f) Rhesymoli Gwasanaethau / Effeithlonrwydd Cyflenwi
    (g) Comisiynu/Dad-gomisiynu gwasanaethau
    (h) Llywodraethu Prosiect gan gynnwys sut fydd y rhaglen yn cael ei goruchwylio a'i rheoli
    (i) Newidiadau i'r ffordd mae fy sefydliad yn gweithio
    (j) Dulliau cyflenwi rhanbarthol ac isranbarthol
    (k) Mwy o weithio cydgysylltiedig
    (l) Unrhyw syniadau eraill?

22. O ystyried eich profiad hyd yn hyn, beth f bydd y rhaglen Ariannu Hyblyg wedi'i gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon (h.y. diwedd mis Mawrth 2019) yn eich barn chi?

    (a) Cynllunio strategol o fewn y sefydliad
    (b) Unrhyw newidiadau i ddulliau Dadansoddi Anghenion
    (c) Enghreifftiau o Ddefnyddio Cyllid mewn modd Hyblyg
    (d) Arloesedd mewn Cyflenwi Gwasanaeth / Cynllun Peilot Cyflenwi Gwasanaeth
    (e) Canlyniadau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Defnyddwyr y Gwasanaethau
    (f) Rhesymoli Gwasanaethau / Effeithlonrwydd Cyflenwi
    (g) Comisiynu/Dad-gomisiynu gwasanaethau
    (h) Llywodraethu Prosiect gan gynnwys sut fydd y rhaglen yn cael ei goruchwylio a'i rheoli
    (i) Newidiadau i'r ffordd mae fy sefydliad yn gweithio
    (j) Dulliau cyflenwi rhanbarthol ac isranbarthol
    (k) Mwy o weithio cydgysylltiedig
    (l) Unrhyw syniadau eraill?

23. Yn eich barn chi, beth fydd y prif ffactorau ar gyfer cymell y llwyddiannau hyn?

24. Beth yw'r prif rwystrau tebygol ar gyfer unrhyw lwyddiant hyd at fis Mawrth 2019?

25. Yn eich barn chi, beth allai'r rhaglen Ariannu Hyblyg ei gyflawni ar ôl mis Mawrth 2019?

    (a) Cynllunio strategol o fewn y sefydliad
    (b) Unrhyw newidiadau i ddulliau Dadansoddi Anghenion
    (c) Enghreifftiau o Ddefnyddio Cyllid mewn modd Hyblyg
    (d) Arloesedd mewn Cyflenwi Gwasanaeth / Cynllun Peilot Cyflenwi Gwasanaeth
    (e) Canlyniadau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Defnyddwyr y Gwasanaethau
    (f) Rhesymoli Gwasanaethau / Effeithlonrwydd Cyflenwi
    (g) Comisiynu/Dad-gomisiynu gwasanaethau
    (h) Llywodraethu Prosiect gan gynnwys sut fydd y rhaglen yn cael ei goruchwylio a'i rheoli
    (i) Newidiadau i'r ffordd mae fy sefydliad yn gweithio
    (j) Dulliau cyflenwi rhanbarthol ac isranbarthol
    (k) Mwy o weithio cydgysylltiedig
    (l) Unrhyw syniadau eraill?

26. Yn eich barn chi, beth fydd y prif ffactorau ar gyfer cymell y llwyddiannau hyn?

27. Beth yw'r prif rwystrau tebygol ar gyfer unrhyw lwyddiant ar ôl mis Mawrth 2019?

**Gwersi Allweddol a ddysgwyd**

28. Pa agweddau o'r rhaglen Ariannu Hyblyg sydd:
    (a) Wedi gweithio'n dda hyd yn hyn?
    (b) Heb weithio cystal hyd yn hyn?

29. Yn seiliedig ar eich profiad chi, pa feysydd fyddech chi'n ei ddweud sy'n hanfodol ar gyfer darpariaeth lwyddiannus o'r rhaglen Ariannu Hyblyg wrth symud ymlaen?

30. Beth yw'r cyfrwng gorau ar gyfer rhannu'r gwersi hyn?

31. Yn seiliedig ar y cwestiynau rydych chi wedi eu hateb i ni heddiw, oes yna rywun arall y dylwn ni siarad gyda nhw am y rhaglen Ariannu Hyblyg?

| |
|---|
| Enw a Theitl Swydd:<br><br>E-bost:<br><br>Rhif Ffôn: |

32. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am y rhaglen Ariannu Hyblyg?

# Atodiad B - Astudiaethau Achos Ar gyfer Gweithredu'r Rhaglen

## Astudiaeth Achos y Rhaglen Ariannu Hyblyg – Conwy

| Cefndir |
|---|
| Mae Conwy yn ystyried defnyddio'r rhaglen Ariannu Hyblyg fel cyfle i wneud gwell defnydd o'r deg grant sy'n cael eu cynnwys yn y rhaglen, gan chwilio am fwy o gyd-drefniant rhyngddynt er mwyn darparu mwy o gefnogaeth drwy'r grant Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chymorth (EIPS). Ar ddechrau gweithredu'r rhaglen, roedd hi'n anodd sicrhau cyd-drefniant effeithiol rhwng y grantiau er mwyn bwrw ymlaen gyda'r gwaith, yn enwedig gan fod systemau adrodd pob grant yn wahanol o fewn yr awdurdod. Er bod pwysau ariannol yn parhau i fod yn sylweddol, mae newidiadau demograffig diweddar yn golygu bod galw am wasanaethau cefnogaeth i deuluoedd, ond mewn ardaloedd gyda stoc o dai mwy newydd yn hytrach na'r ystadau a fu'n ganolbwynt i'r gwaith hwnnw yn wreiddiol.<br><br>Un o'r prif ffactorau y mae'r awdurdod yn canolbwyntio arno yw newid i ddull sy'n addasu gwasanaethau i fodloni anghenion pobl leol mewn ffordd haws na'r gwrthwyneb - gofyn i bobl gydymffurfio â gofynion grantiau penodol. Mae hyn yn cyd-fynd gydag agenda ehangach yng Nghonwy i drawsnewid - Tîm Conwy |
| **Agweddau Diddorol o'r Dull** |
| Mae Conwy wedi canolbwyntio ar ddull sy'n ceisio datblygu trefniadau darparu lleol. Mae'r awdurdod wedi cael ei rannu'n bum rhan. Datblygwyd y gwaith o ganfod yr ardaloedd o ganlyniad i'r ystyriaeth fanwl a roddwyd i'r ffiniau sy'n bodoli yn y sir, er enghraifft, dalgylch ysgol, ffiniau iechyd, a strwythurau cynghorau cymuned a chynghorau tref. Trwy droshaenu'r rhain, datblygodd 5 ffin naturiol y cytunwyd arnynt gan y partneriaid drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.<br><br>Mae'r gwaith cychwynnol yn canolbwyntio ar sefydlu cyfres o wasanaethau cefnogaeth ymyrraeth gynnar ar gyfer teuluoedd sy'n cynnwys darpariaeth drwy raglen Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Chefnogi Pobl. Mae'r rhaglen Ariannu Hyblyg wedi cyrraedd ar yr amser delfrydol, sy'n eu galluogi i barhau gyda'r agenda y maen nhw wedi bod yn canolbwyntio arno ers peth amser erbyn hyn. O ganlyniad, mae ganddynt Swyddog Rhianta trwy raglen Dechrau'n Deg sydd wedi newid i weithio hanner yr amser o dan adain Cyfiawnder Ieuenctid hefyd er mwyn cyfuno'r ddau faes mewn perthynas ag ymyrraeth gynnar. |

| **Dysgu o Weithrediad y Rhaglen** |
| --- |
| Roedd Conwy eisoes yn edrych ar fwrw ymlaen gyda'r agenda. Er bod Ariannu Hyblyg yn dal i fod yn y cyfnodau cynnar, mae'n cael ei ddefnyddio fel adnodd i gefnogi'r ymgyrch i sicrhau newid. Mae'r trafodaethau hyn, sydd wedi eu hysgogi gan yr ymgyrch i roi'r rhaglen Ariannu Hyblyg ar waith, wedi codi ymwybyddiaeth ymysg holl arweinwyr y grantiau ynglŷn â darpariaeth pob grant a dealltwriaeth well o ble byddai modd creu cyswllt neu integreiddio. Mae hyn wedi datgelu rhai materion cudd, ond mae'r sgyrsiau gonest sydd wedi codi ohono yn creu cyfleoedd ar gyfer ffyrdd newydd o weithio.<br><br>Mae sylfaen y dull o weithredu yn canolbwyntio ar fodel rheoli rhaglen a ddatblygwyd dros y blynyddoedd diwethaf yn yr awdurdod cyn bodolaeth y rhaglen. Mae pum gwahanol Bennaeth Gwasanaeth wedi dod ynghyd. Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth hyn yn arwain ar y deg grant sy'n cael eu cynnwys yn y rhaglen Ariannu Hyblyg. Mae tîm darparu wedi cael ei sefydlu sy'n canolbwyntio ar gyfres o becynnau gwaith sydd angen eu darparu 1)Ymchwil yn edrych ar anghenion a'r ddarpariaeth bresennol; 2) Cyfleoedd ar gyfer cyd-gynhyrchu; 3) Dewisiadau comisiynu a dad-gomisiynu; 4) Monitro a Gwerthuso; 5) Gweinyddiaeth.<br><br>Mae'r gwaith y mae'r grŵp yn ei wneud yn cael ei oruchwylio gan dri phwyllgor Craffu, ac mae hefyd yn cydfynd â'r Bwrdd Trechu Tlodi sy'n cael ei sefydlu yn y fwrdeistref. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi chwarae rôl fechan iawn o ran gweithredu'r dull hwn, ond mae disgwyl y bydd yn chwarae rôl bwysicach yn hwyrach yn y broses. |
| **Effeithiau a Chanlyniadau Cynnar** |
| Mae'r grŵp yn cydweithio'n ddyddiol ac mae'r ddarpariaeth eisoes wedi dechrau gyda rhai effeithiau a chanlyniadau yn dod i'r amlwg. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:<br>• Mae pryderon cychwynnol a nerfusrwydd yn amlwg iawn ond mae'r teimladau hyn yn cael eu trechu gan yr agwedd gyson tuag at gydweithio sy'n cael ei hwyluso gan y dull cydlynol o reoli rhaglen. Mae hyn yn rhoi rhagolwg clir o sut mae gweithgareddau adolygu ac ail-lunio darpariaeth y gwasanaeth yn cydfynd.<br>• Mae heriau'n parhau gyda 'Cefnogi Pobl', sydd â safle cryf iawn o fewn y meysydd cyllid grant, sy'n ceisio ail-lunio agweddau o'r ddarpariaeth mewn dulliau sy'n berthnasol i'w flaenoriaethau yn hytrach nag anghenion penodol y rheiny sy'n gallu derbyn cymorth Ariannu Hyblyg ar adegau.<br>• Mae adolygiad o wasanaethau/cefnogaeth bellach yn cael ei gynnal mewn dull llawer mwy trefnus sy'n galluogi adolygu grantiau mewn ffordd gyfartal sy'n berthnasol i dystiolaeth ynglŷn â phrofiad o'r ddarpariaeth.<br>• Mae agweddau tuag at y rhaglen yn dechrau newid wrth i bobl ddod at ei gilydd i adrodd ar y cyd ar y gweithredu, y broses a'r datblygiad.<br>• Roedd y gwaith cychwynnol yn gofyn am fuddsoddiad amser sylweddol gan gyfranogwyr ac mae'r tîm yn poeni fod disgwyliadau ynglyn â beth fyddai'n bosib yn y flwyddyn gyntaf yn uchel iawn. Hyd yn hyn, mae eu profiad yn awgrymu fod angen i'r gwaith barhau ar ôl y flwyddyn ariannol hon.<br>• Mae cynnydd yn cael ei wneud ym maes cynllunio strategol ond mae llawer o waith i'w wneud yn dilyn canlyniadau'r adolygiadau sydd eisoes ar waith. Ceir rhai enghreifftiau bychain o ariannu hyblyg ac mae datblygu Canolfan Deulu yn arddangos elfennau o arferion arloesol. Mae'r gwaith comisiynu wedi datblygu'n sylweddol a bellach mae'n cael ei ddylanwadu gan y pum Pennaeth Gwasanaeth yn wahanol i'r arfer yn y gorffennol, ac mae disgwyl y bydd popeth yn ei le erbyn mis Mawrth 2019. |

| **Gwersi Allweddol a Ddysgwyd** |
|---|
| • Gwerth dull gydweithredol o reoli rhaglen sy'n berthnasol i grantiau ac yn rhoi rhagolwg clir ar gyfer adolygu ac unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth sy'n deillio ohono.<br>• Mae Ariannu Hyblyg yn galluogi/hwyluso cydweithio yn gynt na fyddai'n bosib hebddo, a gyda'r dull rheoli rhaglen, mae graddfa'r gwaith sy'n bosibl ar draws y pum pennaeth gwasanaeth wedi ehangu.<br>• Mae'r rheiny oedd yn cymryd rhan wedi teimlo'n rhan o dîm ehangach fel aelod o grŵp Braenaru ond y byddant wedi gwerthfawrogi mwy o gyfathrebu gydag aelodau eraill a chyfle i rannu arferion a phrofiad yn amlach wrth i bethau newid mor gyflym.<br>• Mae'r dulliau hyn yn cymryd amser ac mae angen sicrhau digon o amser i hwyluso cysylltiadau rhwng gwahanol dimau grantiau er mwyn adeiladu ffydd a mabwysiadu dulliau integredig o weithio. |
| **Awgrymiadau ar gyfer Ystyriaethau Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chymorth (EIPS).** |
| • Mae yna werth i'r dull a fabwysiadwyd gan sir Conwy, ond mae angen amser ar aelodau Braenaru er mwyn gweld canlyniadau'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd. Byddai atgyfnerthu amcanion ac uchelgeisiau Ariannu Hyblyg ac ymrwymo iddynt, yn ogystal â newid i Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chymorth yn cael ei groesawu.<br>• Mae angen i unrhyw ddulliau monitro a chanlyniadau osgoi bod yn rhy ragnodol, gan na fyddai'n ddigon hyblyg i adlewyrchu amgylchiadau ac anghenion pobl sy'n agored i niwed yn llawn. Bydd hyn yn gymorth i leihau'r tebygolrwydd y bydd y rhaglen yn cael ei reoli'n llym a manwl gan Lywodraeth Cymru; mae awdurdodau eisiau'r grym i wneud penderfyniadau allweddol ynglŷn â sut byddant yn darparu'r gefnogaeth a'i amrywio o bosib yn ôl ardaloedd daearyddol os yw'r asesiad o anghenion yn awgrymu mai dyma'r ffordd addas o symud ymlaen. |

**Astudiaeth Achos y Rhaglen Ariannu Hyblyg - Casnewydd**

| **Cefndir** |
| --- |
| Mae Casnewydd wedi bod yn gweithio ar y cysyniad o Hybiau Cymunedol ers 2016 a bydd hyn yn cyd-fynd a'r rhaglen Ariannu Hyblyg ehangach. Mae hyn yn rhedeg ochr yn ochr â ffocws ar ddatblygu dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n ceisio newid o ddulliau cefnogaeth sy'n canolbwyntio'n ormodol ar ariannu, i'r dulliau sy'n gallu cefnogi cleientiaid yn gynt ac yn fwy addas o ganlyniad i gyd-drefniant rhwng y grantiau. Y weledigaeth ar gyfer darparu'r rhaglen yng Nghasnewydd yw gwneud defnydd mwy effeithiol o gyllid i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion lleol trwy sicrhau cydlyniant rhwng rhaglenni a chanfod ffyrdd newydd o weithio a'r posibilrwydd ar gyfer ail-lunio gwasanaethau. |
| **Agweddau Diddorol o'r Dull** |
| Mae'r awdurdod yn agosáu at gwblhau model o Hyb Cymunedol gyda'r datblygiadau a'r cyllid eisoes wedi'u sicrhau ar gyfer agor y cyntaf yn 2019. Rhoddir cipolwg ar ddatblygiadau isadeiledd er mwyn cefnogi rhannu lleoliad a chydweithio, yn ogystal â dull gwahanol o ddefnyddio ystâd swyddfeydd yr awdurdod lleol. Mae'r dull datblygu yn cynnwys pwyslais penodol ar 'weithio'n smart' fel ffordd dda o ddangos sut mae newid diwylliannol yn cael ei symud ymlaen a gallai gynnig dealltwriaeth dda o'r raddfa o feddwl a gweithredu sydd ei angen ar gyfer darparu. |

## Dysgu o Weithrediad y Rhaglen

Mae ymgynghorwr allanol (Wavehill Ltd) wedi cael ei benodi i gynnal adolygiad o brofiad cwsmeriaid, strwythurau llywodraethol/corfforaethol, strwythurau rheoli, comisiynu gwasanaethau a dyblygiad gwasanaethau. Diben hyn yw adeiladu ar adolygiadau sydd eisoes yn bodoli ar grantiau er mwyn casglu mwy o fanylion am brofiadau defnyddwyr a gwerthuso'r opsiynau sydd ar gael i Gasnewydd.

Sefydlwyd grŵp llywio ar gyfer y prosiect, sydd wedi cyfarfod deirgwaith, er mwyn llunio strategaeth gyfathrebu. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan fwrdd cymunedol cadarn a fydd yn datblygu cynllun gwasanaeth a strwythur cydweithredol er mwyn symud y rhaglen Ariannu Hyblyg yn ei flaen yn yr awdurdod.

Bydd agweddau allweddol eraill o'r gwaith parhaus yn cynnwys:

- llunio un system fonitro ar gyfer yr awdurdod a deall fod gofynion unrhyw system TG yn y dyfodol yn hanfodol ar gyfer darpariaeth llwyddiannus
- gweithredu dull cwsmer yn gyntaf a gyflwynir trwy ystod o hybiau cymunedol
- adolygu a chanfod agweddau effeithlon o weinyddu a rheoli
- adolygu effeithiau'r ddarpariaeth ar bartneriaid, y trydydd sector a gwaith rhanbarthol.

Mae'r awdurdod yn canolbwyntio'n benodol ar sut y gallai addasu'r defnydd o'i amgylchedd gwaith (defnyddio swyddfeydd y cyngor ac adeiladau eraill er mwyn i staff a chwsmeriaid weithio ochr yn ochr a'i gilydd). Roedd y gwaith adolygu a arweiniodd at fodel yr hyb wedi canfod nad oedd yr awdurdod yn gwneud defnydd effeithiol o'r lleoedd oedd ar gael, nac yn edrych am ffyrdd o ddefyddio technoleg ddigidol i wella darpariaeth gwasanaethau i gleientiad.

Mae pob grant eisoes wedi cael eu cydlynu mewn un adran ac mae hyn yn hwyluso'r cysylltiadau rhyngddynt yn ogystal â chynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cydweithio.

| Effeithiau a Chanlyniadau Cynnar |
| --- |
| Mae cynnydd yn y pedwar mis ers Ebrill 2018 wedi bod yn fach iawn hyd yn hyn, serch hynny, mae adolygiadau cychwynnol wedi cael eu cwblhau sydd wedi galluogi'r awdurdod i archwilio'r cam nesaf yn y gwaith.<br><br>Bydd angen newid sylweddol yn y diwylliant ac mae hyn yn debygol o fod yn wahanol iawn ar gyfer gwahanol lefelau o staff o fewn yr awdurdod. Mae gweithredu model o ddarpariaeth Hyb Cymunedol yn allweddol ar gyfer y ddarpariaeth yn y dyfodol. Derbyniwyd cymeradwyaeth ar gyfer y model ym mis Gorffennaf 2018 gydag adnewyddiad yr Hyb cyntaf yn dechrau ym mis Ionawr 2019 ac yna bydd yn weithredol o fis Mehefin/Gorffennaf 2019. Roedd angen buddsoddiad hyd at £9 miliwn ar gyfer y cynlluniau hyn sy'n cael ei dynnu o arbedion y prosiect a oedd yn deillio o well cydlyniant ac integreiddiad rhwng gwasanaethau.<br><br>Gwelwyd yr angen i gynnal adolygiad pellach ar ôl tri mis a fydd yn canfod y newidiadau angenrheidiol ar gyfer pob grant er mwyn hwyluso'r newid i gyflawni un set o ganlyniadau ar draws yr awdurdod. |
| **Gwersi Allweddol a Ddysgwyd** |
| • Mae angen i reolwyr canol fod yn rhan o'r broses ac mae angen buddsoddi amser i egluro'r pwrpas iddynt a'r canlyniadau cadarnhaol sy'n debygol o godi o'r newidiadau y bydd yr awdurdod yn eu gwneud.<br>• Mae datblygiad agenda gyffredin drwyddi draw wedi bod yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r datblygiadau hyd yn hyn. Golyga hyn fod grantiau'n deall y cyd-destun ehangach yn ogystal â sut y gallant gyfrannu. Mae hyn hefyd yn galluogi'r staff i ymuno â'r awdurdod ar y daith newydd.<br>• Gall defnydd creadigol o safleoedd presennol fod yn arbennig o werthfawr, ond mae angen buddsoddiad er mwyn gwneud newidiadau, gan gynnwys isadeiledd cadarn yn benodol, fel adeiladau neu gefnogi systemau TG. |
| **Awgrymiadau ar gyfer Ystyriaethau Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chymorth (EIPS).** |
| • I lawer o staff, bydd symudiad i gronfa sengl EIPS yn y dyfodol yn newid diwylliant mawr. Mae rhai yn gweld y grant unigol fel prif ffocws eu 'hunaniaeth' yn y gwaith. Mae'r cynnig am gronfa sengl yn ceisio newid hyn, ac fe fydd angen ymgysylltu â phawb i'w cadw'n gefnogol. |

## Astudiaeth Achos y Rhaglen Ariannu Hyblyg - Rhondda Cynon Taf

| **Cefndir** |
|---|
| Mae RCT wedi bod yn datblygu Rhaglen Teuluoedd Cydnerth ers 2016/17 ac yn defnyddio Ariannu Hyblyg i yrru'r agenda yn ei blaen. Mae Rhaglen Teuluoedd Cydnerth yn galluogi'r Cyngor i gyfeirio ymdrechion cyfunol partneriaid y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector wirfoddol i ddarparu gwasanaethau effeithiol i deuluoedd a chymryd a'u dal yn atebol, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth yn darparu tîm integredig gwell ar gyfer pob trefniant teuluol fel rhan o'r rhaglen ehangach, a'i athroniaeth yw gwaredu rhwystrau er mwyn atgyfnerthu'r teulu. Mae'r ffocws hwn ar ymyrraeth gynnar ac atal yn rhan o agenda ehangach y Cyngor ar gyfer trawsnewid. |
| **Agweddau Diddorol o'r Dull** |
| Roedd RCT yn edrych ar gyfuno adnoddau ar draws yr awdurdod cyn datblygu'r rhaglen Ariannu Hyblyg, ac mae ymyrraeth ac atal yn un o themâu'r awdurdod ar gyfer trawsffurfio corfforaethol. Mae'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth yn cael ei ddefnyddio fel yr unig ffordd o ddarparu cefnogaeth i deuluoedd sy'n agored i niwed yn ardal yr awdurdod, p'run ai trwy waith y Cyngor eu hunain, neu waith gan bartneriaid a rhanddeiliaid eraill yn y sectorau preifat a gwirfoddol. Mae'r gwasanaeth yn anelu at gyrraedd teuluoedd cyn eu bod mewn sefyllfa o argyfwng, neu gefnogi'r rheiny nad ydynt angen ymyrraeth statudol bellach, er mwyn sicrhau eu bod yn osgoi defnydd pellach o wasanaethau o'r fath ble bo'n bosib.<br><br>Roedd y deg grant sy'n cael eu cynnwys yn y rhaglen eisoes yn cydweithio ac fe sefydlwyd y trefniadau hyn ar gyfer cydweithio cyn cyflwyno'r rhaglen Ariannu Hyblyg. Mae ffocws daearyddol iddo hefyd gyda'r agenda trawsnewid ehangach yn cael ei ddefnyddio er mwyn sefydlu rhwydwaith o ardaloedd cymunedol drwy'r awdurdod a fydd yn edrych ar rannu lleoliad gwasanaethau er mwyn cefnogi unigolion a theuluoedd sy'n agored i niwed. Mae RCT yn defnyddio'r rhaglen Ariannu Hyblyg fel cyfrwng allweddol ar gyfer darparu'r agenda integreiddio. Un o'r cysyniadau allweddol sylfaenol yw canolbwyntio ar brofiad defnyddwyr y gwasanaeth, ac mae adolygiadau cychwynnol wedi dangos pa mor gymhleth yw'r rhwydwaith a ddefnyddiwyd gan y defnyddwyr i gael cefnogaeth, a bod llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi cael eu colli yn ystod y newid mewn rhaglenni/grantiau. Trwy sicrhau integreiddiad, bwriad yr awdurdod yw symleiddio'r system i'w gwneud yn haws i'r defnyddwyr ganfod y gefnogaeth addas, gydag un pwynt mynediad ar gyfer nifer o wahanol wasanaethau cefnogaeth, er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn derbyn y gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir. |

| Dysgu o Weithrediad y Rhaglen |
|---|
| Dechreuwyd gweithredu'r rhaglen ym mis Gorffennaf 2018 ar ôl i'r cynlluniau i fwrw ymlaen gyda'r rhaglen Ariannu Hyblyg gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn ganolog i'r gydnabyddiaeth hon oedd fod angen i'r dulliau adlewyrchu gwahaniaethau lleol rhwng Merthyr Tudful a RCT, ond bod cyfres o egwyddorion yn cael eu cytuno er mwyn i'r ddarpariaeth ddatblygu yn RCT (mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn fwrdd ar y cyd sy'n ymwneud â'r ddau awdurdod).<br><br>Mae'r gwaith o weithredu model darpariaeth integredig ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal, yn canolbwyntio ar y weledigaeth o ddarparu'r gefnogaeth gywir, ar yn adeg gywir, ac i'r bobl gywir, a bydd yn cynnwys y canlynol:<br><br>• grwpiau targed cynhwysol i fodloni anghenion unigol, teuluol a chymunedol i hwyluso cydweithio agosach rhwng gwasanaethau a darparu buddion presennol rhaglenni unigol sydd eisoes yn bodoli o leiaf.<br>• cydnabyddiaeth glir o'r angen ar gyfer cefnogaeth ymyrraeth gynnar ac atal<br>• llwybr clir at gefnogaeth, fel rhan o gontinwwm sy'n darparu'r gefnogaeth gywir, i'r bobl gywir ar yr adeg gywir gydag un pwynt mynediad cyffredinol<br>• cyfres o egwyddorion darpariaeth gweithredol cyffredin a ffocws ar gydweithio sy'n sicrhau bod cefnogaeth ar gael i'r yr unigolion cywir, ar yr adeg gywir, ac yn y lleoliadau cywir gyda gwasanaethau megis rhianta ar gael yn gyffredinol<br>• datblygu fframwaith canlyniadau unigol effeithiol<br><br>Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth fydd y catalydd ar gyfer y model integredig hwn sy'n cael ei ariannu trwy sawl grant ond sydd hefyd yn derbyn cyllid craidd gan yr awdurdod lleol, ac mae'r rhaglen Ariannu Hyblyg hefyd yn galluogi darpariaeth, nad yw'n cael ei gyfyngu gan feini prawf cymhwysedd, trwy un mynediad er mwyn symleiddio'r broses gyfeirio cyffredinol. |
| **Effeithiau a Chanlyniadau Cynnar** |
| Mae effeithiau a chanlyniadau yn brin gan mai dim ond ym mis Gorffennaf 2018 y cymeradwywyd y rhaglen ar gyfer ei weithredu. Serch hynny, mae'n amlwg fod llawer mwy o gydweithio rhwng gweithgareddau sydd wedi derbyn arian grant, a bod atgyfeiriad yn cael ei drefnu'n fwy strategol trwy un mynediad. Ceir hefyd fwy o ffocws ar yr effaith gadarnhaol mae darpariaeth integredig yn ei gael ar ganlyniadau defnyddwyr y gwasanaeth yn hytrach na'r rhwystrau a grëir gan wahanol feini prawf cymhwysedd ar gyfer grantiau.<br><br>Mae timoedd sy'n ymwneud â Chamddefnyddio Sylweddau a Thrais Domestig wedi dewis bod yn rhan o drafodaethau Ariannu Hyblyg er mwy archwilio beth yw'r ffordd orau iddynt gael eu cynnwys yn y continwwm o gefnogaeth sydd ar gael ac a oes cyfle i brif ffrydio ychydig o'r gefnogaeth. |

| Gwersi Allweddol a Ddysgwyd |
| --- |
| • Mae'r cysylltiad gydag agenda trawsnewid ehangach yr awdurdod, sy'n cael ei arwain gan Aelodau o'r Cabinet ac Uwch-swyddogion, wedi bod yn gymorth i ddod â phobl at ei gilydd i drafod integreiddio.<br>• Mae sicrhau bod arweinwyr a staff sy'n darparu'r gwasanaethau mewn un lle i drafod darparu gwasanaeth o'r gwaelod i fyny yn hanfodol. Mae hyn wedi amlygu'r ffaith fod rhai o ddefnyddwyr y gwasanaethau wedi symud trwy wahanol grantiau a chefnogaeth mewn ffordd gymhleth iawn a oedd yn cynnwys rhywfaint o wrthdaro neu gam-gymharu anghenion. Mae'r safbwyntiau hyn wedi bod yn allweddol i ddarbwyllo staff i ymgymryd â'r gwaith a'r newidiadau fydd yn cael eu rhoi ar waith. Mae'r ffaith fod rhai defnyddwyr wedi cael eu colli i wasanaethau o ganlyniad i drawsnewidiad cymhleth mewn trefniadau darpariaeth wedi rhoi ffocws i'r meddwl. Mae rhaglenni yn sylweddoli nad ydynt yn cefnogi pobl yn y ffordd roedden nhw wedi meddwl.<br>• Serch hynny, mae hyn yn broses barhaus; wrth i ddealltwriaeth o'r ddarpariaeth ddatblygu, mae angen ail edrych ar yr ymateb i'r ddarpariaeth o'r gwaelod i fyny fel nad yw unigolion yn cael eu gadael ar ôl gan brosesau/darpariaeth newydd/wedi'u hadolygu.<br>• Mae datblygiad y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth wedi cymryd 2-3 blynedd o waith ymchwil ac arbrofi; mae dealltwriaeth lawn o anghenion cyflenwi gwasanaethau a chyfleoedd i integreiddio yn cymryd amser a bydd ymrwymiad parhaus i'r agenda yn sicrhau bod y cyfleoedd a ganfyddir yn cael eu defnyddio'n briodol. |
| **Awgrymiadau ar gyfer Ystyriaethau Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chymorth (EIPS).** |
| • Mae profiad defnyddwyr, o'r gwaelod i fyny, ac anghenion darpariaeth, yn hanfodol i ddeall gofynion cefnogaeth grwpiau sy'n agored i niwed, yn ogystal â deall cymhlethdod profiadau cyson yr unigolion hynny ar hyn o bryd. Er mwyn llwyddo, mae angen dull strwythuredig a systematig ar Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chymorth ar gyfer dadansoddi anghenion a darparu'r gwasanaethau dilynol. |